



# Bodleian Libraries

UNIVERSITY OF OXFORD

This book is part of the collection held by the Bodleian Libraries and scanned by Google, Inc. for the Google Books Library Project.

For more information see:

<http://www.bodleian.ox.ac.uk/dbooks>



This work is licensed under a Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 2.0 UK: England & Wales (CC BY-NC-SA 2.0) licence.




3156 e. 7






351 . 7







"EU HIAITH A GADWANT."---TALIESIN.

GRAMMADEG  
CYMREIG;

YN CYNWYS

Sylwadau Yselaeth

AR

LYTHYREG, | GEIRYDDIAETH,  
ACENYDDIAETH, | A CHYSTRAWEN.

HEFYD,

CYFARWYDDIADAU PRIODOL

ER CYNORTHWY Y

*Sawl a chwennydhont ymgyrhaedd at Eglurdeb  
a Thlysnï Ymadrodd.*

GAN Y PARCH. ISAAC JONES.

Yr Ail Argraffiad, wedi cael ei Ddiwygiadu a'i Yselaethu.

E bery Iaith y Brython—tra gwelir  
Tir Gwalia uwch eigion;  
Pur o hyd y pery hon,  
Tra nosio pysg trwy *Neifion*.

IEUAN GLAN GEIRIONYDD.

ABERYSTWYTH:

ARGRAFFWYD AC AR WERTH GAN E. WILLIAMS,  
*Rhif 9, Heol-y-Bont.*

Pris

1841.

2s.

Entered at Stationers' Hall.



3156 e 7

# GRAMMADEG CYMREIG;

SEF,

TRAETHAWD

AR

EGWYDDORION YR IAITH.

HEFYD,

CYFARWYDDIADAU PRIODOL

ER CYNORTHWY Y

SAWL A CHWENNYCHONT YMGYRHAEDD AT EGLURDEB  
A THLYSNI YMADRODD.

---

GAN Y PARCH. ISAAC JONES.

---

YR AIL ARGRAFFIAD, WEDI EI DDIWYGIO A'I HELAETHU.

~~~~~  
A pha beth, pa bleth rydd fwy blas—na gair  
Am gywrain fawr urddas  
Y deg iaith, fad, gyweithas,  
I *ni'n* gu—gan *Dic* yn gas?—DANIEL DDU.  
~~~~~

ABERYSTWYTH:

ARGRAFFWYD AC AR WERTH GAN E. WILLIAMS,  
9, HEOL Y BONT.

Entered at

Stationers' Hall.

1841.

8000  
49 7 1964  
LIBRARY

## RHAGLITH.

---

Y MAE yn dra rhesymol i ni farnu, i'r Creawdwr gyfranau i ddyn yn Ngwynfa, nid yn unig lafar-beiriannau, neu alluoedd i draethu ei syniadau, ond hefyd iaith ac ymadrodd; fel yr oeddynt ein rhieni cyntaf yn gallael amlygu yn ddioed eu meddyliau i'w gilydd, ac i'r Arglwydd eu Gwneuthurwr, mewn ymadroddion addas, dealladwy. Yr oedd dyn, fel creadur cymdeithasol, wedi ei gynnysgaethu â phob cymhwysder i hyny, fel pob peth arall perthynol iddo; ac y mae yr holl hanes am dano, a draddodir gan y Deddfroddwr Iuddewig, yn caniatáu yn amlwg le i ni feddwl hyny, er na chyfarfyddwn â gair yn hysbysu hyny yn neillduol. Mynegir yn amlwg, nad oedd ond un *iaith* yn y byd, hyd y cymysgedd yn Babel. Pa iaith ydoedd hono, y mae llawer o amrywiaeth barn: ond y mae hawl yr Hebraeg i'r blaenoriaeth cystal, os nad gwell, nag un, yn nhyb llawer. Ond mewn perthynas i nifer yr ieithoedd a darddasant o'r cwch dwyreiniol hwn, nis gellir cyrhaedd hollol sicrwydd. Gan fod rhifedi y penau cenedl yn Gen. x. yn 72, drwy gyfrif tri mab Noah, oddiyma, tebygol, y deilliodd y traddodiad mai 70 neu 72 oedd rhifedi ieithoedd gwreiddiol Babel. Y mae tystiolaethau ereill yn y Gair a ddangosant nad yw y traddodiad hwn wedi ei adeiladu ar dyb cwbl ddisail. Moses, wrth adgoffa dosparthiad y ddaiar rhwng meibion Adda, sef teuluoedd Noah ar ol y dylif, a ddywed, yn Deut. xxxii. 8, "Pan gyfranodd y Goruchaf etifeddiaeth y cenedloedd, pan neillduodd efe feibion Adda, y gosododd efe derfynau y bobloedd yn ol *rhifedi meibion Israel*." Gwyddom yn ddilys mai 70 oedd rhifedi teulu Jacob, y rhai a ddaethant i'r Aipht; ac oddiwrth hyn casgla y traddodiad uchod ychwanegol nerth fyth. I ba nifer yr ymgangenodd y 72 uchod wedi hyny, nid oes dyn a wŷr yn sicr. Gan mai felly y dygwyddodd, nid oes i'w wneuthur mwyach ond defnyddio y moddion llwyddiannus i dal-fyru y llafur o'u dysgu, y rhai ydynt Rammadegau a Geirlyfrau.

Traethodau yn dwyn yr enw o Rammadegau Cymreig ydynt yn lled luosog. Dywed rhai hynafiaethwyr iddynt weled oddeutu 30 o honynt, naill ai mewn llaw-ysgrifen neu yn argraffedig. Yn mhlith y blaenaf, yr un a deilynga grybwylliad neillduol a gyfansoddwyd tua diwedd y 9fed ganrif, gan GERAINT FARDG GLAS, un o brif enwogion Cymru am ddysgeidiaeth a phob gwybodau; adolygwyd ef wedi hyny gan EINION, yn nghanol y 12fed ganrif; a thrachefn gan EDEYRN, oddeutu y flwyddyn 1260—ac yn y dull hwnw y trosglwyddwyd ef i ni: eithr yr oedd y llyfr gwreiddiol yn

gadwedig yn Nghastell Rhaglan, cyn dystyrio y lle hwnw yn rhyfeloedd gwaedlyd CROMWEL. Y nesaf mewn bri a gyfansoddwyd gan DAFYDD DDU o Hiraddug, oddeutu 100 mlynedd wedi hyny. Y mae ereill i'w cael, yn gasgledig gan TUDUR ALED, GWILYM LLEYN, a SIMWNT FYCHAN, oll yn Feirdd o fawr enwogrwydd yn eu dydd a'u cenedlaeth. Y cyfryw Rammadegau ag a argraffwyd, a gyfansoddwyd gan y gwyr canlynol:—1. Eiddo GRUFFYDD ROBERTS, argraffedig yn Milan, yn B. A. 1567. Yr oedd hwn yn dra buddiol a chywraint er gosod allan sylfaen y Gymraeg a'i pherthynasau, heb gyfhwrrd ond ychydig â barddoniaeth. Am ei fod yntau hefyd yn aelod o Athrofa Sienna, gellir barnu ei fod ar delerau cyfeillgar â Dr. RHYS, yr hwn, yn ei gyflwyniad o'i waith i Syr EDWARD STRADLING, a'i cyfenwa ef yn wr o ddysg tra helaeth, ac yn athraw philosophyddiaeth. 2. Eiddo Dr. J. DAFYDD RHYS, yn Gymraeg a Lladin, yn 1592. Cynwys y Grammadeg hwn 304 o du dalenau, 41 o ba rai a dreulir i olrhain yr hyn a ellir eu galw priodoliaethau llythyregol yr iaith, 87 yn ychwaneg ar ei nodau cystrawenol mwyaf neillduol, a'r 176 gweddilliedig ydynt ar fydryddiaeth Gymreig. Er iddo gymeryd poen fawr i eglurhau rheolau barddoniaeth yn gyflawnach na neb o'i flaen, eto, am fod y rhan fwyaf o'i ymadroddion dysgedig yn yr iaith Ladin, bu hyny yn rhwystr i gyffrediniaid annysgedig Cymru i dderbyn nemawr fuddioldeb oddiwrtho. 3. Eiddo GWILYM SALESBURY, cyfieithydd haeddbarch y Testament Newydd i'r Gymraeg, mewn cysylltiad â'r Esgob DAVIES, yn 1547. 4. Eiddo y pendefig celfyddgar hwnw, GWILYM GANOLDREF (*William Middleton*), o deulu Gwenynog, yn Swydd Dinbych, yn 1593. Yr oedd hwn yn dra chywraint, o'i faintioli, er hyfforddiad Prydyddion. 5. Eiddo y Brytwn digymhar y Dr. JOHN DAVIES, o Mallwyd, yn Meirion, yn Gymraeg a Lladin, yn 1621. Cyfansoddwyd hwn yn fwy penodol er gosod allan briodolderau gwreiddiol yr iaith, heb sylwi ond ychydig ar farddoniaeth, oddigerth anghreiffitiau cynghaneddol i gadarnhau teilyngdod yr iaith. 6. Eiddo y Parch. WILLIAM GAMBOLD, Periglor Puncteston, yn Swydd Penfro, a osodwyd allan yn Seisonaeg a Chymraeg, yn 1727, er egluro yn bendant gynneddfau, sylfaeni, a godidogrwydd y Frythonaeg i'r Seison, ac ereill ddysgawdwyr a Pheriglorion ieuainc ag oeddynt anfedrus a thrwsgl yn eu hiaith gynhenid. 7. Eiddo SION RHYDDERCH, yn y flwyddyn ganlynol. Treuliodd efe y rhan olaf o'i oes fel Argraffydd, yn Amwythig, lle y cyhoeddodd ei Rammadeg, a hefyd Geirlyfr Cymreig a Seisonig bychan. 8. Eiddo y Parch. THOMAS RICHARDS, o Langrallo, yn Morganwg, yn 1753. Cyfieithiad i'r Seisonaeg ydyw hwn, gan mwyaf, o Rammadeg Lladin y Dr. J. DAVIES, o Mallwyd. 9. Eiddo GWILYM OWAIN PUGHE, LL. D., blaenddodedig i'w Eirlyfr, yr hwn a gyhoeddwyd yn 1803. 10. Eiddo ROBERT DAVIES, Eiliedydd rhagorgamp Nantglyn, yn Gymraeg oll. Yr argraffiad diweddfaf o hwn a fu yn 1826.

Er yr holl Rammadegau athrawiaethol a grybwyllwyd uchod, eto, oblegyd eu pris, neu y dafodiaith yn mha un eu cyfansoddiwyd, nid oes un o honynt mor wasanaethgar i werin uniaith Cymru ag y dymunid eu bod; canys prif amcan y rhan fwyaf o'u hawdwyr oedd dangos i genedloedd estronol odidogrwydd a chyflawnder y Frythonaeg. Gan hyny, ar ddymuniad rhai ewyllyswyr da i'r iaith, cymerais y gorchwyl llafurus mewn llaw i gasglu o'u hysgrifeniadau gorchestol y pethau a dybiwn yn fwyaf buddiol at wasanaeth fy nghydwladwyr, er eu hyfforddiad a'u llwybreiddiaeth yn mhrif ffyrdd rhai o'u hynafiaid ardderchog gynt. Eithr, oherwydd y cyfnewidiadau a wnaed yn fynych yn y syniadau a'r iaith, er ychwanegol gysondeb, ac er eu cyfaddasu at y dybenion neillduol er mwyn pa rai yr arweiniwyd hwynt i mewn, ac, ar lawer o achlysuron, oblegyd yr annilysrwydd i bwy y perthynent yr ymadroddion yn ddechreuol, anaml y gallwyd doddi enwau yr awdwyr wrth eu cyfansoddiadau: a phe gallesid gwneyd hyn yn gyffredin, ni ddeilliai unrhyw fuddioldeb i waith o'r natur hon oddiwrtho, cyfatebol i'r annghyfleusdra o grugio y tu dalenau âg ailadroddion o enwau a chyfeiriadau.

Yr wyf yn y Traethawd canlynol wedi egluro ac amddiffyn yr hyn a elwir y *trefniant newydd* o silliadau y Gymraeg, am ei fod, i'm tyb i, yn gwbl gyfatebol â phrif ansoddau a gofynion anhebgor yr iaith. Anhawdd, y mae yn debyg, a fyddai cyfarfod â chynnyrch o'r fath ddistadledau diansawdd ac anfuiddiol, y fath gymhwylliadau mabanaidd ac anhybwyll, a'r fath hunandybiau hyderus, ag a dywalltwyd allan yn y freithell ddiweddar, yn nghylch y trefniant, neu yn hytrach, yr *amnhrefniant* cyntefig, o grefadurau Beirdd ac Athrawon tra dysgedig, ar lawer o gyfrifon: ond pan fydd culni rhagfarnllyd at ryw wrthddrych yn gorseddu yn meddyliau dynion, ofer yw dywedyd wrth y cyfryw am *gywirdeb* ac addasrwydd y peth ynddo ei hun. Gŵyr pawb mai nwyd anhawdd i ymddiosg o honi ydyw rhagfarn.

Er fy mod wedi adganmawl a mabwysiadu y trefniant newydd, eto, pan yn dyfynu darnau cyfain o waith awduron ereill, glynais yn lled ddiesgeulus, os nid hyd eithaf ffyddlondeb, â chydwybod ddiuedd, wrth llythraeth, geiriadaeth, a dull yr ymadroddion, fel ag a'u cefais yn eu llyfrau, heb newid, gan belled ag yr wyf yn cofio, cymaint a llythyren, na geiryn yn nghystrawen yr ymadrodd. Fy marn i yw y dylid, wrth fenthycio gwaith ereill, pa un bynag ai yn argraffedig neu ysgrifenedig y byddo, ymgadw yn ddiwrthgil wrth ddull y llythraeth ag oedd fwyaf ymdaenol yn oes yr ysgrifenyddion.

Gair yn rhagor am *Goelbren y Beirdd*. Dull onglog y llythyr- enau Barddawl hyn a ddeillia o angenrheidrwydd oddiwrth eu bod yn cael eu tori ar goed â chylllell gyffredin, ac ar ba rai y byddai yn anhawdd, a bron yn analluadwy, i'w tori yn gylchaid: o'r tu arall, âg ysgrifell, pwyntel, neu yr hen ysgrifbin (*stylus*), ffurfir hwynt yn gylchaid gyda llawer mwy o rwyddineb. Yr hen nodau

Etruscaidd ydynt, oddigerth un neu ddwy o lythyrenau, yn hollol gyfunddull â Choelbren y Beirdd. Yr Etruscaid oeddynt breswylwyr hynaf yr Eidal, yn un o'r llwythau Celtaidd, a'u nodau hwy oeddynt y rhai a adwaenwyd gyntaf gan y Rhufeiniaid. Y mae yn beth tra hynod fod y nodau hyny wedi myned mor hen ac anghynefin yn yr amser y rhuthrodd y Rhufeiniaid gyntaf i mewn i Ynys Prydain, fel y dywed un o'r ysgrifenydd Rhufeinig ei fod yn beth anhawdd cael gwr yn Rhufain a fedrai ddarllain y creiffiau ar wyddfäau teulu SCIPIO, ac ni chaid neb a fedrai ddarllain y creiffiau Etruscaidd hynaf. Wrth ystyried y pethau hyn, rhaid i ni gasglu nad arweiniwyd y nodau hyn i mewn i Brydain gan y Rhufeiniaid, nodau, pa rai, pan dorasant ar ein traws ni, oeddynt yr un wedd ag yn bresennol. Un ysgrifenydd Lladinaidd, wrth roddi hanes am y math hwnw o fwrdd ag a alwai y Rhufeiniaid *Sigma*, pa un oedd ar ddull hanner lleuad, a ddywed, y deillia ei enw oddiwrth ei fod yn gyffelyb i'r llythyren Roegaidd o'r enw hwnw; eithr nid y *Sigma* bresennol yn sicr, ond y *Sigma* Roegaidd (C): ac yno cymer achlysur i sylwi fod yr hen nodau Groegaidd yn cael eu ffurfio yn yr un dull a'r rhai hyny a arferid yn y *cynoesoedd* yn yr Eidal. Onid ydyw yn ymddangos yn debygol oddiwrth hyn, mai yr un oeddynt y llythyrenau Groegaidd y dywed CAISAR eu bod yn arferedig gan y Derwyddon, ag eiddo yr hen Etruscaid, y rhai ydynt hefyd gyfunddull â Choelbren y Beirdd? Ni ddylid byth fod yn rhy bendant mewn dychymygon o'r natur hon; ond y mae yn dra sicr nad ydynt y llythyrenau Groegaidd diweddar yn cyfateb i eiddo yr hynafiaid.

Oni buasai diffyg lle, dywedasad ychwaneg am y nodau hyn, ac hefyd rhoddasid darlun o *Beithynen*, neu hen lyfr Barddawll, yr hyn, dianmheu, a weinyddasai ryw ddifyrwch i'r ambell un ag y mae rhai defnyddiau o waed ei gyndadau clodwiw yn ergydio drwy ei redweliau. Nid oes genyf yn awr ond cymeryd fy nghanad, gydag addewid anamwys o fod, ar bob adeg, yn barod ac ewyllysgar i wasanaethu fy nghydgenedl yn mhob anoferwaith.

*Aberystwyth,*  
*Hyddfref 15, 1832.*

ISAAC JONES.

Yn yr ail argraffiad hwn, diwygiwyd yr ychydig wallau a lithrasent i mewn yn y cyntaf, adysgrifiwyd rhai darnau, ac ychwanegwyd amryw sylwadau pellach lle y bernid hyny yn angenrheidiol. Y mae y gymeradwyaeth ddibrin a dderbyniodd y Grammadeg hwn yn brawf nad ofer a fu y llafur o'i gyfansoddi; a dengys y galwad parhaus am dano, o'r gwahanol barthau yn mha rai y trigianna Cymry, fod cynydd canmoladwy yn awydd y genedl yn gyffredin i goleddu a diwyllio y Frythonaeg haeddbarch.

*Mawrth 1, 1841.*

# CYNWYSIAD.

---

## RHAN I.—AM LYTHYREG.

	Tudal
PEN. I.—Am Ansawdd Egwyddor gyflawn . . . . .	9
II.—Am y Llafariaid . . . . .	14
III.—Am y Deuseiniaid a'r Triseiniaid . . . . .	18
IV.—Treigliadau y Cydseiniaid yn nechreu Geiriau	19
V.—Am Silliadaeth a Chyfansoddiad Geiriau . . . . .	24

## RHAN II.—AM ACENYDDIAETH.

PEN. I.—Sylwadau ar Acenyddiaeth briodol . . . . .	32
----------------------------------------------------	----

## RHAN III.—AM EIRYDDIAETH.

PEN. I.—Am Enw Cadarn . . . . .	35
II.—Am Enw Gwan . . . . .	44
III.—Am Ragenw . . . . .	55
IV.—Am Barwyddiad . . . . .	59
V.—Nodwedd Elfyddol y Gymraeg . . . . .	83
VI.—Am Ddatglymiad Elfyddol y Gymraeg . . . . .	88
VII.—Am Orair . . . . .	97
VIII.—Am Fannod . . . . .	102
IX.—Am Gysylltiad . . . . .	103
X.—Am Arddodiad . . . . .	105
XI.—Am Gyfryngiad . . . . .	107

## RHAN IV.—AM GYSTRAWEN.

PEN. I.—Rhagarweiniad . . . . .	108
II.—Am Gystrawen Enw Cadarn . . . . .	110
III.—Am Gystrawen Enw Gwan . . . . .	111
IV.—Am Gystrawen Rhagenw . . . . .	113
V.—Am Gystrawen Parwyddiad . . . . .	114
VI.—Am Gystrawen Gorair . . . . .	116
VII.—Am Gystrawen Bannod . . . . .	117
VIII.—Am Gystrawen Cysylltiad . . . . .	119
IX.—Am Gystrawen Arddodiad . . . . .	120
X.—Am Gystrawen Cyfryngiad . . . . .	121
XI.—Eglurhad ar Gystrawen . . . . .	121



## YCHWANEGIADAU.

	Tudal.
PEN. I.—Am Wahannodiad . . . . .	122
II.—Am Adwahannod . . . . .	123
III.—Am Wahannod . . . . .	128
IV.—Am Orwahannod . . . . .	128
V.—Am Ddiweddeb . . . . .	130
VI.—Am Linell, Gofyneb, Rhyfeddeb, Crwmfach- au, &c. . . . .	131
VII.—Cyfarwyddiadau mewn perthynas i arfer y Prif Lythyrenau . . . . .	136
VIII.—Cyfarwyddiadau i Ddarllain gyda phriodol- der a gweddusder . . . . .	137
IX.—Sylwadau Beirniadol ar y Cyfieithiad Cymreig o'r Bibl, ac ar yr Iaith yn gyffredinol . . . . .	148
X.—Am Reithioreg . . . . .	153

Eglurhad ar Eiriau dyeithr yn y Gwaith hwn.

Acenyddiaeth, <i>prosody</i>	Goddefiad <i>concession</i>
Ad-ddywediad, <i>repetition</i>	Gofyniaith, <i>interrogation</i>
Aralleg, <i>allegory</i>	Gohiriad, <i>suspension</i>
Arddodiad, <i>preposition</i>	Gorair, <i>adverb</i>
Attaliaith, <i>aposiopesis</i>	Gormoddiaith, <i>hyperbole</i>
Awgrym, <i>figure</i>	Gorphwysyadau, <i>pauses</i>
Bannod, <i>article</i>	Graddeb, <i>climax</i>
Byrieithiad, <i>luconism</i>	Gwaeddolef, <i>exclamation</i>
Camarferiad, <i>catachresis</i>	Gwahannodiad, <i>punctuation</i>
Cyferbyniad, <i>antithesis</i>	Gwatwariaith, <i>irony</i>
Cyforddwyn, <i>synecdoche</i>	Gwrthdroad, <i>apostrophe</i>
Cyfraniad, <i>participle</i>	Lleisbwys, <i>emphasis</i>
Cyfreidiad, <i>gerund</i>	Llythyreg, <i>orthography</i>
Cyfyngiad, <i>interjection</i>	Modd mynegol, <i>indicative mood</i>
Cyffelybiad, <i>comparison</i>	gorchymynol, <i>imperative</i>
Cylchymadrodd, <i>circumlocution</i>	galluedigol, <i>potential</i>
Cystrawen, <i>syntax</i>	eiddunedigol, <i>optative</i>
Cysylltiad, <i>conjunction</i>	ammodol, <i>subjunctive</i>
Deuseiniaid, <i>diphthongs</i>	annherfynol, <i>infinitive</i>
Disgynsain, <i>cadence</i>	Parwyddiad, <i>verb</i>
Diweddlef, <i>epiphonema</i>	Rhagenw, <i>pronoun</i>
Dyleddfiad, <i>supine</i>	Rha flaeniad, <i>prevention</i>
Dynsodiad, <i>prosopopœia</i>	Rhithioreg, <i>Rhetoric</i>
Enw cadarn, <i>substantive</i>	Sylwadau, <i>spelling</i>
Enw gwan, <i>adjective</i>	Tyddwyn, <i>metaphor</i>
Geiryddiaeth, <i>etymology</i>	Triadaid, <i>triphthongs</i> .

# GRAMMADEG.

---

GRAMMADEG CYMREIG yw y gelfyddyd o lefaru ac ysgrifenu y Gymraeg yn y modd mwyaf priodol, eglur, a dealladwy.

Dospertir ef yn bedair rhan ; sef, LLYTHYREG, AC-ENYDDIAETH, GEIRYDDIAETH, a CHYSTRAWEN.

## RHAN I.

---

### PENNOD I.—AM LYTHYREG.

---

#### ADRAN I.—*Am ansawdd Egwyddor gyflawn.*

Llythyreg sydd yn dysgu pa' fodd i adnabod defnydd a sain y llythyrenau, a'r dull cymhwys i silliadu geiriau.

Llythyrenau ydynt arwyddion llefariad iaith, drwy ei dangos yn hywel mewn ysgrifen neu argraff.

Y mae llythyrenau gwreiddiol, neu gysefin ; ac y mae llythyrenau tarddedig, neu hanedig.

Rhifedi y llythyrenau cysefin yw deg a chwech ; a mwy na hyny, o barth anian, ni ddichon fod mewn iaith ; sef, pedair o lafariaid, a deg a dwy o gydseiniaid.

Deg a dwy lythyren gysefin sydd o anian gyfnewidiol, wrth angen ymadroddion ; sef, tair o lafariaid, a naw o gydseiniaid.

Yr hanedigion ydynt ddeuddeg a saith o rifedi ; ac wyth o honynt sy lafariaid godidog, heb y deg o dreigliadau ; a deg a naw o gydseiniaid.

Anian y llythyrenau hanedig yw, eu bod yn arwyddo y cyfnewidiadau a berthynant i sain y cysefniaid newidiol, mewn damweiniau ymadrodd.

Llyma egwyddor y llythyrenau cysefin yn canlyn, yn ol eu perthynas :—

*a e i o b m p f c g t d n l r s.*

Ac ar y cyntaf nid arferid ond y rhai hyn gan y Cymry i ysgrifenu eu hiaith ; ac y mae llawer o ysgrif-lyfrau yn ol y dull hwn, oddieithr ychydig amrywiaethau, yn gadwedig hyd heddyw. Ond dylid bod yn hyddysg iawn yn yr iaith er gallu ei darllain fel hyn yn hylithr, heb gyfarwyddyd i ddangos cyfnewidiadau y llythyrenau, oddieithr o ddeall ystyr yr ymadrodd yn unig. Er dileu y rhwystrau hyn y lluniwyd arwyddion y tri chyfnewidiad sain, sef yr ysgafn, y chwyrn, a'r meddal, gan y Beirdd, yr hyn oedd dechreuad ac achos y llythyrenau hanedig, neu yr adlawiaid.

Yr hen ddull o ysgrifenu ydoedd tori y llythyrenau â chyllell ar wŷdd, neu brenau pedryfan ; ac fel hyn byddai pedwar ban, neu bennill, ar bob pren ; a rhwymid y prenau yn nghyd yn beithynen, neu gy-wŷdd : a thebyg mai dyma y dull cyntaf yn y byd, gan fod crybwylliad yn yr Ysgrhythyr am y fath ysgrifenu.

“Tithau fab dyn, cymer i ti un PREN, ac ysgrifena arno, I Juda, ac i feibion Israel ei gyfeillion : a chymer i ti bren arall, ac ysgrifena arno, I Joseph PREN Ephraim, ac i holl dŷ Israel ei gyfeillion : a chydia hwynt y naill wrth y llall yn UN PREN i ti ; fel y byddont yn UN yn dy law di.”—EZEKIEL XXXVII. 16, 17.

Cydnabyddiaeth âg egwyddor yr hen lythyrenau hyny a elwir *Coelbren y Beirdd*, sy gyfarwyddyd gwiw i chwilio dirgelion ein hiaith ; a chan ei bod wedi llithro yn agos ar encil, dylid ei chadw yma, fel y delo eto ar gof gwlad. Llun a threfn yr egwyddor hono a ganlyn :—

## COELBREN Y BEIRDD.

**Λ<K>D>JURC&HILW**  
 a b c ch d dd e f ff g ng h i l ll m

**HOINNTTNYVY**  
 n o p ph r s t th u w y

**AH&JURΛR&FV**  
 â ê ô û û ngh nh mh hw rh

Oherwydd nad ystyriwyd y cyfleusdra, wrth ddechreu argraffu llyfrau Cymreig, yn lle bod y cydseiniaid yn dwyn arwyddion y cyfnewidiadau arnynt eu hunain, fel y gwelir isod, un, neu ddwy, neu dair, o lythyrenau ereill diberthynas a arferir yn y drefn sathredig, i arwyddo y cyfnewidiadau hyny; ac fel hyn y tywyllir bonedd geiriau, a llwyr anharddir yr iaith mewn amryw foddion ereill.

Ond gan mai iawn dangos hyn er cyfarwyddyd at wellhau, ac mai athrawiaethu yr annysgedig i ddeall sail yr iaith, fel y gwelir yn y llyfrau cyffredin, ydyw amcan penaf hyn o orchwyl, dyma yr egwyddor gyffredin yn canlyn ar ei phen ei hun:—

*a b c ch d dd e f ff g ng h i l ll m n o*  
*p ph r s t th u w y.*

Yma y gosodir yr un egwyddor eto, fel y dylai fod, yn gyflawn o lythyrenau; ac yn gyfochrog y gwelir llythyrenau ar ddull Coelbren y Beirdd, wedi eu nodi âg arwyddion y gwahanol gyfnewidiadau.

## YR EGWYDDOR GYSEFIN.

A â..... a â	M m̄..... m f
B b̄ b̄..... b f m	N ..... n
C c̄ c̄..... c g ngh ch	O ô..... o ô
D d̄ d̄..... d dd n	P p̄ p̄..... p b mh ph
E ê..... e ê	R r̄..... r rh
V..... f	S..... s
F..... ff	T t̄ t̄..... t d nh th
G ḡ ḡ..... g - ng	U..... u
H..... h	Ō Ō..... w w̄
I..... i	Y y..... y y
L l̄..... l ll	

ADRAN 2.—*Dosparthiad Sain a Llafariaeth.*

Rhifedi y llythyrenau yn egwyddor gyffredin y Gymraeg yw deuddeg a saith, ac a adnabyddir fel y canlyn:—

*Y Prif Lythyrenau.*

A B C Ch D Dd E F Ff G Ng H I L Ll M  
N O P Ph R S T Th U W Y.

*Y Mân Lythyrenau.*

a b c ch d dd e f ff g ng h i l ll m n  
o p ph r s t th u w y.

Cynwys yr egwyddor saith o lythyrenau a elwir LLAF-  
ARIAID; deg a thair o GYDSEINIAID UNIGOL, neu yn

sefyll ar eu penau eu hunain ; a saith o GYDSEINIAID DYBLYG, neu gysylltiedig.

Saith o'r rhai unigol ydynt lafariaid ; sef, *a, e, i, o, u, w, y* ; ac yn hirion fel hyn, *â, ê, î, ô, û, ŵ, ŷ*.

Y cydseiniaid unigol ydynt, *b, c, d, f, g, h, l, m, n, p, r, s, t* ; a'r dyblyg ydynt, *ch, dd, ff, ng, ll, ph, th*.

O'r llafariaid y mae *w* ac *y* yn llythyrenau tawdd ; hefyd, *a, e, o, w*, yn rhai cyfnewidiol.

Y mae eto ddosparth ar lythyrenau, y sydd o bwys yn unig i amlygu cywreinrwydd ymadrodd a phrydyddiaeth, yn tarddu o rym eu sain, a dull eu llafariaeth.

Y cydseiniaid, yn ol eu gwahanol leoedd mewn geiriau a sillau, a gyfrenir ac a enwir fel y canlyn :—

1. Y golafariaid ydynt ddeg ac un, sef, *ch, dd, ff, ng, l, ll, m, n, r, s, th* ; ac a elwir felly am fod ynddynt hanner sain llafariad o'u hanian eu hunain.

2. Y mudseiniaid ydynt wyth, sef, *b, c, d, f, g, h, p, t* ; ac a elwir felly am na seiniant yn eglur a llafar wrth y llythyrenau gloywon, eithr yn fwy cudd a mudion, fel yn y geiriau hyn, *bron, claf, drud, llwfr*, a'r cyffelyb.

3. Y toddedigion ydynt ddeg a phump, sef, *b, c, ch, d, dd, f, ff, g, ng, l, m, n, r, t, th* ; ac a elwir felly am eu bod yn toddi y llafariad *y* o'r tu ol iddynt, ac yn gwasgu gair deusill yn un ; megys, *llwybr* am *llwybyr*, *ocr* am *ocyr*, &c.

4. Y newidiolion, neu, fel y geilw rhai hwynt, gwasgawd lythyr, ydynt wyth, sef, *b, c, d, g, ll, m, p, t* ; ac a elwir felly am eu bod yn cyfnewid, ac yn diflanu fel gwasgawd neu gysgod, a llythyrenau ereill yn cymeryd eu lle ; megys yn lle *t* y daw *nh, d*, ac *th*, yn y gair hwn, *tad, fy nhad, dy dad, ei thad*.

5. Y goresgyniaid ydynt ddeg a phump sef, *ch, d, dd, f, g, ng, ngh, l, m, mh, n, nh, ph, r, th* ; ac a elwir felly am

eu bod yn goresgyn y llythyrenau newidiol, ac yn eu gyru ymaith, yn mhlethiad ymadrodd, o'u lleoedd gwreiddiol, gan deyrnasu o'u grym eu hunain yn eu lle; megys y gwelir *ch*, *g*, *ngh*, yn cymeryd lle *c*, fel hyn yn y gair *câr*, ei *châr*, fy *nghâr*.

6. Y gormesiaid, neu, fel y geilw rhai hwynt, marchawg lythyr, ydynt saith, nid amgen, *b*, *c*, *d*, *ff*, *g*, *p*, *t*; ac a elwir felly am eu bod yn nechreuad geiriau yn gormesu ar, ac yn marchogaeth tair o gydseiniaid ereill heb lafariad rhyngddynt, sef yr *l*, *n*, *r*, y rhai a elwir goddefiaid; ac yn y fath eiriau a hyn y gormesir arnynt hwy ganddynt, *bron*, *blaid*, *cnwd*, *drud*, *ffrwd*.

7. Y tawddleddfaid, neu, yn ol rhai, cledrau tawddleddf, ydynt chwech, nid amgen, *d*, *dd*, *l*, *n*, *r*, *s*; ac a elwir felly am eu bod, drwy osod llafariad ar bob tu iddynt, yn ffurfio sillau tawddleddf; megys, *cadw*, *enw*, *elw*, *gweddw*, *marw*.

Yn ol y peiriant ymadrodd y byddo y tafod yn fwyaf ei bwys arno wrth gywir barablu, y cydseiniaid a gyfrenir yn dri theulu; sef,

1. Y gwefusolion, am ein bod yn dweyd pob un o honynt wrth nerth y gwefusau yn benaf, ydynt, *b*, *f*, *ff*, *m*, *p*, *ph*.

2. Y deintolion, am fod y tafod ar y dannedd wrth eu llefaru hwynt, ydynt, *d*, *dd*, *n*, *s*, *t*, *th*.

3. Y gorchfantolion, oherwydd fod y tafod, wrth eu llefaru hwynt, yn nhaflod y genau, ydynt, *c*, *ch*, *g*, *ng*, *l*, *ll*, *r*.

---

## PENNOD II.

Y mae pedwar peth yn perthyn i bob llythyren, sef, ei *henw*, *llun*, *trefn*, a'i *gallu*.

Ei *henw* yw y modd y mae yn alwedig; ei *llun* yw y

modd y mae yn argraffedig; ei *threfn* yw ei lle yn yr egwyddor; a'i *gallu* yw ei sain briodol.

*Am y Llafariaid.*

Y llafariaid newidiol ydynt, *a, e, o, w*; gan nad yw *i, u, y*, yn colli eu sain anianol.

A

*A*, yw y llafariad gyntaf yn egwyddor yr holl ieithoedd adnabyddus bron; ac yn nghyfansoddiad ein hiaith ni y mae iddi dri threigliad, sef, *i e, y*, ac *ei*; megys, *caru, cerais; attal, ettyl; cadw, ceidwad*: ac weithiau pan gyfnewidia *i ei*, ffurfia luosogion; megys, *march, meirch; arf, eirf*.

*A*, sy gysylltiad yn rhagflaenu geiriau fyddo yn dechreu â chydsain yn gyffredin, fel y mae *ac* yn gysylltiad o flaen llafariad yn fynychaf; megys, mam *a* thad; hen *ac* ieuanc; tref *a* gwlad; aur *ac* arian, &c.

*A*, hefyd, wrthi ei hun, a saif am ragenw, ac a eglurir fel hyn; '*A* wnelo hyn nid ysgogir yn dragywydd.'

*A*, sy ferf, neu barwyddiad, fel hyn; '*Ac* nid *â* i mewn iddi ddim affan.' '*Yr* halogedig nid *â* ar hyd-ddi.'

*A*, sydd orair, fel y canlyn; '*Yr* enaid *a* becho.' '*Myfi* yw y gwr *a* welodd flinder.'

*A*, sydd hefyd yn arddodiad, fel hyn; '*Ereill* a'i tarawsant ef *â* gwiail.' '*Na* chyfhyrddwch *â* dim affan.' Er fod *a* yn arddodiad wrthi ei hun, y mae hefyd yn gysylltiedig âg enwau gweiniaid, enwau cedyrn, a berfau; megys, *achlwm, a-chlwm; achrwm, a-chrwm; achadw, a-chadw*.

*A*, hefyd, sy gyfryngddod, neu daffodiad, yn arwyddo gofid, dychryn, neu boen; megys, *a! ah! och! &c.*

E

*E*, sy lafariad ag iddi dri threigliad, sef, *i i, u, y*; megys, *maen, meini; aeth, euthym; llem, llym*.



Arferir *e* weithiau yn air wrthi ei hun, sef yn rhagenw priodol, fel hyn,

Syflled pob mis o'i safle,  
Ac aed a gŵyl gydag *e*.—GRO. OWAIN.

*E*, hefyd, sydd orair sicrhaol; megys, '*E* a gâr.'

## I

*I*, sy lafariad ddigyfnewid; ond, yn ngwahanol droadau y Gymraeg, gelwir hi yn rhagenw, fel hyn,

Y pêr afal, os profi,  
Marw a wnei, dyna marn *i*.—*Cywydd y Drindod*.

Yn arddodiad, fel hyn,

Barnodd, fe'u taffodd y Tad,  
*I* boenau di-ddibeniad.—*Cywydd y Drindod*.

## O

*O*, sy lafariad y perthyna iddi ddau dreigliad, sef, i *w* ac *y*; megys, *ton*, *twm*; *ffordd*, *ffyrdd*; *ffon*, *ffyn*.

Arferir *o* yn rhagenw, yn ol dull llygredig rhai parthau o'r Dywysogaeth; megys, 'Dywedodd *o*:' a chan y Beirdd, er mwyn cynganedd; megys,

Oer a pherygl ar Pharo,  
Llas nerth ei holl weision *o*.—G. GANOLDREF.

Yn arddodiad, fel hyn,

Llanwan' bob eirian oror,  
Fawr o faint, *o* fôr i fôr.—*Cywydd y Drindod*.

Yn gysylltiad yn lle *os*, fel hyn,

*O* bu air heb ei warant,  
Goreu dim ei gau â'r dant.—IEUAN DEULWYN.

Yn gyfryngddod, fel hyn,

Dyfod mae amser Dofydd,  
*O* haul, rhed! deued y dydd.—*Cywydd y Drindod*.

## U

*U*, sy lafariad ddigyfnewid, ac heb un amser golli ei sain cyntefig.

## W

*W*, sy lafariad a dreiglir i *o* ac *y*; megys, *trum*, *trom*; *pwn*, *pynau*: y mae *w* yn colli ei sain ar ol y tawddleddfaiad *d*, *dd*, *l*, *n*, *r*, *s*, heb lafariad arall yn ei lle; megys, *gwarchad*, am *gwarchadw*; *arddel*, am *arddelw*.

## Y

*Y*, pan yn rhagflaenu enwau cedyrn, unigol neu luosog, a elwir bannod, i ddynodi pethau neillduol oddiwrth bethau cyffredin; megys,

*Y* Llywydd arno'n llawen  
Droe fwynaidd anwylaidd wên.—*Cywydd y Drindod*.

Yn orair, pan yn blaenu parwyddiad; megys, 'Felly *y* cywirir eich geiriau.'

Dau wahanol sain *y*, sef y *tywyll* a'r *eglor*, a amlygir yn y geiriau, *hyny*, *ystyr*, *llythyr*, *pybyr*, &c. Dealler fod *y* bob amser i'w seinio fel *u* yn y geiriau Seisonig, *hunt*, *fur*; oddieithr yn y sill ddiweddfaf o bob gair, lle y seinia fel *u* Gymreig: yr unig eithriadau i'r rheol hon ydynt y geiriau unsill canlynol, *y*, *ydd*, *ym*, *yn*, *yr*, *ys*, *dy*, *dyd*, *dyt*, *fy*, *myn*, *syr*. Arferai yr henafiaid ddynodi dau sain y llythyren hon âg *e*; megys, '*En e deddiau henne*,' yn lle, '*Yn y dyddiau hyny*.' Bod perthynas rhwng y llythyrenau *y* ac *e* â'u gilydd, sydd eglur, am ein bod yn gwneuthur geiriau estronol a ysgrifeni'r âg *e* yn eiddym ein hunain, drwy gyfnewid *e* i *y*; megys y geiriau Lladin, *testis*, *tyst*; *tempus*, *tymp*; *efangelium*, *efengyl*.

Er fod *y* ac *u* o'r un cyffelyb sain mewn amryw eiriau, eto nid iawn ysgrifenu y naill yn lle y llall: dyledus yw gosod *y*, ac nid *u*, bob amser mewn geiriau ar ol *w*; megys, *bwyd*, *clwyf*, *llwyr*, a'r fath: ac, yn gyffredin, dylid gosod *u*, ac nid *y*, yn niwedd parwyddiad; megys, *caru*, *dysgu*, *chwaethu*; oddieithr pan yn arwyddo parhad o unrhyw

beth yn yr amser dyfodol ; megys, a *bery*, *ffy*, &c. Cofier hefyd fod *a*, *e*, ac *o*, yn cyfnewid i *y*, ac nid i *u* ; megys, *aradr*, *erydr* ; *aberth*, *ebyrth* ; *aros*, *erys*.

### PENNOD III.

#### *Am y Deuseiniaid.*

Deuseiniad yw cysylltiad dwy lafariad yn nghyd yn yr un sill mewn geiriau, ac a lefarir âg un gwthiad o'r llais. Y mae deuddeg a phedair o honynt, fel y dangosir yn ganlynol.

#### CYNLLUN.

ae	aeth	ew	llew	iw	lliw	wa	gwan
ai	rhai	ey	teyrn	iy	iyrchod	we	gwell
au	aur	ia	iar	oe	oed	wi	gwin
aw	awr	ie	iechyd	oi	troi	wo	gwobr
ei	deigr	io	Ior	ow	ffowch	wy	gwyn
eu	lleuad	iu	Iuddew	uw	Duw	yw	ydyw

O'r deuseiniaid y mae chwech, sef, *ae*, *ai*, *au*, *aw*, *ei*, ac *oe*, yn gyfnewidiol ; megys, *maen*, *meini* ; *bai*, *beiau* ; *aur*, *euraid* ; *brawd*, *brodyr* ; *lleidr*, *lladron* ; *oen*, *wyn*.

Yn lle *ai*, byddai yr henafiaid yn ysgrifenu *ei* ; ac *eu* am *au*. Yn y Deheudir arferant *ou* yn lle *au* yn y Gogledd ; megys, *our*, am *aur* ; *houl*, am *haul*.

#### *Am y Triseiniaid.*

Triseiniad yw cysylltiad tair o lafariad yn nghyd, ac a lefarir yn yr un modd a deuseiniad. Y mae deg ac wyth o honynt.

#### CYNLLUN.

iae	afiaeth	iei	ieithydd	wae	chwaer	way	gwayw
iai	cyfaith	ieu	ieuanc	wai	gwair	wei	gweini
iau	doniau	iew	iewin	wau	gwaun	weu	gweuad
iaw	cyfiawn	ioe	erioed	waw	gwawr	wew	gwewyr
		wiw	gwiw	—	wyw		gwywo

Er y dygwydd fod amrai lafariaid yn nghyd yn yr un gair, eto ni chyfrifir yn lluosseiniaid ond y cynifer ag a gyfrenir yn sillau o honynt ; megys, *llyw-iawdr* : gan hyny ni elwir y llafariaid cyfnesaf, megys, *diul*, *rhieni*, a'r cyfryw, yn ddeuseiniaid ; nac ychwaith y rhai cyfnesaf, megys, *uwyr*, *euog*, *awel*, yn driseiniaid ; ac am nad ydynt unsain, ond amrafael sillau, gelwir hwy llafariaid o flaen llafariaid.

---

#### PENNOD IV.

##### *Treigliadau y Cydseiniaid yn nechreu Geiriau.*

Y mae y cyfryw eiriau ag sydd yn dechreu â chydseiniaid cyfnewidiol, megys, *b*, *c*, *d*, *g*, *ll*, *m*, *n*, *p*, *r*, a *t*, yn eu harferiad cysefin, yn newid eu llythyrenau dechreuol gwreiddiol hyn, fel y bydd yr achos yn gofyn, ac yn ol yr effaith a fydd gan y geiriau blaenorol arnynt.

Y mae treigliad y *llythyren ddechreuol* bob amser yn rheolaidd, ac yn wastad rhwng llythyrenau a fyddant yn cael eu llefaru gan yr un peiriant ymadrodd ; oherwydd nid yw y *gwefusolion* byth yn cael eu cyfnewid i *ddeintolion*, na'r *deintolion* i *wefusolion*, &c.

Ac ni ddylai neb ryfeddu oblegyd y cyfnewidiad hwn yn y cydseiniaid dechreuol, canys y mae hefyd chwech llythyren yn yr Hebraeg, sef C. P. T, B. G. D. weithiau yn cyfnewid eu sain ; y rhai a elwir gan Rammadegwyr, *Begad Cephath*.

#### B

*B*, y gyntaf o'r cydseiniaid, sydd yn cyfnewid i *m*, ac *f* ; megys, *bara*, fy *mara*, dy *fara* ; *bywyd*, fy *mywyd*, dy *fywyd*. Y mae y llythyren hon yn cadw ei lle yn yr holl ddynweddiadau lluosog ; megys, ein *bywyd*, eich *bywyd*, eu *bywyd*.

## C

Geiriau yn dechreu â *c*, a dreiglir i *ch*, *g*, ac *ngh*; megys, *câr*, ei *châr*, ei *gâr*, fy *nghâr*.

## Ch

*Ch*, sy gydsain ddigyfnewid; megys, *chwaer*, dy *chwaer*, ei *chwaer*: gwasanaetha hefyd fel llawforwyn i *c*, fel y gwelir uchod.

## D

Geiriau yn dechreu â *d*, a dreiglir i *dd*, ac *n*; megys, *Duw*, ei *Dduw*, fy *Nuw*.

## Dd

Arferir y gydsain hon er esmwythâu ar *d*, ac felly y mae mor belled yn llawforwyn iddi; megys,

Gelyn yw i *ddyn* ei *dda*.

## F

*F*, sydd yn ol anian a throell ymadrodd, yn cymeryd lle *b*, ac *m*; megys, *brawd*, ei *frawd*; *mory*, y *fory*.

## Ff

Cyfrifir y gydsain hon yn mhlith yr annghyfnewidiolion; ond, ar yr un pryd, y mae yn ei natur yn tueddu at ormesiaeth; megys, *ffluch*, *ffrwyth*.

## G

Geiriau yn dechreu â *g*, a dreiglir i *ng*; megys, *gwas*, fy *ngwas*: bwrir *g* allan weithiau mewn cyfansoddiad, yn ddylynol i'r rhagenwau meddiannol, gan adael y llafariad nesaf iddi yn ddechreuol; megys, *gwas*, ei *was*; *gwaith*, ei *waith*.

## Ng

*Ng*, sydd weinidoges i *g*, yn canlyn y rhagenw meddiannol *fy*; megys, *gwlad*, fy *ngwlad*: ond dilëir *ng* ar ol pob gair arall; megys, fy *mam-wlad*.

## H

Gelwir y llythyren hon yn arwydd uchenaidd, a chanlynir hi bob amser â llafariad, oddieithr yn y geiriau hyn, *annhrefnus, annhraethadwy, anghreiffiau, &c.*: ac er nad addefir hon megys llythyren berffaith, eto hi a amlyga yr angenrheidrwydd o seinio y llafariad ddylynol iddi gydag anadliad cryf; megys, *hael, haul, hawl, &c.* Felly, gyda phriodoldeb, gellir ei galw yn *ebychnod*.

## L

*L*, sy gydsain ddigyfnwid; ac, o ran ei sain, bob amser yn feddal ac esmwyth. Pan ei harferir yn ddylynol i ragenw meddiannol, hi a gymer le *ll*; fel hyn, *llaw, dy law; llaeth, ei laeth*.

## Ll\*

Geiriau yn dechreu â *ll*, fel y gwelir uchod, a dreiglir i *l*; megys, *llaw, ei law, dy law*.

---

\* Eglur yw na ddichon i ddyblygiad y *D* neu yr *L*, byth yn naturiol ddynodi sain garw-gryf y llythyrenau hyny, ond yn unig effeithia i ddyblygu y sain gwreiddiol, megys yn y geiriau Seisonig *madder, mallard*. Ni chadwir yr anghysondeb hwn am na chyflwynna yr egwyddor Rufeinig i ni ein dewisiad o unrhyw gyfundeb arall o llythyrenau i arwyddo y sain: yn y gwrthwyneb, dodiad *Dh* ac *Lh*, arferedig gynt, yn eu lle, a dueddai mewn mesur mawr i symud yr anhawsdra. Yn yr ysgrif-lyfrau Cymreig henaf, nid oes dim gwahaniaeth i'w weled rhwng y llythyrenau hyn a'r *D* a'r *L* cyffredin: eithr gadewid i'r darllenydd, oddiwrth ei adnabyddiaeth o'r iaith, i wneuthur y gwahaniaeth yn y sain, lle y byddai angenrheidiol. Oddeutu y flwyddyn 1400, neu yn gynarach, y mabwysiadwyd gyntaf y dull o ddyblygu y llythyrenau, fel yr arferir yn awr. Eithr Dr. GRUFFYDD ROBERTS, yn ei Rammadeg Cymreig (y cyntaf a argraffwyd erioed), cyhoeddodd yn *Milan*, yn 1567, a osododd, yn lle y llythyrenau hyn, *D* ac *L* â nodau danynt; yn yr hyn y dilynwyd ef gan HUMPHREY LLWYD, GWILYM SALESBURY, a ROGER SMITH. Dr. J. D. RHYS, pa fodd bynag, yn ei Rammadeg Cymreig clodfawr, a argraffwyd yn 1592, a wrthododd y nodau, ac a arferodd *Dh* ac *Lh* yn eu lle, megys y gwnaethai Dr. POWEL hefyd yn ei "*Hanes Cymru*," cyhoeddoddig wyth mlynedd cyn hyny. Dr. DAVIES, yn ei Ram-

## M

Geiriau yn dechreu â *m*, a dreiglr i *f*; megys, *mam*, ei *fam*, dy *fam*.

## N

Ni pherthyn i'r gydsain hon un cyfnewidiad. Cyfrifir hi yn un o'r goresgyniaid pan ei harferir yn y cyfryw eiriau a'r rhai hyn, *dyn*, fy *nyn*, &c. [*Nod.* Seinir *m* ac *n* yn anadl-gryf yn y Deheudir; megys, ei *mham*, ei *nhai*.]

## P

Geiriau yn dechreu â *p*, a gyfnewidir i *b*, *mh*, a *ph*; megys, *pen*, ei *ben*, fy *mhen*, ei *phen*.

## Ph

*Ph*, sy lawforwyn i *p*, ac a arferir yn mhob gair y byddo *p* yn ddechreuol iddo; megys, *pobl*, a *phobl*, ei *phobl*. Y gwir wahaniaeth rhwng *ff* a *ph*, yw, ein bod yn ysgrifenu âg *ff*, naill ai y cyfryw eiriau ag sydd yn Gymraeg bur, megys, *ffon*, *ffau*, *ffordd*, *ffelaig*; neu y fath eiriau ag sydd yn deilliaw oddiwrth eiriau Lladin ysgrifenedig gyda *f*, megys, *ffydd*, *ffynnon*, *ffurf*, *ffenstr*, *perffaith*: ond yr ydym yn gosod *ph*, ac nid *ff*, yn nghanol pob gair cyfansawdd a fydd a'r *p* wreiddiol wedi ei chyfnewid i *ph*; megys, *triphen*, o *tri-pen*; *gorphen*, o *gor-pen*; *gorphwys*, o *gor-pwys*.

---

madeg, argraffedig yn 1621, ac wedi hynny yn ei Eirlyfr, yr hwn a ymddangosodd yn 1632, a wnaeth y cyfnewidiad nesaf, drwy ddi-leu y *Dh* a'r *Lh*, ac adferu yr hen lygriad o'r llythyrenau dyblyg; pa rai, yn ganlynol, a barhasant mewn arferiad hyd gyhoeddiad yr *Archæologia Britannica* gan Mr. E. LLWYD, yn 1707, pan wnaed ymegniad i adsefydlu y llythyrenau a fabwysiadwyd gan Drd. POWEL a J. D. RHYS. Ond er dylun cynllun Mr. LLWYD, mewn rhan; eto, ni chafodd hwn, nac ymdrechadau diweddarach GWILYM OWAIN PUGHE, LL.D., yr effaith ddymunol. Y mae y llythyrenau dyblyg yn parhau i gadw eu tir; ac y mae y drwg, hwyrach, wedi gwreiddio yn rhy ddwfn i'w ddiddymu byth mwy.

## R

*R*, sy gydsain ag *h* bob amser i'w chynorthwyo wrth ddechreu gair; megys, *rhial*, *rhygnell*, *rhith*: eithr yr *h* a ddilëir weithiau mewn cyfansoddiad; megys, *rhwyd*, ei *rwyd*.

## S

Ni pherthyn i hon unrhyw dreigliad; eithr y mae, yn ngwyneb yr holl chwyldroadau, yn sefyll yn ddigyfnewid.

## T

Geiriau yn dechreu â *t*, a newidir i *d*, *nh*, ac *th*; megys, *tad*, dy *dad*, fy *nhad*, ei *thad*.

## Th

*Th*, yw y ddiweddaf o'r cydseiniaid; nid yw y llythyren hon byth yn dechreu un gair Cymreig, ond pan fyddo yn dreigliad oddiwrth *t*; megys, *tafod*, ei *thafod*.

CYNWYSDREM AR DREIGLIADAU

	<i>Gwreiddiol.</i>	<i>Ysgafn.</i>	<i>Chwyrn.</i>	<i>Meddal.</i>
	EICH	DY	FY	EI
B	Bara	Fara	Mara	Bara
C	Câr	Gâr	Nghâr	Châr
D	Duw	Dduw	Nuw	Duw
G	Gwaith	Waith	Ngwaith	Gwaith
Ll	Llaw	Law	Llaw	Llaw
M	Mam	Fam	Mam	Mam
P	Pen	Ben	Mhen	Phen
Rh	Rhan	Ran	Rhan	Rhan
T	Tad	Dad	Nhad	Thad

Y CYDSEINIAID CYFNEWIDIOL.



Yr egwyddor hon o gyfnewidiad y llythyrenau, fel trefniant rheolaidd, sy briodol i'r Gymraeg, er fod effaith y cyfryw chwannogrwydd mewn rhai o'r llythyrenau i gyfnewid eu sain i'w weled yn treiddio drwy bob iaith. Yn yr Hebraeg, er anghraifft, y mae chwe llythyren, y rhai a seinir yn ysgafn neu chwyrn, yn ol fel y byddant wedi neu heb eu harwyddo â'r nodyn a elwir *dages* : ac yn y Grywaeg y mae rhai llythyrenau, a elwir *mudseiniaid*, y rhai a amrywiant eu sain o'r ysgafn i'r meddal a'r chwyrn, fel y gellid dangos yn eglur drwy lawer o anghreiffiau wedi eu tynu oddiwrth y parwyddiaid Grywaidd. Ond, yn y Gymraeg, y mae yn rheoli rhai o brif ddulliau cyfansoddiad, yn gystal gyda golwg ar gystrawen ag ar gyd-sodiad geiriau. Yr agweddiadau, neu y cyfnewidiadau, hyn a ymddangosasant, bob amser, fel rhwystrau mawrion i ddyeithriaid. Y cyfryw ymddangosiad sydd i'w briodoli, mewn rhan, os nad yn gwbl, i ddau achos, er nad yw y naill na'r llall o honynt yn wreiddiol yn y trefniant : un o honynt yw, na chafodd y cyfatebiad a hanfoda rhwng y cyfnewidiadau ei osod allan a'i egluro drwy gynlluniau priodol, hyd yn ddiweddar ; a'r llall yw, o achos fod yr iaith wedi cael ei thwyll-wisgo mewn llythyrenau dyeithr i'w haniau, ac annghyfartal i gynnrychioli pob croyw-lefariad digymysg ynddi, heb ymgyrchu at lythyrenau diberthynas, ac weithiau arfer rhai dyblyg a thriphlyg, yn lle nodau unigol yr egwyddor wreiddiol.

---

## PENNOD V.

### ADRAN 1.—*Am Silliadaeth a Chyfansoddiad Geiriau.*

Sill yw cynulleidfa o lythyrenau a barablr â'r un anadliad, heb gyfnewid nac ysgogi y llais ; geill gynwys o un

lythyren hyd saith, sef o un i dair o lafariaid yn gysylltiedig âg un neu fwy o gydseiniaid ; megys, *a, af, awr, cawr, grawn, gwraig, gwraint* : ac ni ddichon fod mwy na saith lythyren mewn un sill Gymreig.

Geiriau o un sain cysefin, megys *am, da, îr*, ac ereill gyfryw, ydynt ddefnydd yr holl eiriau cyfansawdd sydd yn y Gymraeg. Y geiriau o ddull nesaf i gyntefigion fel hyn a ddeuant o gyfansoddi dau neu dri o honynt yn nghyd ; megys, *tad, mam, gwynt, gwan, llais, tant, traeth*, a llawer ereill : a chyd na byddo tro ar y llafar, nid yw y geiriau cyfansawdd hyn ond o un hyd amser eu sain â'r cyntefigion, a sill yw yr enw priodol arnynt. Lluaws o eiriau mân, tebyg iddynt hwy, fel cymalau mewn aelod, a wnant sillau i lunio geiriau hirion ; megys, *daioni, gogoniant, goresgynwr, tragwyddoldeb*, a llaweroedd ereill ; ac o ba rai y gwelir dangosiadau yn y sillyddion Cymreig.

Harddwch yr iaith yw fod ei geiriau yn dangos eu defnydd cysefin yn amlwg ; a chan hyny iawn yw ysgrifenu pob gair yn null ei ddefnydd, heb na mwy na llai o lythyrenau nag a fyddo yn ei ranau cysefin ar wahan, rhag cuddio ei ddechreuad neu ei darddiad. Prin y gwelir cymaint ag *un* llyfr yn ein hiaith, yn enwedig wedi ei ysgrifenu yn ddiweddar, heb fod yn llawn o feiau fel hyn ; megys, *llann, torri, cammu, cenhedlu, &c.* Ond eto iawn yw cadw pob llythyren a fyddo gwreiddyn y gair yn ei gofyn, neu ei hadlawiad, os cyfnewidiol fydd ; megys, *annhrugarawg, annedwydd, meddiannau*, ac ereill o'u bath ; oherwydd mai treigliad y rhai hyn sy fel y canlyn, *antrugarawg, an-dedwydd, meddiant-au* ; a hyn wrth fod *t* a *d* yn treiglo i *nh* ac *n* mewn cyfansoddiad.

Y Gymraeg sydd yn lluosog iawn o eiriau cysefin, sef, o rai byrion unsill ; a gwiw a fyddai i bawb a chwennychai

ei dysgu yn hylithr, geisio yn fanwl iawn i wybod ystyr y geiriau hyn; canys cyfarwyddyd yn y defnydd sydd yn arwain y meddwl i ganfod perthynasau yr holl gyfansoddiad yn amlwg.

Mae llawer o eiriau cysefin yn gweini tair swydd; sef, yn enwau cedyrn, yn barwyddiaid o drydydd dynweddiad unig, ac yn arwyddocau yr ansoddau damweiniol hynny a gydunant â'u hystyr cyntefig. Rhai o honynt hefyd, megys adlawiaid, a weinyddant yn arddodiadau, goreiriau, a chysylltiadau.

Y geiriau tarddedig, neu y sydd yn hanu o rai cysefin, ydynt yn amrywio yn eu cyfansoddiad mewn llawer modd; ac yn eu hyd hefyd, o ddwy i bedair, pump, chwech, a saith o sillau, neu fwy; eto nid gorchest arferu geiriau hirach na phedair sill, os gellir yn hawdd eu hebgor.

Mae tair trefn ar y moddion o gyfansoddi y geiriau tarddedig neu ddisgynedig; sef, gydag arddodiaid a therfyniadau, a'r ddwy yn nghyd. Yr arddodiaid ydynt y canlynol:—

A	am	cyf	dam	dos	ed	gor	hy	rhy
ach	an	cym	dar	dy	edd	gos	lled	tra
ad	ar	cyn	ded	dym	eil	gwr	lly	try
add	as	cynt	di	dys	er	gwrth	ofer	ym
af	cy	cys	dir	e	es	han	oll	ys
all	cyd	dad	dis	ech	go	hu	rhag	

Llawer o'r rhai uchod a gyfansoddir yn nghyd, ac yn y cyflwr hwnw a gysylltir âg enwau cedyrn; megys,

Ad-ddy	annar	annghys	dian	goled	traym	ymgyd
ador	annedd	arddis	diddos	gorym	ymad	ymgyf
ados	anni	cyfym	diddy	goym	ymdry	ymgyn
adym	annir	dadym	diled	gwrthym	ymddad	ymgys
adymddir	annis	darym	dirag	lledar	ymddar	ymos
adymgys	annos	dia	diwrth	lledym	ymddi	ymry
adys	anys	diad	diym	lledys	ymddir	ymwrth
anadd	annghyd	diadd	diys	rhyddar	ymd dis	
anes	annghyf	diaf	dyddym	rhyddi	ymddy	
anhy	annghyn	diam	dym	rhyor	ymgy	

Y terfyniadau a arferir i gyfansoddi geiriau tarddedig ydynt y rhai hyn,

Ach	megys	ysbleddach	iach	megys	cyfeilliach
ad	...	tröad	iad	...	toriad
aeth	...	gwybodaeth	iaeth	...	dysgeidiaeth
ai	...	llatai	iant	...	mwyniant
an	...	gwylan	iar	...	toniar
ant	...	carant	id	...	rhyddid
ar	...	gwyar	ig	...	oenig
awd	...	pechawd	ineb	...	ffraethineb
awr	...	telynawr	ni	...	trychni
dawd	...	Duwdawd	rwydd	...	cywreinrwydd
deb	...	crynodeb	ur	...	penadur
der	...	gwylder	ures	...	golchures
did	...	dyndid	wch	...	mireinwch
dra	...	tyndra	wg	...	Esyllwg
eb	...	traetheb	wr	...	morwr
ed	...	tynged	wraig	...	llaethwraig
edd	...	nerthedd	yd	...	bywyd
eg	...	rheitheg	ydd	...	gwëydd
ell	...	cyllell	yddes	...	gwniedyddes
en	...	mesen	yll	...	brithyll
es	...	cares	yn	...	dernyn
i	...	barddoni	yr	...	llywiawdyr

Cyfansoddir y rhai uchod hefyd fel hyn,

achwr	megys	cyfeddachwr	iedydd	megys	ceiniedydd
adur	...	traethadur	inebwr	...	godinebwr
aduriaeth	...	traethaduriaeth	inebydd	...	godinebydd
aethwr	...	tystiolaethwr	odiad	...	penodiad
awdwr	...	dysgawdwr	odiaeth	...	penodiaeth
dodiad	...	dwyfundodiad	odraeth	...	llywodraeth
dodiaeth	...	undodiaeth	odraethiad	...	llywodraethiad
dodwr	...	pendodwr	odraethwr	...	llywodraethwr
dodydd	...	pendodydd	odraethydd	...	llywodraethydd
ediad	...	tyngediad	odwr	...	penodwr
edwr	...	tyngedwr	odydd	...	cysodydd
edydd	...	tyngedydd	oriaeth	...	peroriaeth
eiaeth	...	llateiaeth	uriad	...	pechaduriad
elliad	...	cylleliad	wriaeth	...	iechydwrriaeth
ellwr	...	cyllellwr	ychiad	...	heddychiad
ellydd	...	cyllelydd	ychwr	...	heddychwr
iachwr	...	cyfeilliachwr	ychydd	...	heddychydd
iadwr	...	trefniadwr	yddiaeth	...	prydyddiaeth

Y ddeuryw ddefnyddiau uchod a arferir i gyfansoddi yr holl hanedigion cyffredin; ond y mae eto aml amryw-

iaethau o eiriau cyfymlyn, yn enwedig mewn iaith brydyddol ; megys rhai fel hyn,

Aerdarf	cariadfab	fflamddwyn	iseldrem	nawswyllt
anfadgamp	dyfnfor	gwendon	llwydrew	oedran
balchlun	eurdorhogion	hoewdeg	mánod	perfeddnod

Geill geiriau fel hyn hefyd gymeryd arddodiaid a therfyniadau, yn ol yr achosion.

Pob gair cyfansoddedig a ellir ei wahanu yn hydrefn i'w ranau cysefin, heb drosi amgen arno ond a berthyno i gyfnewidiadau y llythyrenau, a soniwyd eisoes am danynt ; a chan hyny nid oes le i fwrw dim ar amcan, oherwydd fod y cyfan yn amlwg drwyddo.

Dylid, wrth silliadu, ranu pob gair cyfansawdd, neu luossill, yn ei gysylltiadau gwahanol ; ac nid ei ranu rhwng dwy gydsain, neu ddwy lafariad, oni bydd cysylltiadau terfynol y gair yn goddef hyny ; megys, *pryd-ferth*, *rhywiog*, *cy-mwyn-as-gar-wch*.

Dylid hefyd, yn ol cysylltiad synwrol y gair, adael llafariad weithiau wrthi ei hun ; sef, yn nechreu gair, fel, *a-thrist*, *o-bry* ; yn nghanol gair, fel, *gall-u-og*, *trist-a-ol* ; yn niwedd gair, fel, *am-can-u*, *bodd-lon-i*.

Pan ddygwyddo rhai geiriau anhawdd eu gwahanu, y rheol oreu yw eu rhanu yn ol cysylltiad anianol y geiriau, yn nesaf ag ellir i'r cyfarwyddyd uchod ; eithr nid ellir rhanu *ch*, *dd*, *ff*, *ng*, *ll*, *ph*, *th*, sef y llythyrenau dyblyg.

#### ADRAN 2.—*Sylwadau pellach ar Silliadaeth.*

Y mae yn hysbys i'r rhan fwyaf o lénorion Cymreig fod dadl eto ar droed yn nghylch y dull goreu o ysgrifenu yr iaith, o barth llythraeth. Y ddadl hon a gyfododd o gylch y flwyddyn 1804, y pryd yr amcanodd y diweddar Barch. T. CHARLES, A.B., o'r Bala, ddiwygio llythyreniad y Bibl ag oedd y pryd hwnw i gael ei argraffu yn Nghaer

Grawnt, dros Gymdeithas y Biblau. Y cynygiad hwn o ddiwygiaeth a gyffrôdd wrthwynebiad nid bychan i Mr. CHARLES; ac er ei fod ef wedi huno mewn heddwch, y mae y rhyfel yn nghylch llythyreniad geiriau yn parhau eto. Amddiffynwyr yr hen drefniant a haerant mai llythyreniad Bibl yr Esgob PARRY, yn 1620, yw y cynllun safadwy i'w ddilyn byth yn mhob argraffiad o'r Bibl a llyfrau ereill. Y blaid am ddiwygiad a haerant, o'r tu arall, nad yw yr argraffiad hwnw yn deilwng o efelychiad ddim pellach nag y byddo y geiriau wedi eu llythyrenu yn gyson â'u tarddiant o'u rhanau gwreiddiol; ac ar yr egwyddor hon y ffurfiwyd y rheolau canlynol, y rhai, gan belled ag y medraf ddirnad, ydynt gydfynedol â natur y Gymraeg, ac â llafar ymbwyll cyfiawnfarn.

1. Bernir y dylid mabwysiadu y rhagddodiad *cy*, yn hytrach na *cym*, yn *cymal*, *cymeryd*, *cymydog*, *gorchymyn*, &c. *Cy*, yn hytrach na *cyn* (cyfnewidiad o *cyd*), yn *cynal*, *cynorthwy*, *cynwys*, &c. *Cy*, yn hytrach na *cys*, yn y cyfryw eiriau a *cysegr*, *cysylltu*, &c. *Can*, cysylltair, yn hŷtrach na *cyn*, mewn ymadroddion tebyg i *canwyned*, *can gynted*, &c. *Cen*, yn hytrach na *cyn*, yn *cenfigen*. *An*, geiryn difeddedigol, i'w gadw yn *annuwiol*, *annoeth*, &c. Hefyd, er cynal unweddiad, ni ddylid difodi yr *n* yn *annghof*, *annghyfiawn*, &c., er y dichon iddynt ymddangos yn lled chwithig ar y cyntaf. Ystyrier y blaendod *di* yn wastad yn nacâol, a *dy* yn gadarnhaol.

2. Gosoder nod hir-dôn yn ddigyfnewid uwch ben yr arddodiaid *â*, *âg*; oddigerth mewn cyfansoddiad, megys, *gyda*, *gydag*.

3. Na ddiorsedder yr *n* yn yr arddodiad *yn*, mewn un anghraifft na sefyllfa; megys, *yn nghadw*, *yn nghalon*, *yn nghyd*, *yn nghylch*, &c.

4. Er mwyn gradd mwy o bereidd-sain, arferer *y*, yn hytrach nag *'r* (cwtogiad o *yr*), mewn ymadroddion tebyg i'r canlynol: 'Wedi iddo dreulio *y* cwbl,' nid 'dreulio*'r*;' 'Galw *y* doethion,' nid 'galw*'r*.' Eithr mewn ereill, *'r*; megys, 'Y mabwysiad, *a'r* gogoniant, *a'r* cyfammodau,' nid '*ac y*.' 'A laddodd Iago *â'r* cleddyf,' nid '*âg y*.' 'A'r ser a syrth *o'r* nef,' nid '*oc y*.' 'Nac *i'r* tir,' nid '*i y*.'

5. Gadawer *y* nod ymsathr heibio yn *ni's*, gan mai negydd yw *nis*, yn gystal a *ni*, *nid*; ac fel y cyfryw *nis* dichon fod angen am dano.

6. Diswydder yr *h* lle nid yw ofynol fel nod chwythiad garw-gryf, neu fel rhan hanfodol o'r gair; megys yn *breninoedd*, *cededloedd*, &c., oddiwrth *brenin*, *cededl*: eithr nodder hi gan y geiriau na fedrant sefyll heb ei chymhorth; megys, *bywhau*, *bywhad*. Y mae gormod o wendid yn ymddangos mewn torf o lafariaid yn nghyd, heb gydsain rhyngddynt; a'r eilun goreu o gydsain yw *h*. Gwan hynod ar olwg yw *bywâau*, yn gystal a *bywâad*: eto, rhaid addef na fedd gymaint hawl i'r lle hwn ag y sy ganddi yn y geiriau *anhardd*, *anhawdd*.

7. Dylai pob gair, fel y sylwyd eisoes, gael ei gyflawn rif priodol o lythyrenau; megys, *dannedd*, *meddiannau*, oddiwrth *dant*, *meddiant*. Hefyd, pan gyferfydd dwy *d* mewn gair cyfansawdd, megys *ymddattodiad*, y mae yn angenrheidiol rhoddi *t* am bob *d*, i barhau y gwreidd-eiriau ar gof a chadwedigaeth.

8. Lle nad yw cydseiniaid dyblyg yn anhebgorol angenrheidiol, meddylir fod un o honynt yn ddigonol i'w chadw; megys, *penau*, *prenau*, *tonau*, &c. Dywedwyd a chyhoeddwyd fwy nag unwaith, os nad ysgrifenedid y geiriau hyn a'u cyffelyb â dwy *n* ynddynt, y byddai perygl o'u cam-seinio, drwy eu darllain *pe-nau*, *pre-nau*, *to-nau*. Nac oes; y mae

plant yr ysgolion yn cael eu dysgu i silliadu yn well na hyn. Hwyl a wyddant mai y gwreiddiau ydynt *pen, pren, ton*; ac mai y terfyniad lluosog i bob un ydyw *au*, ac nid *nau* un amser. Y mae amryw derfyniadau ereill yn ufyddion i'r un rheol; megys, *aeth* yn *penaeth, ydd* yn *bronydd, &c.* Y mae yr aceniad yn sefydledig eisoes, heb yr *n* ormes, wrth reol gyffredinol aceniad; yn yr hyn y mae y Gymraeg yn rhagori ar lawer o ieithoedd y byd.

9. Diachos yw dwy *t* yn *bwyta, cardota, &c.*, am fod un *t* yn ddigon trom i bwysu *d*, pan osoder yn ei lle, er mwyn grymuso y llefariad. Na rodder ond un *t* yn *cytuno, cytundeb, &c.*, o ran mai o *cyd-uno, cyd-undeb*, y deilliant: ac o'r gair *hynod* y treigilir *hynotach, hynotaf*. Un *m* yn *camu, llamu, &c.*, am fod eu tarddiad o *cam, llam*; at ba un y cysylltir y terfyniad gweithredol *u*. Hefyd, dodder un *t* yn *atoch, atynt, ateb*, am mai achau y geiriau hyn ydynt *at-chwi, at-hwynt, ad-eb*. Na oddefer i'r ddwy gydsain aros mewn geiriau cyffelyb i *mynu, tori, tynu, &c.*

10. *Au* sydd un o'r terfyniadau amlaf i'r rhif lluosog; megys, *coron-au, taran-au*; ac oherwydd hyny, er mwyn gwahaniaeth, mwy priodol a fyddai terfynu geiriau heb fod o'r lluosog-rif âg *eu* yn lle *au*; megys, *dechreu, goleu, goreu, teneu, &c.*

11. Am derfyniadau geiriau ansoddol, mwy dewisol yw arfer *awl, awg, &c.*, mewn iaith ddifrif-ddwys; ac *ol, og, &c.*, mewn iaith gyffredin a sathredig.

12. Arferer *sy* o flaen cydseiniad, a *sydd* o flaen llafariad; megys, 'Y neb y *sy* ganddo;' 'Beth *sydd* yn lluddias.' Arferer y gair *bod* yn nechreu cyfansoddiad, ond *fod* mewn manau ereill; megys, 'Bod Duw yn fwy na phawb sydd eglur, gan *fod* pawb yn ymddibynu arno.' Felly hefyd gosoder *gwedi, tros, trwy, &c.*, ar gychwyniad pob traith; ond *wedi, dros, drwy, &c.*, mewn sefyllfaoedd ereill.



13. Silliader y geiriau canlynol yn y modd hwn:—  
*angeu, cadben, canmawl, corff, creulawn, cyfreithlawn, dar-  
 llain, deheu, dianmheu, digllawn, dweyd, dwylaw, eisieu,  
 ffyddlawn, gwilio (gochelyd), gwyllo (bod yn effraw),  
 gwrundaw, hysbys, llanc, llunc, pwnc, sarff, taenu, tymhestl,  
 waered, ymadaw, ysbryd.*

---

## RHAN II.

---

### PENNOD I.—AM ACENYDDIAETH.

Acenyddiaeth yw y gelfyddyd o gywir seinio llythyrenau a sillau mewn geiriau, drwy godiad neu ddisgyniad y llais yn fwy gwahanol ar ryw sill na'i gilydd yn yr un gair, yn ol priodol amser ac acen.

Perthyn i sill ddau amser gwahanol ; sef, amser *byr*, ac amser *hir*.

Un amser *byr* i sill y sydd ; megys, *hwn, llan, llen, llyn, ton, tyn, &c.*

Tri amser *hir* y sydd, fel y canlyn :—

Amser hir un-amserog ; megys, *gwr*.

Amser hir dau-amserog ; megys, *gwrysg*.

Amser hir tri-amserog ; megys, *gwnaent*.

Grym neu bwys yw sain a ddisgyn ar eiriau fel y canlyn : ansawdd cyffredin y Gymraeg yw, fod y sill olaf ond un yn derbyn yr acen ; yna bydd y pwys ar y sill gyntaf o air dwysill, megys, *bàchgen* ; ar yr ail o un teirsill, megys, *credàdyn* ; ar y drydedd o un pedeirsill, megys, *ysgrifènu* ; ar y bedwaredd o un pumsill, megys, *annghyfnewidiol* ; ac yn gyfundull mewn geiriau deuddeg-sill, pe baent. Ond pan fyddo *h* rhwng y ddwy sill olaf mewn gair, yna rhoddir pwys yr acen ar y llafariad nesaf iddi ; megys, *trymhâu, cadarnhâu*, ac hefyd yn *cyffròi, canymdò*.

Anghraifft a ddengys fel y mae yr acen yn llithro tua'r deheu o sill i sill, o'r gyntaf i'r ail, y drydedd, a'r bedwaredd :—

Pèrchen  
Perchènog  
Perchenògaeth  
Perchenogaethau.

Gweler uchod reolusrwydd yr aceniad. Diffynwyr yr hen drefniant a fynant ysgrifenu yr ail, *perchennog*, fel y mae yn y Bibl argraffedig yn 1620; a hyny er mwyn iawn-osodiad yr acen. Caniataer hyny; ond edrychant ar y trydydd gair: ar ba sill y gorphwys yr acen yno? Nid ar yr *ail*—nid ar yr *en*—ond ar y *drydedd* sill, sef *og*. Am hyny, i ddiogelu yr acen, ysgrifenant y gair hwn â dwy *g*, yn lle dwy *n*; fel hyn, *perchenoggaeth*! Ond diannheu y gwel pawb mai cwbl anhywedd ac afithrig a fydd ei seldrem felly.

Tri math o acen sydd; sef, y dderchafedig, y ddisgynedig, a'r amgylchedig. Arferir weithiau arwyddion yr acenion hyn uwch ben y llafariad, i ddangos pwys y sain; fel hyn, *á, à, á*. Y gyntaf, neu yr amgylchedig, a wna sain *a*, neu unrhyw lafariad arall, yn hir, megys yn y gair *caniatâd*; yr ail a arwydda aceniad trwm, neu ddisgynedig, mewn gair, yr hyn a fydd amlaf pan derfynir â dwy lafariad, megys *e* yn y gair *dilèu*; yr olaf a arwydda un dderchafedig, drwy roddi pwys y sain yn rymus a chyflym, megys *cán*; ond nid arferir y ddiweddaf amgen ar eiriau unsill.

Er y sonia Grammadegwyr am dair acen ar eiriau unsill, eto nid oes lwyf achos ond am ddwy yn y Gymraeg, sef yr *hir* a'r *fer*; nac am ond un o'r ddwy hyny, pe cytunid pa un o honynt a gedwid. Mwy o nodau aceniad a fyddai er mwy rhwystr na chyfarwyddyd. Byddai argraffyddion yn

debyg o'u cymysgu yn amryfus: rhoddent ddyrswch i ddysgyblion, a hawdd y geill athrawon eu hebgor. Y ddadl yw, pa un ai yr acen hir ar y gair *cân*, ac ereill gyfunrhyw, ai y fer ar *cân*, a roddir heibio. Rhai a haerant, gan fod mwy rhif o eiriau byrion unsill na rhai hirion, y dylid rhoddi heibio yr hir. Nid wyf fi gyfunfarn â hwynt yn hyny: dynoder *cân* awenyddol, a *glân* fuchedd; a gadawer bara *can*, a *glan* Rheidol, i ymbwyll y darlennydd. Ymddengys cymhwysder fy haeriad, wrth yr atebiad canlynol:—I ba le yr âi di? 1. Af i dy *dý* di. 2. Af i *dý* dy di. Yr aceniad cyntaf ydyw y mwyaf dealladwy, a mwyaf dewisol hefyd, am ein bod yn gynefin âg ef; a phaham y rhaid rhoddi i fyny gynefindod am anngyhnefindod, os na fydd yr un cynefin yn feius? Gan hyny, acener pob unsill hir, megys *mân*, *glân*; a gadawer y rhai byrion, megys *man*, *glan*, &c., a'r rhai canolig, megys *bref*, *llef*, &c., yn ddi-nôd. Ychydig o gydnabyddiaeth â'r iaith a rydd ddigon o hysbysiaeth i'r anngyfarwydd i wahaniaethu rhwng acenion byrion a chanolig; a chaniataer i'r acen hir yn unig gael ei pharchu â'i nod hirllaes.

O adnabod ansawdd y sillau y llunir banau cerdd dafod; yna pob sill â phwys arni sy drom a hir, neu â dau amser iddi; ac un heb iddi bwys sydd ysgafn a ber, âg un amser iddi. Ac i ddangos y fath sillau mewn cerdd, er eu dysgu, rhai a arferant nodau hirion a byrion ar y llafariaid; megys,

Cērddeð, dŷnöl, mǎnöd, meddäl.

Y gyntaf sydd hir, a ber yw yr ail. Neu, yn iaith y Beirdd, gelwir sill hir yn *gorfan crwn*, megys, *dyn*, *dawn*; sill fer yn *gorfan byr*, megys, *barn*, *dull*; dwy sill hir olynol, *corfan hir*, neu *gydbwys*, megys, *mwyhau*; sill hir a

dwy fer olynol, *corfan crych disgynedig*, ac nis gellir hyn yn y Gymraeg, ond mewn cyfansoddiad ; megys,

Tân y wyllt anian a'm tynodd o'm ll.

Dwy sill fer o flaen un hir, *corfan crych derchafedig*, megys, *llawenhau, trugarhau* ; ber a hir, *corfan talgrwn*, megys, *mwynhau, iuchau* ; a hir a ber, *corfan rhywiog*, megys, *canu, dawnus, myned*. A chan mai o ddeall yr ansoddau hyn ar sillau y llunir y banau, sef y cynganeddion, neu y naw gorchan ; yna o gyfuno y gorchanau y cyfansoddir pennillion, yn ol eu hamrywiaethau cynwysedig yn y deg a phump colofn adlaw ; a'r naw gorchan, yn nghyda'r deg a phump colofn adlaw, a wnant i fyny y pedwar a deuddeg mesur cerdd dafod.\*

---

## RHAN III.

---

### PENNOD I.—AM EIRYDDIAETH.

Hyd yn hyn y soniwyd am y llythyrenau, neu yr arwyddion a ddodant eiriau yr iaith yn drywel i'r llygad ; ac am y geiriau hefyd o berthynas i ansawdd eu lluniadaeth a'u sain : bellach, traethir am danynt fel y maent yn offerynau i ddangos amryfeilion weithrediadau y meddwl, sef rhanau ymadrodd.

---

\* Yn ol tystiolaeth cynoresgynydd yr Ynys hon, sef IWL CAISAR, a'r ysgrifenydd Rhufeinig canlynol, yr oedd Eryllwg yn rhagori yn mhell ar daleithiau ereill Cymru mewn cyrhaeddiadau hywedd, ac ymagniaeth gwladgar. Eglur yw i drigolion y dalaeth hon ychwanegu yn fawr at wybodaeth eu cenedl oddiwrth ddysgeidiaeth y Rhufeiniaid ; ac i'w Beirdd, yn enwedig, dderbyn budd helaeth oddiwrthynt. Oddiyma, yn ddianmheu, y tarddodd gwybodaeth am y *corfanau*, gwybodaeth na fu, hyd yr oes fendigaid hon, yn meddiant Beirdd unrhyw dalaeth arall o Gymru.

Geiryddiaeth sydd yn dysgu i ddeall bonedd a thadogaeth geiriau, neu darddiad y naill air o'r llall; yn rhoddi eglurhad ar ranau ymadrodd, perthynas yr amryw eiriau â'u gilydd, ac yn dangos y gwahanol ddull o amrywio yr un geiriau; megys, *byd, bydoedd; melus, melusach; caraf, cerais, &c.*

Er deall geiryddiaeth unrhyw iaith yn gywir, gofynol yw bod yn hyddysg yn rhanau yr ymadrodd; ac yn y Gymraeg cyfrifir yn gyffredin wyth o honynt; sef, ENW, RHAGENW, PARWYDDIAD, GORAIR, BANNOD, CYSYLLTIAD, ARDDODIAD, a CHYFRYNGIAD.

ADRAN 1.—*Am Ansawdd Enw.*

Enw sydd o ddau fath; sef, enw cadarn, ac enw gwan. Enw cadarn yw pob sylweddair a arwyddocao gadernyd a synwyr ynddo ei hun; sef enw pob peth a ellir ei weled, ei glywed, ei deimlo, ei arogl, neu ei amgyffred yn y deall, yn ysbrydol neu gorfforol; megys, *dyn, pren, lliw, llef, iaith, gwres, dolur, angel, enaid, ysbryd, pwyll, serch, &c.*

Enw gwan ni ddengys gyflawn synwyr ynddo ei hun; megys, *da, doeth, ffyddlawn*: ac nis gall sefyll oddieithr ei fod yn gysylltiedig âg enw cadarn yn gyneiliad iddo, yna ffurfiant yn nghyd gyflawn synwyr; megys, *gwr da, gwraig ddoeth, gwas ffyddlawn.*

Enw cadarn sydd o ddau ryw; sef, priodol, a chyffredinol, neu alwedig.

Deuryw enw priodol y sydd; sef, enw bedydd, megys *Madog*; a llysenw, megys *Madyr*.

Enwau cedyrn priodol ydynt enwau annghyfranogol dynion, lleoedd, &c., sef y rhai a berthynant neu a gyd-weddant i un peth, neu ddyn, drwy alwedigaeth neillduol; megys, *Iewan, Llywelyn, Nest, Gwenlliant, Caerludd, Caer-*

*lleon*; oherwydd nid yw *Ieuan* a *Llywelyn* yn enw pob gwr, na *Nest* a *Gwenlliant* yn enw pob gwraig, na *Cuerludd* a *Caerlleon* yn enw pob dinas.

Enwau cedyrn cyffredinol ydynt y rhai a gydweddant i bethau o unrhyw ddull a math, drwy alwedigaeth; megys, *angel*, *dyn*, *derwen*, *cerdd*, *celfyddyd*, a'r cyfryw, beth bynag a fyddo cadarn.

Perthyn i enw cadarn Genedl, Rhif, ac Achos.

#### ADRAN 2.—*Am Genedl Enw.*

Cenedl enw sydd yn amlygu y gwahanol rywiogaeth rhwng gwryw a benyw, ac a gyfrifir yn y Gymraeg yn dair; sef, gwrywiol, benywol, a chyffredin. Ni feddwn ganolryw, mwy na'r Hebreaid, y rhai, yn ei le, a arferant y fenywol.

Gwrywiol ydynt bawb enwau perthynol i ddynion ac anifeiliaid ag a dreiglir â *hwn* neu *ef*; megys, *gwr*, *gwas*, *carw*, *ych*, a'r cyfryw.

Benywol yw pob enw a dreiglir â *hon* neu *hi*; megys, *gwraig*, *morwyn*, *asen*, *ewig*, &c.

Cyffredin sydd enw heb arwyddocau gwryw na benyw; megys, *angel*, *dyn*, *plentyn*. Hefyd, enwau cedyrn difwyd; megys, *haul*, *lloer*, *tŷ*: y rhai, er nad oes iddynt genedl, eto, drwy arfer ymadrodd, ac wrth ryw berthynasau tebygol a welir ynddynt i fywiolion, troir hwynt y rhan amlaf naill ai yn wrywiol neu yn fenywol; megys yr arferir *mynyddoedd*, *gwyntoedd*, *misoedd*, *dyddiau*, fel yn wrywiol; ac hefyd, *afonydd*, *coedydd*, *ceryg*, *dinasoedd*, *teyrnasoedd*, yn fenywol.

Oherwydd hyny y dychymygir fod o genedl wrywiol bob enw cadarn yr ymddangoso ynddo rith cynhenid o fywiogrwydd, ac a weithreda ar ereill, neu a gyfrodda

iddynt ; ac enwau a fyddont o rith priodoldeb yn goddef dwyn, neu gynwys, neu hiliaw, arferol yw eu tebygu o genedl fenywol.

Er y crybwyllir am dair cenedl enw yn y Gymraeg, megys uchod ; eto, y maent oll mewn rheitheg a barddoniaeth, yn ddisgynedig i un o'r ddwy genedl flaenorol, sef gwrywiol a benywol.

Cenedl enw a wahaniaethir mewn tair ffordd ; sef, yn gyntaf, drwy amrywiaeth enwau, fel y canlyn :—

<i>Gwryw.</i>	<i>Benyw.</i>	<i>Gwryw.</i>	<i>Benyw.</i>	<i>Gwryw.</i>	<i>Benyw.</i>
Asyn,	Asen.	Ceffyl,	Caseg.	Mab,	Merch.
Bachgen,	Geneth.	Ceiliog,	Iâr.	Nai,	Nith.
Brawd,	Chwaer.	Cyw,	Cywen.	Tad,	Mam.
Carw,	Ewig.	Gwr,	Gwraig.	Taid,	Nain.

Yn ail, drwy gysylltu yr enw a'r genedl yn gyfansawdd ; megys, *llaethwr*, *llaethwraig* ; *priodfub*, *priodferch* : hefyd, *y gwryw*, *y fenyw* ; *hwn*, *hon* ; *efe*, *hi*.

Yn drydydd, drwy ychwanegu *es* at derfyniadau y genedl wrywiol, fel y canlyn :—

<i>Gwryw.</i>	<i>Benyw.</i>	<i>Gwryw.</i>	<i>Benyw.</i>
Arglwydd,	Arglwyddes.	Pendefig,	Pendefiges.
Brenin,	Brenines.	Prophwyd,	Prophwydes.
Cantor,	Cantores.	Tywysog,	Tywysoges.
Etifedd,	Etifeddes.	Unben,	Unbenes.
Iuddew,	Iuddewes.	Ymmherawdr,	Ymmherodres.

Adwaenir dull nodweddol a chenedl pob enw hanedig, neu a ddisgyno o air arall, wrth y terfyniad perthynasol a fyddo iddo.

Y mae rheolau cyffredin, wrth ba rai y gwahaniaethir cenedl pob enw oddiwrth arall. Yn fynychaf, y terfyniadau a ddangosant genedl yr enwau disgynedig ; ac yn y geiriau cysefin, y mae llafariaid gwrywiol neu fenywol, wrth ba rai yr adwaenir eu cenedl hwynt.

1. O genedl wrywiol y mae yr enwau disgynedig y byddo iddynt y terfyniadau canlynol:—

awr	megys	telynawr		yll	megys	ysgudyll
ur	...	penadur		yn	...	dernyn
wr	...	morwr		yr	...	llywiawdyr
ydd	...	darllenydd		ys	...	gwregys

2. Benywolion ydynt y rhai a ddiweddant yn

as	megys	priodas		en	megys	mesen
ech	...	llech		es	...	llynges
ed	...	dyled		ures	...	pechadures
ell	...	pibell		wraig	...	llaethwraig

3. Y terfyniadau canlynol ydynt o genedl gyffredin, ond bwrir hwynt fynychaf yn wrywiolion, ac a ddodir wrth enwau cynlledig, yn y dull canlynol:—

ad	megys	tröad		edd	megys	amynedd
aeth	...	gwasanaeth		i	...	gwrthuni
ant	...	esgarant		iad	...	caniad
awd	...	traethawd		iaeth	...	arglwyddiaeth
dawd	...	nychdawd		iant	...	moliant
deb	...	cywirdeb		ineb	...	ffolineb
der	...	taerder		rwydd	...	parodrwydd
dra	...	ffieidd-dra		yd	...	bywyd

4. I eiriau o genedl gyffredin, ond a arferir yn fenywol, y mae y terfyniadau hyn,

ag	megys	mynag		ed	megys	colled
ai	...	magai		iai	...	telyniai
an	...	cathan		iar	...	toniar
ar	...	daiar		ig	...	gwig
eb	...	deiseb		wg	...	syllwg

Cenedl lluaus o eiriau cysefin a arwyddir gan y llafar-iaid a fyddo ynddynt; megys,

1. Pan fyddo enwau gwrywiol ag *w* ynddynt yn cael ei throi yn *o*, yna y maent yn fenywol; megys, *ffwrch*, *fforch*; *bulch*, *bolch*, &c.

2. Yr un fath os bydd *y* yn llunio geiriau gwrywiol, a throi hono yn *e*, yna benywol fyddant; megys, *asyn*, *asen*, &c.



3. Y llafariad *a* sy fynychaf yn arwyddocau geiriau o genedl gyffredin ; megys, *man*, &c.

Pob gair a ddechreuo gydag un o'r cydseiniaid cyfnewidiol, oddieithr *Ll* ac *Rh*, ac a dreiglir i'r sain ysgafn drwy ddodi *y* o'i flaen, a ddengys yn ddifeth os bydd o'r genedl fenywol ; megys, *cenedl*, *y genedl* ; *mam*, *y fam* : eithr os y gydsain ddechreuol ni chyfnewid, yna dengys fod y gair yn y genedl wrywiol ; megys, *mab*, *y mab* ; *tad*, *y tad*.\*

### ADRAN 3.—*Am Rif Enw.*

Enwau cedyrn ydynt o ddau rif ; sef, unig a lluosog.

Y rhif unig a arferir pan grybwyllir am un peth wrtho ei hun ; megys, *gwr*, *gwraig*, *plentyn* : a'r rhif lluosog a

---

\* Y mae cyfatebiad rhyfeddol rhwng y Gymraeg a'r Llydawaeg mewn perthynas i gyfnewidiad y cydseiniaid dechreuol ; yr hyn, o hono ei hun, sydd arddangosiad hynod o henafiaeth mawr y trefniant hwn, ac, o ganlyniad, yr ieithoedd hefyd yn mha rai y ceir ef yn ffynu. Canys y mae mwy na deg a phedwar cant o flyneddoedd wedi lithro heibio er dydoliad y Llydawiaid oddiwrth y Cymry, yn nyddiau CYNAN MEIRIADOG. Gellir, gan hyny, olrhain y trefniant dan sylw, gyda'r dilysrwydd mwyaf, yn ol i'r pedwarydd canrif ; ac nid oes genym ychwaith un sail i dybio nad oedd yn bodoli lawer o oesau yn flaenorol i'r amser hwnw : yn y gwrthwyneb, pan anfonodd y Cymry drefedigion i Lydaw, rhaid fod y trefniant gan berffeithied ag ydyw yn awr ; ac nid anhawdd dwyn anghreiffitiau i brofi tebygolrwydd ei ddechreuad mewn cyflwr cyntefig o eiddo cymdeithas. Y berthynas wiwnod hon rhwng ieithoedd Llydaw a Chymru, nis gellir ei holrhain, yn yr un gradd, yn y Wyddelaeg ; yr hyn a arwydda gyfnod hwy o ddydoliad gyda golwg ar y bobl hyny. Wrth y Wyddelaeg y meddyliwyf yr iaith a lefarir yn y Werddon ac Uwchdiroedd yr Alban, yr hon sy gyfunrhyw. Eto trigolion yr Uwchdiroedd a gyfenwant eu heiddynt hwy y *Gaelaeg*, a dywedant fod y gair yn deilliau oddiwrth *Galic*, tra nad yw, mewn gwirionedd, ond llygriad o'r Wyddelaeg, neu iaith y Gwerddoniaid. Rhyfedd y fath ddyrswch a arweiniwyd i mewn i'r pwnc hwn, drwy gamsyniad a chararfer geiriau ! Cawn yn fynych, gan ysgrifenywyr egwanbwyll, yr enwau *Gwyddelaeg* a *Gaelaeg*, ac weithiau hyd yn nod *Gwyddelaeg*, *Gaelaeg*, ac *Erse*, yn ddefnyddiedig er arddangos *gwahanol* ieithoedd !

arferir pan grybwyllir am lawer neu nifer o bethau yn nghyd ; megys, *gwyr, gwagedd, plant*.

Y mae dau fath o enw unig ; sef, enw unig ei hunan, ac enw unig cynulledig.

Enw unig wrtho ei hun yw yr hwn na byddo cynulleidfa ynddo oherwydd synwyr ; megys, *dyn*.

Enw unig cynulledig yw yr hwn y byddo cynulleidfa ynddo oherwydd synwyr ; megys, *llu, pobl, torf, cenedl, a'r cyfryw eiriau*.

Dau ryw o enw cynulledig y sydd ; sef, enw cynulledig unig, ac enw cynulledig lluosog.

Enw cynulledig unig, fel, *llu, torf, pobl, cenedl* ; ac enw cynulledig lluosog, fel, *lluoedd, torfoedd, pobloedd, cenedloedd*.

Arferir hefyd weithiau yr hyn a elwir *rhif deuol* ; megys, *deuddyn, deudroed, &c.*, am y gwrywiol ; a *dwywraig, dwy-law*, a thrwy gamarferiad *dwylo, &c.*, am y benywol.

Enwau cedyrn yn y rhif unig a droir yn lluosog mewn dwy ffordd ; sef, drwy dreigliad neu gyfnewidiad eu llafariad, a thrwy ychwanegiad at eu terfyniadau.

Y geiriau yn arbenig a droir yn lluosog drwy dreigliad eu llafariad, ydynt yn gyffredin rai cysefin fel y canlynol :

<i>Unig.</i>	<i>Lluosog.</i>	<i>Unig.</i>	<i>Lluosog.</i>
Aber	Ebyr	Gwr	Gwyr ( <i>direol</i> )
Bardd	Beirdd, a Beirddion	Maen	Main, neu Meini
Bran	Brain	March	Meirch
Careg	Ceryg	Marw	Meirw, a Meirwon
Ci	Cwn ( <i>direol</i> )	Pont	Pynt, neu Pontydd
Dafad	Defaid	Troed	Traed
Ffon	Ffyn	Tŷ	Tai ( <i>direol</i> )

Y mae llawer o derfyniadau i droi enwau unig yn lluosog ; ac yn yr hen amseroedd, pan oedd yr iaith yn ei hardderchogrwydd, arferid hwynt wrth eiriau yn gyffredin ; ond yn awr yr ydys yn perthynasu y terfyniadau at eiriau neillduol. Y terfyniadau ychwanegol ydynt y can-

lynol, aint, au, awr, ed, edd, i, iaidd, iau, ion, od, oedd, on, wys, ydd, yr; yr hyn a amlygir fel hyn,

<i>Terfyniadau.</i>	<i>Unig.</i>	<i>Lluosog.</i>
Aint	Gof,	Gofaint.
—	Câr,	Ceraint, neu Cerynt.
Au	Tad,	Tadau.
Awr	Gwaew,	Gwaewawr.
Ed	Merch,	Merched.
Edd	Teyrn,	Teyrnedd.
I	Llen,	Lleni.
Iaidd	Estron,	Estroniaid.
Iau	Bryn,	Bryniau.
Ion	Dyn,	Dynion, neu dyniaddon.
Od	Paun,	Peunod.
Oedd	Mor,	Moroedd.
On	Golwg,	Golygon.
Wys	Mon,	Monwys.
Ydd	Heol,	Heolydd.
Yr	Brawd,	Brodyr, neu Broder.

Y mae i rai geiriau derfyniad lluosog dyblyg; megys, *trefi*, a *trefydd*; *eglwysi*, ac *eglwysydd*; *llais*, *lleisiau*, ac unwaith *lleision*, gan DAFYDD AB GWILYM.

Y Gwynndudiaid, y rhan fynychaf, a ddodant i o flaen *au*, *aid*, ac *on*, ac a ddywedant *iau*, *iaidd*, ac *ion*: eithr y Dyfedwys a adawant yr *i* hon heibio.

Rhai enwau cedyrn a gymerant eu rhif unig o'r lluosog, sef drwy ychwanegu y sillau *en* neu *yn* at ddiwedd y lluosog, ac yn fynych cyfnewid y llafariaid hefyd; megys,

<i>Lluosog.</i>	<i>Unig.</i>	<i>Lluosog.</i>	<i>Unig.</i>
Adar,	Aderyn.	Gwibed,	Gwibedyn.
Blodeu,	Blodeuyn.	Haidd,	Heidden.
Caws,	Cosyn.	Mawn,	Mawnen.
Cyll,	Collen.	Mes.	Mesen.
Eirin,	Eirinen.	Plant,	Plentyn.

Y mae ansawdd bychanigrwydd i rai enwau unig a lluosog; yr hyn a ymddengys yn eu terfyniadau.

Y bychanigion o rif unig ydynt y rhai hyn, *an*, *en*, *yn*, *ig*, *og*; megys, *dynan*, *tanen*, *dernyn*, *oenig*, *pwtog*.

Ac o rif lluosog y mae y bychanigion hyn, *ach, os, ac* weithiau *ain*; megys, *wynach, dynionos, plantos*.

Trwy arferu *ach* yr arwyddoeddi bychanolion o ddirmyg neu druenusrwydd; megys,

Dowch, y pydron *ddynionach*,  
Ynghyd, feirw byd, fawr a bach.—GRO. OWAIN.

Ac *a, o, os, w, ws*, a arwyddocant serch, inwynder, neu dynnerwch; megys, *tada, plantos, minws, Bilws*, am *Gwilym*.

Enwau meteloedd, yn nghyda rhai pethau ereill difwyd, ydynt heb rif lluosog; megys, *alcan, arian, aur, efydd, elydn, elydr; bura, eiry, gwaed, halen, laeth, mel, newyn, ymenyn*. Hefyd, enwau cedyrn deilliedig o enwau gweinion; megys, *cryfder, dewrder, gwychder, haelioni, henaint, iechyd, ieuencyd, llawenydd, syched*, a'r cyffelyb. Hefyd, sylweddeiriau yn terfynu yn *rwydd, dra, ni, wch, iant*, ac weithiau yn *i*; megys, *caedigrwydd, cywilydd-dra, cyni, edifeirwch, llwyddiant, brynti*.

Rhai enwau ereill nid oes iddynt rif unig; megys, *rhieni, ymysgaroedd*. Y mae hefyd rai enwau, heb newid eu rhif unig, yn ymddangos yn lluosog drwy y rhif deul, neu eu cysylltu â rhyw nifer; megys, *deuddyn, dwyfron, trimis, wythwraig, deuddengwr*.

Pan fyddai gair Lladin yn dechreu â'r llythyren *v*, arferai yr hen Frutaniaid yn fynych droi y *v* i *gw*; megys, *vagina*, gwain; *vitium*, gwyd; *vicia*, gwyg; *viri*, gwyr; *virtus*, gwyrth; *vacuus*, gwag; *Wilhelmus*, Gwilym; *vitrum*, gwydr; *verus*, gwir; *viduus*, gweddw; *Venus*, Gwener a Gwen, &c.

#### ADRAN 4.—*Am Achos Enw.*

Achos neu gwmpod enw, mewn amryw ieithoedd, ydyw ei wahanol derfyniadau, neu ei ddiweddiadau dychweledig; yr hyn sydd yn dangos ei gysylltiad neu ei berthynas â

phethau ereill: eithr yn y Gymraeg, megys yr Hebraeg, nid oes i enw ond dau derfyniad cwympedig, sef un yn y rhif unig, ac arall yn y rhif lluosog; gan hyny cyflawnir y cyfryw achosion drwy gynorthwy arddodiadau. Os dywedir fod achosion yn perthyn i enw Cymreig, yna perthynant hefyd i barwyddiaid, goreiriau, cysylltiadau, arddodiadau, a chyfryngiadau, yr hyn sydd afresymol i'w haeru; oherwydd treiglir hwynt oll yn yr un dull, oddigerth y rhif. Ac ni ddylid llunio achosion newyddion i unrhyw iaith, er mwyn efelychu ereill a'u meddant, ond yn hytrach cadw y rhai a ofyn ansawdd y cyfryw iaith.

---

## PENNOD II.

### ADRAN 1.—*Am Enw Gwan.*

Enw gwan, neu ansawdd damweiniol cadernyd, a elwir felly oherwydd na ddichon sefyll drwyddo ei hun, ac am ei fod yn air na wna synwyr perffaith heb ei gysylltu â rhyw enw cadarn yn gyneiliad iddo; megys, *cam, cryf, cymhwys, doeth, du, gwyn*; pa gyfryw eiriau a ddangosant ryw, ansawdd, ac anian yr enw cadarn: megys pan ddywedir *dyn*, ni wyddys pa un ai gwryw ai benyw, ai teg ai hagr, ai mawr ai bach, ai byw ai marw, ydyw; ond pan ddoder at *ddyn* yr ansawdd damweiniol, dywedir *dyn da, dyn drwg, dyn doeth, dyn cadarn*, a'r cyfryw, fel y byddo ei anian a'i ddamwain; ac wrth hyny y gwybyddir pa ryw neu fath o ddyn a fydd.

Gellir adnabod enw gwan drwy ei fod yn gwneyd llawn synwyr pan ychwaneger y gair *peth* ato; megys, *peth da, peth drwg*: ond pe dywedid, *peth nef, peth daiar*, ni fyddai yn un synwyr; gan hyny, *da, drwg*, ydynt enwau gweinion; a *nef, daiar*, enwau cedyrn.

ADRAN 2.—*Am Genedl Enw Gwan.*

Tair cenedl a berthynant i enw gwan; sef, gwrywiol, benywol, a chyffredin.

Y genedl wrywiol ydyw ansawdd perthynol i wryw; megys, *gwr doeth*.

Y genedl fenywol ydyw ansawdd perthynol i fenyw; megys, *gwraig ddoeth*.

Y genedl gyffredin yw yr ansawdd a gydweddo â gwryw neu fenyw; megys, *hardd*: oherwydd gellir dywedyd *gwr hardd*, neu *gwraig hardd*; gan hyny y mae *hardd* yn gyffredin i bob un o'r ddau.

Deillia cenedl fenywol enw gwan o'r wrywiol:—

Yn gyntaf, drwy gyfnewid y gydsain wreiddiol i un or-  
esgynol; megys, *mab da*, *merch dda*.

Yn ail, y mae lluwys o enwau gweinion cysefin yn arwyddo rhywiogaeth wrth y llafariaid a fyddo ynddynt, er cyduno âg enw cadarn, o ba genedl bynag y byddo; a throir rhai o honynt o un genedl i arall drwy gyfnewid eu llafariaid yn unig; megys, *hyll*, *hell*; neu drwy gyfnewid y gydsain wreiddiol a'r llafariad hefyd; megys, *baich trwm*, *iau drom*.

Yma y canlyn y cyfryw enwau gweinion ag a oddefant gael eu cyflunio i fod yn wrywiol a benywol:—

<i>Gryw.</i>	<i>Benyw.</i>	<i>Gryw.</i>	<i>Benyw.</i>	<i>Gryw.</i>	<i>Benyw.</i>
Blwng	Blong	Gwydn	Gwedn	Mwll	Moll
Brwnt	Bront	Gwymp	Gwemp	Pwl	Pol
Brych	Brech	Gwyn	Gwen	Rhwth	Rhoth
Bychan	Bechan	Gwyrdd	Gwerdd	Swr	Sor
Clyd	Cled	Hyll	Hell	Swrth	Sorth
Crwm	Crom	Hysb	Hesb	Sych	Sech
Crwn	Cron	Llwm	Llom	Syth	Seth
Chwyrn	Chwern	Llyfn	Llefn	Trwm	Trom
Dau	Dwy	Llyn	Llem	Twn	Ton
Ffwch	Ffloch	Melyn	Melen	Tyn	Ten

Geiriau yn y genedl gyffredin nid ydynt yn cyfnewid eu cydseiniaid na'u llafariaid, fel y gwelir wrth y rhai hyn,

anhydyn	ffol	hael	hylon	ir	serfyll
cyndyn	ffrom	hardd	hylyn	noeth	sicr
erchyll	gwyh	hydyn	iach	oer	tywyll

Er hyny dywedodd y Prydydd, *tywell*.

Nid oes cenedl yn perthyn i enwau gweinion cyfansoddedig; gan hyny dodir hwynt yn gyfymlyn âg enwau cedyrn o bob cenedl.

Cyfansoddir enwau gweinion cysefin yn nghydag enwau galwedig, i lunio enwau galwedig cyfansawdd; megys, *gwynlliw, oernant, gwangalon*.

### ADRAN 3.—*Am Rif Enw Gwan.*

Y mae i rai enwau gweinion rif lluosog megys y cedyrn.

Enw gwan o'r rhif unig a dreiglir yn lluosog mewn dwy ffordd:—

Yn gyntaf, drwy gyfnewid y llafariaid; megys, *balch, beilch; hardd, heirdd*.

Yn ail, enwau gweinion cysefin, oddigerth dau neu dri y treiglir eu llafariaid, a droir yn lluosog drwy ddodi wrthynt y terfyniadau *on*, neu *ion*; megys, *crin, crinion; hael, haelion*: ac hefyd, weithiau, bob un o'r ddwy ffordd; megys, *marw, meirw, meirwon*.

Canfyddir yr amrywiol dulliau o luosogi enwau gweinion fel y canlyn:—

<i>Unig.</i>	<i>Lluosog.</i>	<i>Unig.</i>	<i>Lluosog.</i>	<i>Unig.</i>	<i>Lluosog.</i>
Byddar	Byddair	Garw	Geirwon	Sal	Salion
Buan	Buain	Llaes	Lleision	Tlws	Tlyision
Bychan	Bychain	Llydan	Llydain	Tlawd	Tlodion
Cadarn	Cedyrn	Main	Meinion	Trist	Tristion
Cam	Ceimion	Noeth	Noethion	Truan	Truain
Dall	Deillion	Oer	Oerion	Trwm	Trymion

*Byddariaid a deilliaid* ydynt, yn hytrach, enwau cedyrn.

Yr enwau gweinion canlynol ydynt heb rif lluosog iddynt:—*cyndyn, du, erchyll, fflwch, glân, hagr, hen, hydyn, nerthol, serfyll, tywyll*; er hyny rhaid addef i'r Beirdd ddywedyd, *cyndynion, erchyllion, henion, hyllion, a tywyllion*. Hefyd, y rhai oll a derfynant yn *aid, aidd, in, llyd, us*, a'r rhan fwyaf o'r rhai a derfynant yn *ig ac os*. Hefyd, rhifedi rhestrol; megys, *cyntaf, ail, trydydd*: a phrif rifedi; megys, *un, dau, tri*; pa rai yn eu ffurf cyfansawdd, ni feddant luosogaeth, er y gall eu henwau cedyrn, ar yr un pryd, fod yn lluosog; megys, *tri wyr*: eithr pan fyddant yn neillduol, y mae iddynt oll rif lluosog; megys, *unau, trioedd, degau, ugeiniau, cannoedd, miloedd, &c.*

Anaml yr ymddengys enw gwan cyfansoddedig yn y rhif lluosog, oddieithr i harddu iaith brydyddol; ac yno y saif yn nghyda chadarn, neu cymer ei le; megys, *nefolion leoedd, neu nefolion*.

ADRAN 4.—*Am Derfyniadau Enwau Gweinion  
Cyfansoddedig.*

Enwau gweinion, neu ansoddau danweiniol, tarddedig oddiwrth eiriau cedyrn, a gyfansoddir fel hyny, drwy ychwanegu atynt amryw derfyniadau perthynol. Y terfyniadau hyn a ddangosant bob un o honynt ryw ystyr arbenig, o arfer pa rai y cyflunir yr ansoddau a nodweddant, yn amrywiol; fel y canlyn:—

<i>Terfyniadau.</i>	<i>Cynllun.</i>	<i>Terfyniadau.</i>	<i>Cynllun.</i>
Aid	Euraid	Gar	Gwingar
Aidd	Mabaidd	Ig	Blysig
Ain	Prydain	In	Priddin
Awg, neu og	Boliawg	Ing	Cadelling
Awl, neu ol	Gwrawl	Lawn, neu lon	Heddychlawn
Awr	Geiriawr	Lyd	Gwaedlyd
Edig	Dysgedig	Llyd	Gwenwynllyd
Fawr	Clodfawr	Us	Hapus



Dalier sylw, nad ydynt derfyniadau ansoddeiriau un amser yn dechreu â chydsain, ond â llafariad; megys, *awg* neu *og*, *awl* neu *ol*, *us*, &c. Eto myn diffynwyr yr hen drefniant o lythyrenu geiriau ddwy *p* yn *hapus*, a'r cyffelyb, a byddent yn *anhapus* hebddynt. Ond ni ddeil eu gair *hap-pus* hwynt ei ddadgymalu: *hap* a adwaenom, ond beth yw *pus*?—pa iaith? Pe byddai dwy *s* ynddo, gair Seisonig fyddai am *gath*; ond âg un *s*, gair Lladin yw am *grawn briw*, neu *darddiant poethell*. Am hyny cloer *pus*, a'i gyfeillion annghyfaith, yn ngharchar *Oeth* ac *Anoeth*,\* neu ryw gyfarchwel cyffelyb, fel na flinont enwau gweinion mwy.

Gellir cyfansoddi y terfyniadau hyn yn mhlith eu gilydd, fel y cyflunir ansawdd arbenig y rhagflaenol gan yr olaf; megys y canlyn:—

Awg-aidd	Taiogaidd	In-awl	Gerwinawl
Awg-awl	Cymydogawl	Lawn-us	Boddlonus
Edig-awl	Caredigawl	Us-aidd	Trefnusaidd
Fawr-us	Clodforus	Us-awl	Iachusawl

Enwau cedyrn a derfynant yn *nt*, pan dreigilir hwynt i enwau gweinion, a gyfnewidiant y *t* i *n*; megys, *braint*, *breinniol*; *chwant*, *chwannog*; *haint*, *heinnus*.

#### ADRAN 5.—Am Raddau Cymharol Enwau Gweinion.

Geiriau gweinion a gymerant gymhariad graddol; eithr geiriau cedyrn nis cymerant.

\* Gellir amgyffred pa beth a feddylir wrth yr ymadrodd uchod drwy sylwi ar y TRIOEDD canlynol:—“Tri theulu teyrnedd a ddygid yn ngharchar o'r gorphendaid i'r gorwyrion, heb adu yn nianc un o honynt: cyntaf, teulu Llyr Llediaith, a ddygid yn ngharchar hyd yn Rhufain gan y Caisariaid; ail, teulu Madawg ab Medron, a fuynt yn ngharchar gan y Gwyddyl Ffichti yn yr Alban; trydydd, teulu Gair ab Geirion, arglwydd Geirionydd, gan raith gwlad a chenedl, yn ngharchar OETH ac ANOETH: ac odd y rhai hyny nac un nac arall o honynt yn nianc; a llwyraf carcharu a wybuwyd erioed a fu ar y teuluoedd hyny.”

Cymhariad graddol yw mwyhad neu leihad yr enw gwan yn ei synwyr a'i ansawdd ; megys y dywedir, un peth sydd *hardd*, arall yn *harddach*, ac arall yn *harddaf* oll.

Cymhariaeth enw gwan, neu ansawdd damweiniol, a ddichon fod mewn tair ffordd amryfal ; sef, yn gyntaf, drwy gynorthwy goreiriau addasol o flaen yr enw gwan yn ei gyflwr cyntefig ; yn ail, drwy gysylltu arddodiaid âg ef ; ac, yn drydydd, drwy ddodi wrtho amryfeilion derfyniadau.

Tair gradd cymhariad sydd ; sef, y gysefinradd, y ganolradd, a'r uchelradd.

Y gysefin, neu y wastadradd, yw y gair yn ei synwyr cyntaf er amlygu cyflwr neu ansawdd rhyw wrthddrych, heb fwyhad neu leihad ; megys, *da*, *drwg*, *teg*, *doeth*.

Y ganolradd, neu radd gymharol, sydd yn ychwanegu neu yn lleihau y gair cysefin mewn arwyddocad yn uwch neu is, gwell neu waeth ; megys, *gwell*, *gwaeth*, *tecach*, *doethach*.

Yr uchelradd, neu y radd eithaf, yw yr hon y byddo synwyr mwyaf neu leiaf enw gwan ynndi, ac ni ellir ei helaethu ; megys, *goreu*, *gwaethaf*, *tecaf*, *doethaf*.

Y terfyniadau a arwyddocant raddau cymhariad ydynt *ed*, *ach*, *af*. Y cyntaf a ddengys gystadledd ; y nesaf, cymharol fwyhad neu leihad ; yr olaf a ddengys radd oruchel y cyfryw ansawdd ag a fyddo yn y radd gysefin.

Cynifer o eiriau ag a gadwant lythyrenau gwreiddiol y wastadradd, ac a derfynant gydag *ach* yn y ganolradd, a elwir cymhariaid rheolaidd ; fel y canlyn :—

<i>Cysefinradd.</i>	<i>Cystadledd.</i>	<i>Canolradd.</i>	<i>Uchelradd.</i>
Anwyl,	Anwyled,	Anwylach,	Anwylaf.
Byr,	Byred,	Byrach,	Byraf.
Cas,	Cased,	Casach,	Casaf.
Haelionus,	Haelionused,	Haelionusach,	Haelionusaf.
Main,	Meined,	Meinach,	Meinaf.
Pell,	Pelled,	Pellach,	Pellaf.

At y rhai hyn y gellir ychwanegu y terfyniad *aidd*, yr hwn hefyd sydd yn dynodi cymhariaeth; megys, *mwyn-aid*, *tlodaidd*.

Y mae yr enwau gweinion *da*, *drwg*, *hir*, *mawr*, *bach*, *hen*, *ieuanc*, oherwydd eu bod yn dra chynefin, yn cael eu cymharu yn gyffredin mewn dull afreolaidd, ac yn ffurfio cystadledd, rai o honynt, oddiwrth y gysefinradd; megys,

<i>Cysefinradd.</i>	<i>Cystadledd.</i>	<i>Canolradd.</i>	<i>Uchelradd.</i>
Da,	Daed,	Gwell,	Goreu.
Drwg,	Dryced,	Gwaeth,	Gwaethaf.
Hir,	Hired,	Hwy,	Hwyaf.
Ieuanc,	Ieuanged,	Iau, neu ieu- angach,	Ieuaf, neu ieu- angaf.

Ereill o'r ganolradd; megys,

<i>Cysefinradd.</i>	<i>Canolradd.</i>	<i>Cystadledd.</i>	<i>Uchelradd.</i>
Agos,	Nes,	Nesed,	Nesaf.
Allan,	—	—	Eithaf.
Bach,	Llai,	Lleied,	Lleiaf.
Buan,	Buanach, neu cynt,	Buaned, neu cynted,	Buanaf, neu cyntaf.
Diwedd ( <i>enw cadarn</i> ),	—	—	Diweddaf.
Hawdd,	Haws,	Hawsed,	Hawsaf.
Hen,	Hŷn, <i>i Btu. ii. 22.</i>	Hyned,	Hynaf.
Isel,	Is,	Ised,	Isaf.
Llawer,	Mwy,	—	Mwyaf.
Llydan,	Lled, neu lletach,	Lleted,	Lletaf.
Mawr,	Mwy,	—	Mwyaf.
Uchel,	Uwch, neu uch,	Uched,	Uchaf.
—	Trech,	Trechod,	Trechaf.

Er hynny, canodd SION TUDUR, yr hwn a flodeuodd o gylch y flwyddyn 1580, fel hyn,

Na âd drachwant yn *drechach*.

Ac y mae y gair yn arferedig yn dra mynych felly yn yr oes hon, er nad ydyw warantedig yn y dull dyblyg hwn yn ol rheolau Grammadeg.

Y geiriau *llawer* a *mawr*, a arferant *cymaint* er arwyddocau cystadledd.

Perthyn hefyd i'r Gymraeg,\* megys yr Hebraeg, fath o uchelradd led hynod, yr hon a ffurfir drwy ddyblygu y gysefinradd, er mwyn, fel y dywed y dysgawdwyr Hebraidd, dynodi rhagoroldeb yr uchelradd; megys, "*Drwg, drwg, medd y prynwr,*" &c. Diar. xx. 14. Dyblygir goreiriau yn yr un modd; megys, "O fesur *ychydig* ac *ychydig* y gyraf hwynt allan o'th flaen di," &c. Exod. xxiii. 30. "Y dyeithr a fyddo yn dy fysg a ddring arnat yn *uchel, uchel*; a thi a ddisgyni yn *isel, isel.*" Deut. xxviii. 43.

Y goreiriau a arferir i ddangos graddau cymhariad ydynt, *cy, cyf, gan, go, lled, mor, mwy, tra*; megys,

---

\* Yr enw *Cymry* sydd yn deilliaw oddiwrth ddau air, sef *Cyn* a *Bro*, y rhai a arwyddant breswylwyr cyntaf gwlad; ac a fabwysiadwyd gan y bobl hyn, naill ai oblegyd eu blaenoriaeth haniad o feibion Noah, neu ynte eu bod y genedl gyntaf a gyfanneddodd yn Ewropa. Y rhanau cyfansoddol hyn, drwy gyfundeb cynhenid i'r iaith, a ffurfiant y gair *Cymro*, neu *Cymro*, yn ei rif lluosog *Cymry*, o ba un y lluniodd y Groegiaid eu *Kimmerioi* (cyfenwad gan hyned ag amser Homer), a'r Rhufeiniaid, gyda mwy o gywirdeb, eu *Cimbri*. Gelwir y *Cimbri* hefyd, gan wahanol awduron, yn *Gomari*, *Gomeræi*, a *Gomeritæ*, wrth yr un rheol ag a ofyn i'r gair *Cymry* gael ei ysgrifenu yn achlysurol *Gymry*, yn ol y llywodraeth a fedd y gair blaenorol arno; ac oddiyma y dychymygodd rhai ysgrifenydd, yn gyfeiliornus, i'r *Cimbri*, neu y *Cymry*, gael eu galw felly oddiwrth *Gomer*. Yn mhlith ereill ag a syrthiasant i'r amryfusedd hwn, gellir rhestru y diweddar Barch. E. DAVIES, awdwr deallgar y *Celtic Researches*, tu dal. 124, lle y barna efe "nad ydynt y *Cymry*, neu *Cimmerii*, ddim amgen na *Gomerii*." Eithr, er fod *C* yn myned yn *G* drwy gyfnewidiad naturiol, nid ydyw y llythren a grybwyllwyd olaf byth yn troi i'r flaenaf. Y diweddar Fardd awengamp cyhoeddi Iolo Morganwg, mewn nod yn nghwr y seithfed tu dal. o'r ail gyfrol o'i delyngathlau Seisonig anefelychadwy, yn dra phriodol, a eilw hwn yn "ddychymyg penchwiban a gwreiddyn disail," megys y mae hwnw hefyd a olrheinia y gair oddiwrth *Camber*, un o wroniaid ffugiol GALFFRAI o Fynwy. Eithr y mae y cyfiachyddion Seisonig, ysgwaetheroedd, yn ymbellhau yn fwy fyth oddiwrth y nod. Un o honynt a ddywed i ni i'r *Cimbri* gael eu galw felly oblegyd eu tueddiadau rhyfelgar; ac arall, fod y gair yn deilliaw oddiwrth "*kym*, un o'r geiriau Celtaidd hynaf, yn arwyddocau *mynydd*."

*cyhyd, cyfuwch, gan gystal, lled dda, mor dirion, mwy tirion, tra mawr.*

Rhai heb un blaenddod a derfynant yn *ed*, i ddangos rhyw ragoroldeb; megys,

Haul ydyw o hoyw loywder!  
Frithed ei siaced o ser!—*Cywydd y Drindod.*

Y mae y llythyrenau *b, d, a g*, pan fyddant yn niwedd y wastadradd, yn cyfnewid yn y ganolradd a'r uchelradd i *p, t, a c*; megys, *cyffelyb, cyffelypach; caled, culetach; tebyg, tebycach*: hefyd, *tlawd, tlotach; rhaid, rheitiach*. Ond ni arferir hyn bob amser gan y Beirdd.

Y mae rhai enwau gweinion na chymerant gymhariad; megys, *amserol, marwol, terfynol, &c.* Y mae amryw eiriau cymharol heblaw y rhai uchod, a arferir i eglurhau pethau yn ol helaethder y meddwl; megys, "A bydd y fory megys heddyw, a mwy o lawer iawn."

Goreiriau ffurfiedig oddiwrth enwau gweinion, a ddeuant yn gyfryw drwy osod *yn* gyfarwyneb â'r enwau gweinion, yr hyn sydd yn cyfnewid eu cydseiniaid dechreuol i'w sain meddal ac esmwyth; megys, *da, yn dda; mwyn, yn fwyn.*

#### ADRAN 6.—*Dosparth yr Awgrymau.*

Yn y flwyddyn 1820, gwnaed ymbrawf teg, gan y diweddard Barch. JOSEPH HARRIS o Abertawy, er diwygio trefn sathredig, eto trosgl, ein rhifyddiaeth, drwy ymddangosiad llythyr o'i eiddo ar y pwnc yn y rhifyn am Ebrill o *Seren Gomer*; a chan fod ei ddull yn aneithradwy, a'i resymau drosto yn anhydor, barnwyf mai nid anfuddiol fydd eu cyfleu yma, fel y delo ar arfer mwy cyffredinol. Efe a ragnoda fel y canlyn:—

"Addefir fod godidawgrwydd iaith yn gynnwysedig mewn rhan fawr yn anamledd y llythyrenau a'r geiriau

gofynol i osod allan amgyffredion y meddwl; ond syndod i mi bod cynifer o eiriau afreidiol yn cael eu defnyddio i egluro rhifnodau yn y Gymraeg, tra y mae y Saeson, ac ereill, yn mynegu yr unrhyw â llawer llai o eiriau, wedi myned unwaith dros ddeg. Anghraifft:

SAESNEG.	CYMRAEG.
12 Twelve, (un sill.).....	{ Dau ar ddeg, (3 sill.) Bai erchyll yw galw <i>deuddeg</i> ar 12.
13 Thirteen.....	Tri ar ddeg.
39 Thirty nine, (3 sill.).....	{ Pedwar ar bymtheg ar ugain! (8 sill.)
99 Ninety nine, (eto.).....	{ Pedwar ar bymtheg a phedwar ugain!! (10 sill.)
199 Hundred ninety nine, (5 sill.)...	{ Pedwar ar bymtheg a phedwar ugain wedi 'r cant!!! (13 sill.)

“Dirfawr wahaniaeth! Dichon y Sais rifo mil, yn araf deg, cyn y gallo Cymro, er brysio, ddyfod i ben a'i 400! A gwahaniaeth hollol ddiraid ydyw; gellir rhifo o un i gant mor fyr yn y naill iaith a'r llall; ac o un cant uchod yn fyrach yn Gymraeg nag yn y Saesneg. Os dichon y Sais ddweyd 4 a 12 (*four and twelve*) yn fyrach na'r Cymro, eto dichon yr olaf fynegu 7 ac 11 (*seven and eleven*) yr un gymaint yn fyrach na'r blaenaf:—wedi rhifo hyd 10, yn y modd arferol, rhifwch fel hyn:—11, deg un—12, deg dau, ac felly hyd 19, deg naw; h. y. deg a naw—yna 20, *deuddeg*—21, *deuddeg un*—22, *deuddeg dau*, ac felly hyd 29, *deuddeg naw*; ac yna, 30, *trideg*—40, *pedwardeg*—50, *pumdeg*—60, *chwedeg*—70, *seithdeg*—80, *wythdeg*—90, *nawdeg*—100, *cant*—139, *cant trideg naw*—599, *pumcant nawdeg naw*. Yn y modd hyn y rhifa y Saeson; nid yw eu *twenty, thirty, forty, fifty, &c.*, ond *two tens, three tens, four tens, five tens, &c.*, wedi

eu harallu; *thirty one*, yw *three tens one*, neu drideg un, sef, trideg ac un, os mynech lefaru yn llawn, megys *thirty and one* yn llawn, yn y Saesoneg. Hyd yma y mae'r Cymro yn gydradd â'r Sais; ond wedi myned at gant, y mae mantais o un sill gan y Cymro yn mhob rhif oddiyno i fil; ac o fil yn y blaen, fantais o ddwy sill yn mhob rhif, oblegid bod dwy sill mewn *hundred* ac mewn *thousand*, a dim ond un mewn *cant a mil*.

“ Hefyd, os dilynir y drefn a gynnigir yn awr, bydd i olwg arwynebol o'r rhifnodau, megys yn y Saesoneg, roddi geiriau addas yn ngenau y rhifwr i'w darlunio; canys os bydd tair rhifnod, y mae y flaenaf o'r tair yn gant, neu gantoedd, yr ail yn ddeg, neu ddegau, a'r olaf, yr hyn sydd dros ben y degau; megys, 121, *hundred twenty (two tens) one*, 'cant deuddeg un.'—347, *three hundred forty (four tens) seven*, 'tri chant pedwardeg saith.'—577, *five hundred seven tens seven*, 'pumcant seithdeg saith;' h. y. 5 o gantoedd, 7 o ddegau, a 7 yn ychwaneg. Gwelwch mor amlwg y mae y rhifnodau yn egluro ei hunain; eithr sylwch ar y tri rhifnod olaf, (er anghraifft,) sef, 577, a darluniwch hwy yn ol yr hen ffordd; sef, 'pumcant a dau ar bymtheg a thrugain;' y mae yn gofyn i wr fyned i fyfyrion tipyn cyn cael allan y dirgelwch: nid oes un o'r rhifnodau, ond y cyntaf, yn ei gynnorthwyo. Yn 577, gwelir pumcant yn amlwg, eithr nid oes yma na *dau* na *phymtheg*, nac un *ugain*, chwaithach *tri ugain!*”

Onid ydynt yr ystyriaethau blaenorol yn ddigon i beri i bawb lwyr ymwrthod â'r *hen drefn*; a rhyfeddu na busid wedi dynoethi ei gwrthuni, a hyny yn effeithiol, cyn ei eni ef?

Eto, er dangos nad oeddynt ein hynafiaid mor anwybodus yn nghelfyddyd rhifyddiaeth ag y gallai ambell un

farnu eu bod wrth y drefn ledchwith bresennol, rhoddaf yma yr hyn a fenthyciwyd o hen lyfr, ysgrifenedig yn nghylch y flwyddyn 1300, gan HOPCIN THOMAS AB EINION, *Offeiriad*, o Ynys Tawy.

“Tair awgrym gwybodau a fuont ar arfer o’r dechreuad gan genedl y Cymry.

“Cyntaf o’r tair herwydd braint a bonedd yw awgrym gair ac ymadrodd, sef llythyr.

“Ail awgrym, erddigan, sef goslef ac arwest.

“Trydydd awgrym, rhif, ac fel hynn y mae :

“Un, dau, tri, pedwar, pump, chwech, saith, wyth, naw, deg—unneg ac un, unneg a dau, unneg a thri, unneg a phedwar, unneg a phump, unneg a chwech, unneg a saith, unneg ac wyth, unneg a naw, deuneg—ac fal o’r blaen hyd trineg, pedryneg, pumneg, chweneg, seithneg, wythneg, nawneg, cant—ac hyd fil, ac o hynny hyd geugant, neu anfeidredd. A chyfrinach yw cadwedig ar lafar Gorsedd Beirdd Ynys Prydain, o’r dechreuad ; a Thydain Tad Awen a’i trefnes gyntaf yn gelfyddyd fannog ar wybodau doethineb.”

---

### PENNOD III.

#### ADRAN 1.—*Am Ragenw.*

Rhagenw sydd air a ddodir weithiau yn lle enw, er rhagflaenu ail adroddiad o’r un gair mewn ymadrodd ; megys, Y mae y dyn yn wynfydedig, y mae *efe* yn garedig, y mae *efe* yn ddefnyddiol.

Rhagenw ydyw pob peth a arwyddocao ddynweddiad, pa un bynag ai dynsawd, neu hanfod, neu ddirprwy a fyddo ; a phob peth a arwyddocao feddiant, neu ymofyn.

Rhagenwau a ddosparthir yn ddau fath ; sef, rhagenwau



cedyrn, i ba rai y perthyn rhif, person, a chenedl ; a rhagenwau gweinion.

Dau rif sydd i ragenwau, fel i enwau ; unig, megys *mi* ; lluosog, megys *chwi*.

Yn mhob rhif y mae tri dynsawd, neu berson ; megys, *myfi, tydi, efe* ; *nyni, chychwi, hwynt-hwy*.

Tair cenedl sydd i ragenwau yn y trydydd dynsawd, unig a lluosog ; gwryw, megys *hwn* ; benyw, megys *hon* ; a chyffredin, megys *hyn*.

Y rhagenwau dynweddiadol, sef a arwyddocant ddynsawd, neu ddynoldeb, ydynt y rhai canlynol :—

<i>Dynsawd cyntaf unig.</i>	<i>Dynsawd cyntaf lluosog.</i>	<i>Ail ddynsawd unig.</i>	<i>Ail ddynsawd lluosog.</i>
Mi, fi, i, ym.	Ni.	Ti.	Chwi.
Myfi.	Nyni.	Tydi.	Chychwi.
Minau.	Ninau.	Tithau.	Chwithau.
Myfinau.	Nyninau.	Tydithau.	Chychwithau.

*Trydydd dynsawd unig.*

Efe, ef, hi.  
Fe, e, hyhi.  
Fo, o, hithau.  
Efo, yntau, hyhithau.

*Trydydd dynsawd lluosog.*

Hwynt, hwy.  
Hwynt-hwy.  
Hwythau.  
Hwyntau.

Oddiwrth y rhagenwau gwahanredol a chyfain, y crybwyllwyd uchod am danynt, y tarddant ragenwau anesgarawl a chysylltiedig, y rhai a gyfenwir genym ni, megys yr Hebreaid, *rhagenwau cynglyn* ; megys *f*, oddiwrth *fi*, yn *ataf, genyf, ynof* ; *t*, oddiwrth *ti*, yn *atat, genyt, ynot* ; *o*, neu *aw*, oddiwrth *efo*, yn *ato, ganddaw, ynddaw* ; *i*, oddiwrth *hi*, yn *ati, ganddi, ynddi* ; *ch*, oddiwrth *chwi*, yn *at-och, genych, ynoch* ; *ynt*, oddiwrth *hwynt*, yn *atynt, ganddynt, ynddynt* ; *m*, oddiwrth *ni*, yn *atom, genym, ynom*.

Cymerir achlysur yma, unwaith eto, i sylwi ar yr hen drefniant o lythyrenu geiriau, a chyda hyny addunedir yn gydwybodol na ofwyir ei noddwyr mewn barn mwyach, o

leiaf y chwyl hon. Haerant hwy y dylai fod dwy *t* yn *atoch*, *atynt*, &c. Dymuner arnynt ddadglymu y ddeuair hyn o'u llythraeth eu hunain, a'u rhanu yn sillau, i weled pa synwyr a geir yn eu gwreiddiau. Wele! dyma hwynt: *at-toch*, *at-tynt*. Yr ydym yn cyfaddef fod *at*, y sill gyntaf, yn Gymraeg loyw,—“Af *at* droed y Wyddfa.” Nid *att* droed na phen. Ond beth yw ystyr *toch* a *tynt*? Beth bynag ydynt, nid Cymry na Chymraeg ydynt. Gofyner i ddiffynwyr y trefniant newydd silliadu *atoch*, *atynt*, ac egluro ei rhanau. *Hwy* a allant wneyd hyn yn esmwyth:—*atoch*, *at-chwi*; *atynt*, *at-hwynt*. Dyma Gymry glân, diledryw. Bydded pawb a garant gyweiriaith ar eu gwyl-iadwriaeth rhag cael eu harwain ar ddigrain gan yr hudlewynau Deheubarthig mawrion.

ADRAN 2.—*Am Ragenwau Perthynasol.*

Rhagenwau gweinion yn arwyddocau perthynasiad, neu ragenwau yr ansawdd damweiniol, ydynt amrywiol; sef, meddiannol, dangosiadol, perthynol, ymofynol, ac anherfynol.

Y rhagenwau meddiannol, sef a arwyddocant feddiant, neu berchenogaeth, a adnabyddir fel y canlyn:—

*Unig.*

*Lluosog.*

Dynged:	}	1 My, fy, ym, mau, eiddof.	Ein, einom, einym, eiddom.
		2 Dy, yth, eith, tau, eiddot.	Eich, ych, eiddoch, eiddych, iwch.
		3 Ei, eiddo, eiddi.	Eu, u, eiddynt.

Gyda rhagenwau meddiannol y gellir doddi *hun* a *hunan*, yn y rhif unig; a *hunain*, yn y lluosog; a gallant, yn y ddau ansawdd, ganlyn y rhagenwau dynweddiadol; megys, *mi fy hun*, *mi fy hunan*; *ni ein hunain*.

Y mae *ym*, *ein*, *eich*, yn aml iawn yn bwrw eu llafariaid ymaith; ac, yn ol arfer Gwynedd, troir *ei* yn *i*; ac

ar ol yr arddodiad *i*, newidir *ei*, yn ddireol, *i w*; megys, *i'w*, yn lle *iddei*; ac arferid *wy* yn fynych gynt.

ADRAN 3.—*Am Ragenwau Dangosiadol.*

Y rhagenwau dangosiadol ydynt yn nodi allan yn gymhwys y gwrthddrych am yr hwn y traethir mewn ymadrodd, ac ydynt y rhai canlynol:—

<i>Unig.</i>	<i>Lluosog.</i>
Hwn, <i>g.</i> hon, <i>b.</i> hyn, <i>c.</i>	Y rhai hyn, y rhai yma.
Hwnyma, honyma, hynyma.	Y rhai hynyma.
Hwna, hona, hyna.	Y rhai hyna, yna.
Hwnyna, honyna, hynyna.	Y rhai hynyna.
Hwnacw, honacw, hynacw.	Y rhai hynacw, acw.
Hwnw, hono, hyny.	Y rhai hyny.

ADRAN 4.—*Am Ragenwau Perthynol.*

Y mae dau ryw o ragenwau perthynol, neu ddosparthiadol; sef, y rhai cyfeiriol, neu a atebant i ryw beth neu ddynsawd rhagflaenol, ac a gymerant y bannodau *y* neu *yr* yn flaenorol iddynt; a rhai yn arwyddocau dosparthiad digyfeiriol, ac ymofyniad; fel y canlyn:—

Yr hwn, yr hon, yr hyn.	Y rhai acw, y rhai yma. Y rhai ereill. Y naill, y naill rai. Y llall, y lleill.
Yr hwna, yr hona, yr hyna.	
Yr hwnw, yr hono, yr hyny.	
Y rhai hyn, y rhai hyna, y rhai hyny.	

Y rhagenwau o ddosparth digyfeiriadol, ac ymofynol, ydynt y rhai a ganlyn:—*pa?* *pwyl?*\* *pa un?* *pa rai?* *pa beth?* *beth?* *mae?*

---

\* O ddiffyg cydweithrediad dysgedigion i goleddu y Gymraeg fel y dylasant, y mae rhai pethau yn nhafodiaith ein cydynsyddion y Seison yn fwy rhagorol na hi, yn enwedig yn y rhagenwau canlynol; sef, *who*, *whose*, *whom*. Y tri rhagenwau hyn ydynt ddarluniadol o'r tri achosion Seisonig: *who* ydyw yr enwedigydd, *whose* ydyw y meddiannydd, a *whom* yw y cyhuddolydd. Nid oes genym eiriau addas am *whose* a *whom*: eithr erbyn gwneyd y frawddeg yn

*Pwy a pa* ydynt o bob cenedl a rhif; ond dealler nad ydynt bob amser yn ofynolion, eithr y maent weithiau yn annherfynol, yn enwedig pan eu cysylltir â'r gair *bynag*; megys, *pwy bynag, pa un bynag*. Hefyd, dywedir *pwy*, bob amser, pan yn cyfeirio at ddynsodau, a *pa*, gan mwyaf, pan at bethau. Nid yw *pwy* un amser yn gysylltiedig â sylweddair, na *pa* un amser heb sylweddair yn nglŷn âg ef; felly yn amryfus y dywedir, *pwy ddyn, pwy amser, pwy galon, &c.*, ond *pa ddyn, pa amser, pa galon, &c.*

ADRAN 5.—*Am Ragenwau Annherfynol.*

Rhagenwau annherfynol ydynt rai ag a osodant allan eu gwrthddrychau mewn dull amhenodol, neu gyffredinol. Y canlynol ydynt o'r fath hyn:—

<i>Un.</i>	<i>Llu.</i>	<i>Un.</i>	<i>Llu.</i>	<i>Un.</i>	<i>Llu.</i>	<i>Un.</i>	<i>Llu.</i>
Arall	Ereill	Naill	Oll	Un	Rhai	Nebun	Nebrhai
Llall	Lleill	Pob	Pawb	Neb	Pobrhai	Rhywun	Rhywrai

PENNOD IV.

ADRAN 1.—*Am Barwyddiad.*

Parwyddiad, neu ferf, yw pob gair a arwyddocao gwn-euthur, bod, neu ddyoddef, *pa un bynag* ai dyn, peth, neu ryw haniad a fyddo y peiriad, neu yr achosydd; a hyny gydag amser, modd, a dynweddiad.

Bod; megys, *ydwyf, ydwyt*. Gwneuthur; megys, *caraf, dysgaf*. Dyoddef; megys, *ef a'm dysgir, cerir fi, dysgir fi*.

Deuryw barwyddiad sydd; sef, parwyddiad rhydd, a pharwyddiad erchwynedig.

---

gyflawn, ni fydd y Gymraeg mor ddiffygiol ag y tybygid ar y golwg cyntaf; megys, *Who loved? pwy a garodd? Whose is the book? eiddo pwy yw y llyfr? Whom do ye seek? pwy a geisiwch?*

Parwyddiad rhydd yw prifair y byddo digon o synwyr ymadrodd ynddo ei hunan, heb wrthddrych yn gyneiliad o'i ol; megys, *cerddaf, eisteddaf, cysgaf*.

Parwyddiad erchwynedig yw gair a fyddo a'i bwys ar beth arall ar ei ol, yr hwn sydd wrthddrych iddo; megys, *gwelaf, clywaf, cyhuddaf*; i'r hyn y mae gwrthddrych, sef y *peth* a welir, a glywir, neu a gyhuddir.

Ansawdd parwyddiad sy driphlyg; sef, gwneuthurol, goddefol, a chanolig.

Parwyddiad gwneuthurol yw pob gair sydd yn mynegu gweithrediad personol, ac o angenrhaid yn cynwys gweithredydd, a gwrthddrych y gweithredir arno; megys, *mi a garaf addysg*. Yma, y rhagenw *mi* yw y gweithredydd; *caru* yw y parwyddiad; *addysg* yw y gwrthddrych.

Pum gobenydd, neu derfyniad, parwyddiad gwneuthurol sydd; megys, *af, caraf; wn, carwn; ais, cerais; aswn, caraswn; wyf, carwyf*.

Parwyddiad goddefol yw pob gair sydd yn mynegu goddefiad, neu dderbyniad unrhyw weithred gan arall; ac y mae o angenrhaid yn cynwys gwrthddrych y gweithredir arno, a gwneuthurwr gan ba un y gweithredir arno; megys, *yr ydys yn fy nysgu; addysg a gerir genyf*.

Pum gobenydd parwyddiad dyoddefol sydd; megys, *ir, e'm cerir; id, e'm cerid; wyd, e'm carwyd; esid, e'm caresid; er, e'm curer*.

Parwyddiad canolig nid yw yn mynegu na gweithred na goddefiad, ond bod, neu gyflwr o hanfodiad; megys, *ydwyf, oeddwn*.

Y mae parwyddiaid o eiriau cysefin, neu odidog; ac ereill o rai cyfansoddedig.

Gellir ffurfio lluaws o agweddiadau ar y parwyddiaid cysefin, drwy gyfnerth math o arddodiaid rhagoriaethol a

rodder wrthynt ; sef, yn benaf, y rhai hyn, *ad, dad, di, dir, dis, dy, dym, go, gor, lled, rhy, tra, ym.*

Perthyn hefyd i barwyddiad rif, dynweddiad, moddau, amserau, a chyfraniadau.

#### ADRAN 2.—*Am Rif a Dynweddiadau.*

Deuryw rif sydd i barwyddiad, megys i enw ; sef unig a lluosog.

Yn mhob rhif y mae tri dynweddiad ; sef y cyntaf, yr ail, a'r trydydd. Y cyntaf yw yr hwn a ymadroddo am dano ei hun ; yr ail yw yr hwn a ymadroddo wrth arall ; y trydydd yw yr hwn a ymadroddo am arall ; megys,

	<i>Unig.</i>	<i>Lluosog.</i>
<i>Dynweddiad</i> {	1 Myfi ydwyf.	Ni ydym.
	2 Tydi ydwyf.	Chwi ydych.
	3 Efe ydyw.	Hwy ydynt.

#### ADRAN 3.—*Am y Moddau.*

Modd sydd yn dangos yr amrywiol ffyrdd o dreiglo y parwyddiaid, i amlygu y dull yn mha un y mae yr hanfod, gweithrediad, neu oddefiad, yn cael ei osod allan.

Chwe modd sydd i barwyddiad ; nid amgen, mynegol, gorchymynol, galluedigol, eiddunedigol, ammodol, ac anherfynol.

Modd mynegol sydd yn unig yn cyhoeddi, neu yn hysbysu, unrhyw beth ; megys, *carwyf* ; *y mae y gwynt yn chwythu* ; neu y mae yn cynwys holiad ; megys, *a ydyw efe yn caru ? pwy a ddichon sefyll ?*

Modd gorchymynol a arferir i orchymyn, annog, deisyf, neu ganiatau ; megys, *bydded goleuni ; câr dy Dduw ; amddiffyn dy gam.*

Modd galluedigol sydd yn arwyddocau dichoniad neu

ryddid, gallu, ewyllys, neu rwymedigaeth ; megys, *dichon iddi wlawio ; gall fyned neu aros ; mynai rodio ; dylent ddysgu.*

Modd eiddunedigol sydd yn cynwys dymuniad, neu ddeisyfiad, am unrhyw beth ; megys, *mynwn fy mod yn gyfoethog ; carwn di, pei ym cerit ; O na baent ddoethion, na ddeallent hyn, nad ystyrient eu diwedd.*

Modd ammodol sydd yn gosod peth allan dan ammod, cymhelliad, neu dyb-fwriad ; a bob amser bydd *os, pe, ped*, neu ryw gysylltiad arall, yn ei ragflaenu ; ac, fynychaf, bydd rhyw barwyddiad arall yn cydfyned âg ef ; megys, *os da y gwnei, oni chei oruchafiaeth ? os gwnei i mi gyllell, ti a geffi geiniog ; mi a'i parchaf ef, pe byddai iddo fy ngheryddu.*

Modd annherfynol sydd yn gosod peth allan mewn dull cyffredinol a dirwymau, heb unrhyw wahaniaeth gan rif a dynweddiad ; megys, *canu, caru, dysgu, myned, rhodio.*

Dealler mai parwyddiad annherfynol yw ffurf wreiddiol y parwyddiaid ereill, ac y mae ganddo y llafariad i mewn rhai ymadroddion yn arwydd o'i flaen ; megys, *goleuni i oleuo y cenedloedd.*

\* Y mae gan y parwyddiaid, gan mwyaf, lafariaid yn derfyniadau, yn y modd annherfynol ; canys grym y llafariad yn wahanol a arwydda ymmod a gweithred. Y terfyniadau hyny ydynt *a, aw, i, u* ; megys, *lofffa, adeilaw, tori, talu.*

Ond y mae rhai parwyddiaid a gymerant, yn y modd annherfynol, y terfyniadau hyn, *ain, ed, eg, el, ell, w, yd, yll.*

Er hyny yr holl barwyddiaid a ddisgynant i un dull cyffredin yn eu hamrywiol dreigliadau, drwy yr holl foddau ereill, a'u hamserau ; fel y mae un cyfymrediad cyfunwedd, drwy dreigliadau, yn bod o hyny.

ADRAN 4.—*Am yr Amserau.*

Tri amser godidog sydd i barwyddiad ; sef, cynddrychiol, gorphenol, a dyfodol : ac i'w nodi yn fwy manwl, ychwanegir tri amser arall ; sef, anorphenol, tragorphenol, ac ailddyfodol.

Amser cynddrychiol sydd yn gosod gweithred neu ddamwain allan, fel yn myned drosodd yn yr amser y crybwyllir am dani ; megys, *dysgwyf, carwyf, sef, wyf yn dysgu, wyf yn caru.*

Amser gorphenol sy nid yn unig yn dangos gweithred neu ddamwain yn yr amser a aeth heibio, ond y mae hefyd yn taflu o hirbell at yr amser cynddrychiol ; megys, *dysgais, cerais.*

Amser dyfodol sydd yn gosod gweithred allan megys eto i ddyfod, naill ai gyda neu heb olwg ar yr amser cywir ; megys, *dysgaf, caraf.*

Y mae dau ansawdd i amser dyfodol ; y cyntaf a berthyn i fodd mynegol, yr ail a berthyn i foddau cyfansoddedig ; sef yr ammodol, yr eiddunedigol, a'r galluedigol.

Geill yr amser dyfodol cyntaf adrodd gweithred gynddrychiol, gan ei bod yn ddechreuol yn y gwahaniad rhyngddi ac un arall a aeth heibio ; a chan hyny arferir yr amser hwn yn gyffredin i ddangos gweithred gynddrychiol y modd mynegol, pan na fydd yn ofynol dangos y cynddrychiol ar wahan oddiwrth y dyfodol ; megys, *credaf yn Nuw Dad ; mi a welaf, &c.* Felly yn lled fynych, yr arferynt yr Hebreaid yr amser gorphenol, ac hefyd y dyfodol, yn lle y cynddrychiol.

Amser anorphenol sydd yn dangos gweithred neu ddamwain, naill ai fel wedi myned drosodd ac yn orphenol, neu fel yn aros yn anorphenol ar ryw amser a aeth heibio ; megys, *dysgwn, carwn.*



Amser tragorphenol sydd yn gosod peth allan, nid yn unig fel wedi myned heibio, eithr hefyd fel yn blaenori rhyw ran arall o amser a enwir yn benodol yn yr ymadrodd; megys, *dysgaswn, caraswn*.

Amser aildyfodol sydd yn dangos y cyflawn orphenir y weithred erbyn neu o flaen amser gweithred neu ddamwain arall i ddyfod; megys, *dysgof, carof; dysger, carer*.

#### ADRAN 5.—*Am Gyfraniad.*

Cyfraniad, neu rangymeriad, a elwir felly am ei fod yn ddull neillduol ar y parwyddiad, ac yn dwyn ei enw oddiwrth ei fod yn cyfranogi, nid yn unig o anian a phriodol-ddau parwyddiad, eithr hefyd o eiddo enw gwan.

Y mae tri cyfraniad; sef, y cynddrychiol, y gorphenol, a'r dyfodol.

Gellir gwahaniaethu cyfraniad oddiwrth enw gwan, drwy fod y blaenaf yn gosod allan y meddylddrych o amser, a'r diweddaf yn dynodi ansawdd neu gynneddf yn unig; megys,

Cyfraniad,—*yn gwneuthur*, neu *yn dywedyd, gan wneuthur*.

Enw gwan,—*gwneuthurol, dywedol*.

Dull cyffredin y cyfraniad yw arfer y cynorthwyolion *yn*, a *gwedi*, o flaen y parwyddiaid yn y modd annherfynol, am y cyfraniad cynddrychiol; ac *yn* i ragflaenu, ac *edig* yn derfyniad, am yr anorphenol; a *gwedi* i ragflaenu, am y gorphenol.

#### ADRAN 6.—*Banyngau a Goreiriau Cynorthwyol.*

Y mae i'r moddau cyfansoddedig, sef yr ammodol, yr eiddunedigol, a'r galluedigol, ddull y mynegol, o berthynas i dreigliadau. Eu harbenigrwydd sydd yn deilliaw o arfer

amryw eiriau cynorthwyol, sef goreiriau, y rhai a ddangosant y cyfryw ddamweiniau.

Y banynau a'r goreiriau a arferir i lunio y moddau ammodol, eiddunedigol, a'r galluedigol; hefyd ammodau, gofyniadau, a negyddion y parwyddiaid gweithredol a dyoddefol, ydynt y rhai canlynol:—*a—ai—neu, neud, neur, neus, ni, nis, nid—o, od, or, os—can—pan—oni, onid, onis—os ni, os nid, os nis—pe, ped, pei, pes—mal pe, mal ped, mal pes—na, nad, nas—os na, os nad, os nas—mal na, mal nad, mal nas—pe na, pe nad, pe nas—o na, o nad, o nas—y, yd, ydd, yr—mal y, mal yd, mal ydd, mal yr.*

Y banynau a'r goreiriau uchod a ddosparthir i drefnau, fel y canlyn, yn ol yr ansoddau a arwyddocant yr amrywiol foddau.

Y rhai hyn ydynt ofyniadol yn mhob modd ac amser; sef, *a, ai, neu neud, neur, neus.* Gofyn yn uniongyrch a wna *a*, ac hefyd arwyddocau peiriant. Arferir *ai* pan fyddo eisieu gofyniad dosparthiadol. Arferir y lleill i lunio cadarnhad.

Y goreiriau negyddol, sef *ni, nid, nis*, a arferir yn y modd mynegol.

Amrywiol ddulliau y modd ammodol a arwyddoedir gan y banynau hyn; sef, *o, od, or, os—pe, ped, pes—mal pe, mal ped, mal pes—can—pan.*

Y modd eiddunedigol a fynegir yn fynych yn null y modd gorchymynol; ac hefyd a nodweddir drwy arfer y banynau hyn; sef, *o na, o nad, o nas—na, nad, nas.*

Arwyddion y modd galluedigol ydynt y rhai hyn; sef, *y, ydd, yr—mal y, mal ydd, mal yr.*

Ond yn y modd hwn, ac yn yr eiddunedigol, pan fynir dosparth a grym i barwyddiad, cymerir ato barwyddiad cynorthwyol a allo hyny.

ADRAN 7.—*Am Dreigliad y Parwyddiaid Cysefin.*

Er mwyn deall ansawdd parwyddiaid yn gyffredinol, dylid ystyried y cysefin, y rhai ydynt sail yr holl barwyddiaid ereill; canys, os edrychir yn fanwl, gwelir mai y parwyddiaid cysefin, wedi eu doddi yn derfyniadau wrth enwau, sydd yn llunio y parwyddiaid ereill yn mhob modd ac amser.

Ymddengys yn y parwyddiaid cysefin dri phrif ansawdd: y cyntaf a arwydda ymmod yn unig; yr ail, bob amser; y trydydd, bob dynweddiad.

Y prif ansawdd cyntaf, sef ymmod, a dardda o ystyr y llafariad yn eu cyflwr godidog, neu arbenig; ac wrth hyn y mae amserau cysefin y parwyddiaid, sef y gorphenol, y cynddrychiol, a'r dyfodol, yn cael eu nodweddu. Oblegyd hyny dylid adnabod ystyr y llafariad, fel y perthynant at lunio y cyfryw amserau.

Ystyr y llafariad o ydyw ymmod allan, neu oddiwrth; a chyda ei threigliadau, *u*, *w*, ac *y*, a arferir i arwyddo pob amser gorphenol. Y llafariad *a* sydd yn arwydd o ymmod neu weithred gynddrychiol; a chyda ei threigliadau, *e* ac *ei*, a ddangosant fynediad dechreuol oddiwrth y cynddrychiol, naill ai at y gorphenol neu y dyfodol. Y llafariad *i* sydd yn arwyddocau mynediad yn y blaen i, neu i mewn; a chan hyny pob amser dyfodol.

Y parwyddiaid cysefin, a soniwyd am danynt uchod, ydynt y canlynol:—*au*, *addu*, *athu*, *aethu*, *elu*, *myned—bod*, *bu*, *bi*, *bydd—yw*, *ydyw*, *ydi*, *oes—oedd*, *ydoedd—sy*, *sydd—mae*, *ys*, *ydys*.

Tra anfynych yr arferir y parwyddiaid cysefin yn y modd annherfynol, oddieithr *myned a bod*, na'u cyfraniaid chwaith, fel y maent ar lawr uchod, oddieithr pan fyddont yn derfyniadau i barwyddiaid cyfansoddedig; am hyny rhoddir eu treigliad hwy drwy y moddau a'r amserau canlynol:—

MODD MYNEGOL.—*Amser Cynddrychiol.*

	1	2	3		1	2	3	
<i>Unig.</i>	{ Wyf,	wyt,	yw.		<i>Lluos.</i>	{ Ym,	ych,	ynt.
	{ Ydwyf,	ydwyt,	ydyw.			{ Ydym,	ydych,	ydynt.
	{ Elwyf,	elwyt,	elyw.			{ Elym,	elych,	elynt.

*Amser Gorphenol.*

	1	2	3		1	2	3	
<i>Unig.</i>	{ Bum,	buost,	bu.		<i>Lluos.</i>	{ Buom,	buoch,	buont.
	{ Buais,	buaist,	buodd.			{ Buasom,	buasoch,	buasont.
	{ Aethym,	aethost,	aeth.			{ Aethom,	aethoch,	aethont.

*Amser Dyfodol.*

	1	2	3		1	2	3	
<i>Unig.</i>	{ Byddaf,	byddi,	bydd.		<i>Lluos.</i>	{ Byddwn,	byddwch,	byddant.
	{ Af,	ai,	â.			{ Awn,	ewch,	ant.
	{ Elaf,	eli,	el.			{ Elwn,	elwch,	elant.

*Amser Anorphenol.*

	1	2	3		1	2	3	
<i>Unig.</i>	{ Byddwn,	byddit,	byddai.		<i>Lluos.</i>	{ Byddem,	byddech,	byddent.
	{ Oeddwn,	oeddit,	oedd.			{ Oeddem,	oeddech,	oeddent.
	{ Elwn,	elit,	elai.			{ Elem,	elech,	elent.

*Amser Tragorphenol.*

	1	2	3		1	2	3	
<i>Unig.</i>	{ Buaswn,	buasit,	buasai.		<i>Lluos.</i>	{ Buasem,	buasech,	buasent.
	{ Aethwn,	aethit,	aethai.			{ Aethem,	aethech,	aethent.
	{ Elaswn,*	elasit,	elasai.			{ Elasem,	elasech,	elasent.

*Amser Ailddyfodol.*

	1	2	3		1	2	3	
<i>Unig.</i>	{ Byddof,	byddot,	byddo.		<i>Lluos.</i>	{ Byddom,	byddoch,†	byddont.
	{ Aof,	äot,	äo.			{ Aom,	äoch,	äont.
	{ Elof,	elot,	elo.			{ Elom,	eloch,	elont.

\* Arferir hefyd, *elswn, elsit, elsai.*† Arferir hefyd, *byddyh, bych, bof, bwyf, bot, bo, boch, bom, bont, boent.*

## MODD GORCHYMYNOL.

	1	2	3		1	2	3
<i>Unig.</i>	{	Byddwyf, bydd, bydded.		<i>Lluos.</i>	{	Byddwn, byddwch, byddant.	
	{	Awyf, â, aed.			{	Awn, ewch, ant.	
	{	Elwyf, dos, eled.			{	Elwn, elwch, elant.	

## MODD ANNHERFYNOL.

<i>Cynddrychiol.</i>	<i>Gorphenol.</i>	<i>Dyfodol.</i>
Bod,	Gwedi bod,	I fod.
Myned,	Gwedi myned,	I fyned.

## CYFRANIAD.

<i>Cynddrychiol.</i>	<i>Gorphenol.</i>	<i>Dyfodol.</i>
Yn bod,	Bodedig,	Bodadwy.
Yn myned,	Mynededig,	Mynedadwy.

ADRAN 8.—*Am y Parwyddiaid Cynorthwyol.*

Y parwyddiaid cynorthwyol ydynt o ddau ryw; sef, y dynweddiadol a'r annynweddiadol.

Y cynorthwyolion dynweddiadol ydynt o un cyfymrediad â pharwyddiaid cysefin, oherwydd mai o honynt y deilliant, gan fod y rhai cysefin yn gweini yn derfyniadau iddynt.

Gwelir yn canlyn pa barwyddiaid cysefin a weddant yn derfyniadau i rai cynorthwyol mewn cyfymrediad.

Y cynorthwyolion *dawed, gwneyd, gallu, cael, caffael, gorugaw*, a gymerant *af* yn derfyniad; megys, *gwnaf, gallaf, &c.*

Terfyniad *daeth, gwneuthur, gwyddaw, yw ost*; megys, *daethost, gwnaethost, &c.*

Terfyniad *canfod, darfod, gorfod, gwybod, a hanfod, yw bod*; megys, *canfu, darfyddaf, &c.*

Y parwyddiaid cysefin, *bod, oedd, mae, sy, a sydd*, a arferir yn aml, yn nghydag ansawdd damweiniol, yn gynorthwyolion, gyda neu heb arddodiad rhagenwol; megys, *bu dda i ti beidio; a oedd eisieu i chwi uros? &c.*

Ond yr ymadroddion hyn yn fynych a fwriant ymaith y parwyddiad cynorthwyol ; megys, *rhaid iddo ganu*, yn lle *mae yn rhaid iddo ganu*.

Y parwyddiaid cysefin, yn y dull annynweddiadol, a arferir yn aml yn gynorthwyolion i barwyddiaid dyoddefol ac o genedl gyffredin.

Gellir rhoddi y parwyddiaid oll yn nghyfymrediad y dull annynweddiadol.

Nid oes ond un treigliad i bob amser yn nghyfymrediad parwyddiad annynweddiadol.

Pan arferir parwyddiad annynweddiadol yn gynorthwyol, y parwyddiad arall a ymgeidw yn null cyfraniad gweithredol, drwy yr holl amserau.

*Treigliad Annynweddiadol y Parwyddiaid Cysefin.*

MODD MYNEGOL.—*Amser Cynddrychiol.*

Air, eler, bydder, ydys.

*Amser Gorphenol.*

Awyd, aethwyd, athwyd, eddwyd, elwyd, buwyd, oeddwyd.

*Daethpwyd-i Bron. iv. 34.*

*Amser Dyfodol.*

Eir, elir, byddir, byddis.

*Amser Anorphenol.*

Aid, aethid, aesid, elid, byddid, buid, oeddid.

*Amser Tragorphenol.*

Aethasid, athasid, elasid, buasid.

· MODD GORCHYMYNOL.

Aër, eler, bydder.

Nid iawn arfer *iff* yn niwedd parwyddiad ; megys, *aiff*, *byddiff*, *gweliff*, &c. ; oddieithr *caiff*, o'r gair *caffael*.

ADRAN 9.—*Am y Parwyddiaid Cyfansoddedig.*

Y parwyddiaid cyfansoddedig, fel y soniwyd eisoes, a darddant o enwau, yn nghyda pharwyddiaid cysefin yn derfyniadau iddynt; gan hyny, nid rhaid yma ond dangos treigliad rhyw un o honynt, megys *caru*, yn y dull gweithredol a dyoddefol yn gyfarystlys.

MODD MYNEGOL.—*Amser Cynddrychiol.*

GWEITHREDOL.		DYODDEFOL.	
<i>Unig.</i>	<i>Lluosog.</i>	<i>Unig.</i>	<i>Lluosog.</i>
1 Carwyf,	carym.	1 Fe'm carir,	fe'n carir.
2 Carwyt,	carych.	2 Fe'th garir,	fe'ch carir.
3 Caryw,	carynt.	3 Fe'i carir,	fe'u carir.

*Amser Gorphenol.*

<i>Unig.</i>	<i>Lluosog.</i>	<i>Unig.</i>	<i>Lluosog.</i>
1 Cerais,	carasom.	1 Carwyd fi,	carwyd ni.
2 Ceraist,	carasoch.	2 Carwyd di,	carwyd chwi.
3 Carodd,*	carasant.	3 Carwyd ef neu hi,	carwyd hwy neu hwynt.

*Amser Dyfodol.*

<i>Unig.</i>	<i>Lluosog.</i>	<i>Unig.</i>	<i>Lluosog.</i>
1 Caraf,	carwn.	1 Cerir fi,	cerir ni.
2 Ceri,†	carwch.	2 Cerir di,	cerir chwi.
3 Cara,	carant.	3 Cerir ef,	cerir hwy.

\* Ond rhyddid barddonol a gyfnewidia y trydydd dynsawd unig, *odd*, i *awdd*; megys, *lluddawdd*, am *lladdodd*; *daliawdd*, am *daliodd*: weithiau i *es*; megys, *codes*, am *cododd*; *rhagores*, am *rhagorodd*: ac i *us*; megys, *gallas*, am *gallodd*; *llas*, am *lladdodd*: ac i *is*; megys, *gadewis*, am *gadawodd*; *cedwis*, am *cadwodd*. Yn gyffredin terfyna y dynsawd hwn yn y Ddyfedwysaeg yn *ws*; megys, *carws*, am *carodd*. Ond ni feiddiodd bron un Bardd nac Arodrydd erioed ei hefelychu. Byddai y dynsawd cyntaf lluosog yn gywirach, ysgatfydd, pe terfynai yn *am* yn lle *om*, megys y gwna yn fynych yn mhlith y Beirdd, y rhai a arferant *cwynasam*, am *cwynasom*; *clywsam*, am *clywsom*, &c.; ac felly deilliai y trydydd dynsawd lluosog, *ant*, yn fwy rheolaidd.

† Yr ail ddynsawd unig yn *i*, y Dyfedwys a'r Beirdd a droant i *y*; megys, *cery*, yn lle *ceri*; *lleddy*, yn lle *lleddi*. Arferir y trydydd

*Amser Anorphenol.***GWEITHREDOL.**

<i>Unig.</i>	<i>Lluosog.</i>
1 Carwn,	carem.
2 Carit,	carech.
3 Carai,	caient.

**DYODDEFOL.**

<i>Unig.</i>	<i>Lluosog.</i>
1 Cerid fi,	cerid ni.
2 Cerid di,	cerid chwi.
3 Cerid ef,	cerid hwy.

*Amser Tragorphenol.*

<i>Unig.</i>	<i>Lluosog.</i>	<i>Unig.</i>	<i>Lluosog.</i>
1 Caraswn,	carasem.	1 Carasid fi,	carasid ni.
2 Carasit,	carasech.	2 Carasid di,	carasid chwi.
3 Carasai,	carasent.	3 Carasid ef,	carasid hwy.

*Amser Ailddyfodol.*

<i>Unig.</i>	<i>Lluosog.</i>	<i>Unig.</i>	<i>Lluosog.</i>
1 Carof,	carom.	1 Carer fi,	carer ni.
2 Carych,	caroch.	2 Carer di,	carer chwi.
3 Caro,	caront.	3 Carer ef,	carer hwy.

*wellnau - e - i Bion  
12. a haccfn  
yn yr ardd 14  
gyda'r 2. Pr un ydynt hwr. ai o'r amser yma, ai o'r amser anorphenol ll. 2. ?*

**MODD GORCHYMYNOL.**

<i>Unig.</i>	<i>Lluosog.</i>	<i>Unig.</i>	<i>Lluosog.</i>
1 Carwyf,	carwn.	1 Carer fi,	carer ni.
2 Cara,	carwch.	2 Carer di,	carer chwi.
3 Cared,	carant.	3 Carer ef,	carer hwy.

**MODD ANNHERFYNOL.—***Amser Cynddrychiol.*

Caru.	Bod yn garedig.
Bod yn caru.	Bod i garu.
Bod am garu.	Bod yn garadwy.

*Amser Gorphenol.*

Bod wedi caru.	Bod wedi ei garu.
----------------	-------------------

**CYFRANIAD** *Cynddrychiol.*

Cariad, yn caru.	Yn garedig.
------------------	-------------

dynsawd unig yn yr amser dyfodol heb ei derfyniad ; megys, *câr*, *dysg*. Hefyd, pan fydd y llafariad o yn y sill olaf o rai geiriau, cyfnewidiant hi i *y* ; megys, *tro*, *try* ; *tor*, *tyr* ; *rhodd*, *rhydd* ; *ffo*, *ffy* ; *golch*, *gylch* ; *dod*, *dyd* ; *clo*, *cly* ; *llosg*, *llysg* ; *diolch*, *diylch*.



CYFRANIAD *Gorphenol*.

GWEITHREDOL.	DYODDEFOL.
Caredig, gwedi caru.	Caredig, gwedi ei garu.
Carawr.*	Carotor.

CYFRANIAD *Dyfodol*.

Caradwy.	Caredigadwy.
----------	--------------

CYFREDIAD.	DYLEDDFIAD.
Carator.	Ceritor.

ADRAN 10.—*Treigliad y Parwyddiaid Afreolaidd.*

Am y Parwyddiad *gwn*, neu *gwybod*.

MODD MYNEGOL.—*Amser Cynddrychiol.*

<i>Unig.</i>			<i>Lluosog.</i>		
1	2	3	1	2	3
Gwn, gwyddost, gwyr.			Gwyddom, gwyddoch, gwyddant.		

Gweler yr amser anorphenol a thragorphenol yn y modd eiddunedigol. Y gorphenol a'r amserau canlynol ereill a ddylynant dreigliad y parwyddiad sylweddol *bod*, gydag ychydig eithriadau. Y gorphenol a red fel y canlyn :—

<i>Unig.</i>			<i>Lluosog.</i>		
1	2	3	1	2	3
Gwybum, gwybuost, gwybu.			Gwybuom, gwybuoch, gwybuant.		

Yn lle *gwybum*, darllenir weithiau hefyd *gwybuum*; megys,

Dy gam a *wybuum*,  
Darllain dy bylgain y bum.

HYWEL SWRDWAL, o gylch y fl. 1450.

\* *Carawr*, *carotor*, *carator*, *ceritor*, ydynt hen eiriau godidog a arferid gynt gan y cynfeirdd.

*Amser Dyfodol.*

	1	2	3
<i>Unig.</i>	Gwybyddaf,	gwybyddi,	gwybydd.
<i>Lluosog.</i>	Gwybyddwn,	gwybyddwch,	gwybyddant.

## MODD GORCHYMYNOL.

	2	3	3
<i>Unig.</i>	Gwybydd,	gwybydded,	<i>ac wedi ei gwtogi,</i> gwyped.

Y lluosog sydd unwedd âg amser dyfodol y modd mynegol.

MODD EIDDUNEDIGOL.—*Amser Anorphenol.*

	1	2	3
<i>Unig.</i> {	Gwybyddwn,	gwybyddit,	gwybyddai.
	<i>Gwedi ei gwtogi,</i> Gwyddwn,	gwyddit,	gwyddai.
	<i>Hefyd,</i> Gwypwn,	gwypit,	gwypai.
<i>Lluosog.</i>	Gwybyddem,	gwybyddech,	gwybyddent.

Arferir *gwyddiad* hefyd weithiau am y trydydd dynweddïad ; megys,

Gwaith cymmen ar fedwen fâd,  
Gweddeiddïaw gwydd a *wyddiad*.—D. AB GWILYM.

*Amser Tragorphenol.*

	1	2	3
<i>Unig.</i> {	Gwybuaswn,	gwybuasit,	gwybuasai.
	<i>Gwedi ei gwtogi,</i> Gwybaswn,	gwybasit,	gwybasai.
	<i>Hefyd,</i> Gwyddaswn,	gwyddasit,	gwyddasai.
<i>Lluosog.</i>	Gwybuasem,	gwybuasech,	gwybuasent.

Y gair cyfan ydyw *gwybyddaswn* ; drwy drychu yr *dd* o hono, try yn *gwybuaswn* ; a bwrw yr *u* ymaith wedi hyny, bydd yn *gwybaswn*.

*Amser Dyfodol.*

	1	2	3
<i>Un.</i> {	Gwybyddwyf,	gwybyddych,	gwybyddo.
	<i>Gwedi ei gwtogi,</i> Gwypwyf,	gwypit,	gwypo.
	<i>Lluosog.</i> Gwybyddom,	gwybyddoch,	gwybyddont.

*Amser Annherfynol.*

Gwybod.

*Ansawdd Dyoddefol.*

MODD MYNEGOL.—*Amser Cynddrychiol.*

Gwyddir, gwyddys.

Ac wedi ei gwtogi, *gwys*; megys,

Ni *wys* heddyw na suddir;

Och roi môr tawch rhom a'r tir.—TUDUR ALED.

Arferir hefyd *gwyddis* a *gwis*, gan y Beirdd.

*Amser Gorphenol.*

Gwybuwyd, *ac wedi ei gwtogi*, gwypwyd.

*Amser Dyfodol.*

Gwybyddir, *ac wedi ei gwtogi*, gwypir.

MODD GORCHYMYNOL.

Gwybydder, *ac wedi ei gwtogi*, gwyper.

*Amser Anorphenol.*

Gwybyddid, *ac wedi ei gwtogi*, gwypid.

*Amser Tragorphenol.*

Gwybyddasid, *ac wedi ei gwtogi*, gwybasid.

*Amser Dyfodol.*

Gwybydder, *ac wedi ei gwtogi*, gwyper.

CYFRANIAD.

Gwybodedig. Gwybodadwy.

Am y Parwyddiad *adwaen*, neu *adnabod*.

Gwreiddyn y parwyddiad hwn sy ddeublyg; oherwydd ffurfir rhai amserau oddiwrth y cynddrychiol *adwaen*, ac ereill oddiwrth y modd annherfynol *adnabod*, yn gyfundull â *gwybod*.

MODD MYNEGOL.—*Amser Cynddrychiol.*

	1	2	3
<i>Un.</i> {	Adwaen,	adwaenost,	edwyn.
<i>A chan y Beirdd,</i>	Adwen.		
<i>Lluosog.</i>	Adwaenom,	adwaenoch,	adwaenont, neu <i>ant</i> .

*Amser Anorphenol.*

	1	2	3
<i>Unig.</i>	Adwaenwn,	adwaenit,	adwaenai.
<i>Lluos.</i> {	Adwaenem,	adwaenech,	adwaenent,
		neu	
	ym,	ych,	ynt.

*Amser Gorphenol.*

	1	2	3
<i>Unig.</i>	Adnabum,	adnabuost,	adnabu.
<i>Lluosog.</i>	Adnabuom,	adnabuoch,	adnabuont, neu <i>ant</i> .

Dywedir hefyd *adwaeniad*, yn lle *adnabu*; megys,

Yno gynt ei enw a gad,  
Y mae dyn a'm *adwaeniad*.—D. AB GWILYM.

*Amser Dyfodol.*

	1	2	3
<i>Unig.</i>	Adnabyddaf,	adnabyddi,	adnebydd.
<i>Lluosog.</i>	Adnabyddwn,	adnabyddwch,	adnabyddant.

MODD GORCHYMYNOL.

	2	3
<i>Unig.</i>	Adnebydd,	adnabydded.

Y lluosog sy gyfunwedd âg amser dyfodol y modd mynegol.

MODD EIDDUNEDIGOL.—*Amser Anorphenol.*

	1	2	3
Unig. {	Adnabyddwn,	adnabyddit,	adnabyddai.
	<i>Hefyd</i> , Adwaenwn,	adwaenit,	adwaenai.
	<i>Gwedi ei gwtogi</i> , Adnapwn,	adnapit,	adnapai, &c.

*Amser Tragorphenol.*

	1	2	3
Unig.	Adnabuaswn,	adnabuasit,	adnabuasai, &c.

*Amser Dyfodol.*

	1	2	3
Unig. {	Adnabyddwyf,	adnabyddych,	adnabyddo.
	<i>Hefyd</i> , Adwaenwyf,	adwaenych,	adwaeno.
	<i>Gwedi ei gwtogi</i> , Adnapwyf,	adnapych,	adnapo, &c.

## \* MODD ANNHERFYNOL.

Adnabod.

*Ansawdd Dyoddefol.*MODD MYNEGOL.—*Amser Cynddrychiol.*

Adwaenir.

*Amser Anorphenol.**Amser Gorphenol.*

Adwaenid, ac adnabyddid.

Adnabuwyd.

*Amser Dyfodol.*

Adnabyddir.

## MODD GORCHYMYNOL.

Adnabydder, adwaener, ac wedi ei gwtogi, adnaper.

## MODDAU EIDDUNEDIGOL, GALLUEDIGOL, AC AMMODOL.

*Amser Anorphenol.**Amser Gorphenol.*

Adwaenid, ac adnabyddid.

Adnabuasid.

*Amser Dyfodol.*

## CYFRANIAD.

Adnabydder, ac adnaper, ac adwaener.

Adnabodedig.

Yn gyfunddull y treiglr hefyd y parwyddiad *cydnabod*, oddigerth yn yr amserau a ddeilliant oddiwrth *adwaen*.

Am y Parwyddiad *cael*, *cahel*, neu *caffael*.

MODD MYNEGOL.—*Amser Gorphenol*.

	1	2	3
Un. {	Cefais,	cefaist,	cafodd.
	<i>Gwedi ei gwlogi</i> , Ces,	cest,	cadd, a cas.
	<i>Lluosog</i> . Cawsom,	cawsoch,	cawsant.

Dywedir hefyd, yn y trydydd dynweddiad unig, *caf*; megys,

Nid digofaint a *gaf*,  
Twr teulu, 'mysg llu y llas.—ELIDYR SAIS.

*Amser Dyfodol*.

Unig.			Lluosog.		
1	2	3	1	2	3
Caf,	cai, cei, a ceffi,	caiff.	Cawn,	cewch,	cant, a caffant.

Arferir *caffaf*, yn lle *caf*, weithiau gan y Beirdd; megys,

Ebol goffol a *gaffaf*.—IOLLO.

MODD GORCHYMYNOL.

Ni fedd y rhif unig ail ddynweddiad. Y trydydd dynweddiad ydyw *caed*, a *caffed*. Yn y rhif lluosog, *cant*, a *caffant*. Benthycia y dynweddiadau ereill oddiwrth amser dyfodol y modd eiddunedigol.

MODDAU EIDDUNEDIGOL, GALLUEDIGOL, AC AMMODOL.

	1	2	3
Un. {	Cawn,	cait,	cai.
	<i>Hefyd</i> , Caffwn,	caffit,	caffai.
Lluos. {	Caem,	caech,	caent.
	<i>Hefyd</i> , Caffem,	caffech,	caffent.
	Ceffym,	ceffych,	ceffynt.

*Amser Tragorphenol.*

<i>Unig.</i>			<i>Lluosog.</i>		
1	2	3	1	2	3
Cawswn,	cawsit,	cawsai.	cawsem,	cawsech,	cawsent.

*Amser Dyfodol.*

	1	2	3
<i>Un.</i> {	Cafwyf,	cefyh, a ceych,	cafo.
	<i>Hefyd,</i> Caffwyf,	ceffych,	caffo.
<i>Lluos.</i> {	Cafom,	cafoch,	cafont.
	<i>Hefyd,</i> Caffom,	caffoch,	caffont.
	Caom,	caoch,	caont.

## MODD ANNHERFYNOL.

Cael, cahel, a caffael.

*Ansawdd Dyoddefol.—Amser Gorphenol.*

Cafwyd, caffwyd; caed, cad; cafad, caffad;  
megys,

Llawen Duw Dofydd dydd y *caffad* cadfan,  
Agored i wan i wen angad.

LLEWELYN FARDD, o gylch y fl. 1280.

*Amser Dyfodol.*

Cair, ceffir.

## MODD GORCHYMYNOL.

Caer, a caffer.

## MODDAU EIDDUNEDIGOL, GALLUEDIGOL, AC AMMODOL.

*Amser Anorphenol.*

Caid, ceffid.

*Amser Tragorphenol.*

Cawsid.

*Amser Dyfodol.*

Caer, caffer.

Y mae yn ddiffygiol mewn cyfraniadau.

Am y Parwyddiaid *byw*, a *marw*.

Arferir y rhai hyn yn y modd annherfynol yn unig;  
eithr deuant weithiau yn enwau gweinion; megys, gwr  
*byw*, gwr *marw*.

Am y Parwyddiad *sefyll*.

Y parwyddiad hwn, gyda'i eiriau cyfansawdd, a ffurfia ei holl amserau oddiwrth yr ail ddynweddiad unig o'r modd gorchymynol, sef *saf*; trydydd dynweddiad yr amser dyfodol yw *saiſf*. Y rhelyw sy reolaidd.

Am y Parwyddiad *dwyn*.

Ffurfia hwn ei holl amserau oddiwrth drydydd dynweddiad unig amser dyfodol y modd mynegol, sef *dwg*; yr hwn sy hefyd yn ail ddynweddiad unig y modd gorchymynol. Amser gorphenol y modd mynegol a red fel y canlyn:—*dygais, dygaist, dygodd*, neu *dyg*. Eithr arferir *dygum* weithiau am ddynweddiad cyntaf y rhif unig. Y rhelyw sy reolaidd.

Am y Parwyddiad *adolwyn*.

Hwn sydd yn y modd annherfynol, ac a arferir hefyd weithiau fel gorair. Eithr ffurfia ei holl amserau oddiwrth y parwyddiad *atolwg*, neu *adolwg*; megys, *atolygais, atolygaist, atolygodd*, &c.

*Adolwyn* yt, dal a naid,  
A rhwyg gwr yr hug euraid.—RHYS GOCH, o *Eryri*.

Am y Parwyddiad *tybygu*.

*Tybygu*, oddiwrth *tyb*, a ffurfir yn rheolaidd, oddigerth yn yr amser tragorphenol, yr hwn a dreiglir fel y gwelir isod, drwy gwtogi y gair trefnus *tybygaswn, tybygasit, tybygasai*, &c., pa un sydd anarferedig:—

<i>Unig.</i>			<i>Lluosog.</i>		
1	2	3	1	2	3
Tygaswn,	tygasit,	tygasai.		Tygasem,	tygasech, tygasent.

Megys,

I geisio, lle *tygaswn*  
Hawdd hud o gawdd, hyd y gwn.—D. AB GWILYM.



Eithr ceir ef weithiau yn gyfan ; megys,

A'r gasul, *dybygesynt*,  
O esgyll gwyrdd fentyll gwynt.—D. AB GWILYM.

*Clybu* a arferir yn lle *clywodd*, yn nhrydydd dynweddiad unig amser gorphenol y modd mynegol. Hefyd *clybod*, yn lle *clywed*, yn y modd annherfynol ; megys,

Aros *clybod* dyfod dydd.  
BLEDDYN FARDD, o gylch y fl. 1246.

*Cigle* a roddir hefyd yn lle *clywodd*, yr hwn ni lunia unrhyw amserau ereill. Er hynny darllenir y gair *ciglef* ; megys,

Doe yn mherygl y *ciglef*,  
Ynglyn aur angel o nef.—D. AB GWILYM.

*Degle* sydd ail ddynweddiad unig y modd gorchymynol, ac yn gyfystyr â *dyglyw*.

Arferir *hwde*, a *hwre*, yn y rhif unig, am *cymer* ; a *hwdiwch*, *hwriwch*, neu *hwrewch*, yn y rhif lluosog, am *cymerwch*.

*Moes*, neu yn y rhif lluosog, *moeswch*, sydd yn yr ail ddynweddiad. Arferir y gair weithiau fel annogaethydd ; megys, *Moeswch* i ni wneuthur priddfeini.

*Eb* a arferir am yr holl ddynweddiadau yn y ddau rif ; megys,

	1	2	3
<i>Un.</i> {	Eb fi, <i>Dywedir hefyd</i> , Eb y fi,	eb di, eb y di.	eb efe.
<i>Llu.</i> {	Eb ni, <i>Dywedir hefyd</i> , Eb y ni,	eb chwi, eb y chwi.	eb hwynt.

Ac yn Ngwynedd, *eb yr fi*, *eb yr di*, *eb yr ef*, &c. Ond ni threiglir y gair yn mhellach. Eto ei gyfansoddion, *ateb*, *gwrtheb*, ydynt reolaidd. Felly hefyd *gohebu* ; megys,

Ni'th glyw neb yn *gohebu*.—D. AB GWILYM.

Am y Parwyddiad *medd*.MODD GORCHYMYNOL.—*Amser Cynddrychiol.*

<i>Unig.</i>			<i>Lluosog.</i>		
1	2	3	1	2	3
Meddaf,	meddi,	medd.	Meddwn,	meddwch,	meddant.

*Amser Anorphenol.*

	1	2	3
<i>Unig.</i>	Meddwn,	meddit,	meddai.
<i>Lluos.</i>	{	Meddem,	meddech,
			neu
		ym,	ych,
			ynt.

Ni fedd ychwaneg o amserau.

Am y Parwyddiad *piau*, neu, mewn cystrawen, *biau*.

Y gair hwn sydd yn amser cynddrychiol y modd mynegol, ac o bob dynweddiad ; megys,

	1	2	3	
<i>Unig.</i>	Mi,	ti,	efe,	} biau, neu piau.
<i>Lluosog.</i>	Ni,	chwi,	hwynt-hwy,	

*Amser Anorphenol.*

	1	2	3	
<i>Unig.</i>	Mi,	ti,	efe,	} bioedd, neu pioedd.
<i>Lluosog.</i>	Ni,	chwi,	hwynt-hwy,	

Arferir ef hefyd weithiau yn yr amser dyfodol, drwy ychwanegu ato y parwyddiad sylweddol *bod*, yn ei dreigl-iadau ; megys,

	1	2	3	
<i>Unig.</i>	Mi,	ti,	efe,	} bieufydd, neu pieufydd.
<i>Lluosog.</i>	Ni,	chwi,	hwynt-hwy,	

Felly hefyd yn amser anorphenol y modd eiddunedigol ; megys,

	1	2	3	
<i>Unig.</i>	Mi,	ti,	efe,	} bieufyddai, neu pieufyddai.
<i>Lluosog.</i>	Ni,	chwi,	hwynt-hwy,	

Am y Parwyddiad *rhoddi*.

Y gair hwn weithiau, er mwyn cwtogiad, a drycha yr *dd* ymaith; ac felly daw *rhoi*, yn lle *rhoddi*; *rhof* a *rhoaf*, yn lle *rhoddaf*; *rhown*, yn lle *rhoddown*; *rhy*, a thrwy osod yr arddodiad *dy* yn mlaen, *dyry*, yn lle *rhydd*; *rho*, yn lle *rhoddo*, neu *rtho*; ac yn y modd gorchymynol, *dyro*, yn lle *rho* y Dyfedwys.

Am y Parwyddiad *arhos*.

*Arhos* weithiau, wrth ei dreiglo, a fwrw yr *s* derfynol ymaith, bryd arall ceidw hi; megys, *arhosaf* ac *arhoaf*. Trydydd dynweddiad yr amser dyfodol yw *erys*, megys *gesyd*; a thrwy drychu yr *s*, *ery*. Yn y modd gorchymynol, *aros*, neu *aro*; megys,

Na ffo, *cyfaro*, forwyn.—D. AB GWILYM.

Am y Parwyddiad *dywedyd*.

Hwn a amrywia yn nhrydydd dynweddiad unig yr amser gorphenol; oherwydd yn lle y gair rheolaidd *dywedodd*, arferir weithiau *dyfod*, *dywad*, neu *dywawd*.

Am y Parwyddiad *dawr*.

Hwn sydd yn nhrydydd dynweddiad unig amser cyn-ddrychiol neu ddyfodol y modd mynegol, ac a arferir yn annynweddiadol. Cyfansoddir ef fel y canlyn:—

1	2	3
Ni'm dawr i,	ni'th ddawr di,	ni ddawr ef, &c.

Ac yn ddynweddiadol, yn yr amser anorphenol,

1	2	3
Ni ddorwn, beth ddorwn,	ni ddorit,	ni ddorai.

Ac weithiau yn gysylltiedig â *dy*; megys, *dyddawr*.

Myn y ddeddf, mi ni *ddyddawr*  
P'le bo'r cawell morlo mawr.—MEREDYDD AB RHYS.

## PENNOD V.

*Nodwedd Elfyddol y Gymraeg.*

(Gwel Pen. IV., Adran 7.)

Bernir yn gyffredin y rhaid fod yr iaith a lefarid gan gynoeswyr y byd, yn fwy digymysg a sefydledig nag un a adwaenir yn y dyddiau hyn. Nid annhebyg yw ei bod yn gynwysedig, ar y cyntaf, o ond ychydig o seiniau gwreiddiol, yn deilliaw yn wirfoddol oddiwrth egwyddorion naturiol dilys, ac yn alluog o gael eu lluosogi, wrth yr un rheol ddigyfeiliorn, mewn cyfartalwch i'r ymofyniadau cynyddol am eu harferiad. Canys byddai yn chwithig i ddychymygu, gyda rhai golygiannwyr, i iaith berffaith gael ei ffurfio gan ddyn cyn bod angenrheidrwydd am dani,—i'r amrywiaeth mawr o ddichlynion grammadegol, a arweiniwyd i mewn wedi hyny, gael eu dyfeisio yn unig er traethu ychydig ddiffygion unigol,—neu, yn olaf, i gynrychiolwyr amgyffredion y meddwl, yn nhaith fawreddog y dealltwriaeth dynol rhagddo, gymeryd y blaenoriaeth ar yr amgyffredion eu hunain. Y fath dyb, pe na bai afresymol o honi ei hun, a annghefnogid ar unwaith gan brofiad cyffredinol, a chan gasgliadau mwyaf didwn y dealltwriaeth.

Rhaid fod iaith, ynte, yn ei mebyd, wedi ei chyfansoddi yn unig o ryw seiniau naturiol a sefydledig, yn alluog i gael eu lluosogi yn ol egwyddor reolaidd a digyfnawid, ac hefyd yn gyfaddas i ffurfio lluaws o gydymgysylltiadau digymysg, yn cydreded â chynydd cymdeithas ac ychwanegiad canlynol amgyffredion a diffygion dynol. Y prif elfyddau hyn, yn y Cymysgedd gwyrthiol yn Babel, i ba berffeithrwydd bynag y cyrhaeddasant y pryd hwnw, a wasgarwyd yn naturiol, ac a fân-ddarniwyd, fel pe bai, yn mhlith yr amrywiol gangen-ieithoedd, i ba rai y rhoddodd

y dygwyddiad hwnw ddechreuad, ac a ffurfiasant, wedi hyny, sail yr holl ieithoedd ereill. Ni lefarir yr un iaith ar wyneb yr holl ddaiar, yn yr hon nid oes rhyw nifer, pa gan lleied bynag, o'r seiniau gwreiddiol hyn yn ganfyddadwy. A dylid, o angenrheidrwydd, caniatu i'r ieithoedd hyny a gadwant y gyfran fwyaf o honynt, yr hawl benaf i burdeb a hynafiaeth. Wrth olrhain yr elfyddau hyn i'r amrywiol ffynnonellau, lle y gellir eu cael yn awr, ein dychymyg a arliwia i ni adfeiliau rhyw adeilad hybarch, wedi eu neillduoli mewn rhan at adeiladaeth amrywiol anneddau diweddar, o fawrwychder mwy hudolaidd, hwyrach, na'r pentwr hynafol, er hyny yn fyr o'i symlwrwydd a'i ardderchogrwydd naturiol ef. A phwy a ddywed nad yw hyd yn nod yn alluadwy, drwy adundeb y darnau gwasgaredig hyn, i adferu i'r byd gyffelybrwydd lled agos o'r adeilad i'r hon y perthynent yn ddechreuol? Os unwaith y boddlonir ni mewn perthynas i unrhywiaeth y gweddillion hyn, yna ni fydd yn afresymol i ni gymeryd y ddadl oll am wirionedd.

Eithr fy ymchwil presennol sydd o natur fwy cyfyngedig, gan mai fy neges digyfrwng â'r seiniau elfyddol hyn ydyw eu hystyried yn unig fel moddion i gadarnhau hynafiaeth y Gymraeg. Canys gellir profi fod ein hiaith gynhenid yn meddu, yn y golygiad hwn, blaenoriaeth rhyfeddol ar y rhan fwyaf o ieithoedd ereill, ac nad oes un o honynt yn rhagori arni. Hyd yn nod yr Hebraeg, fel y mae wedi disgyn i ni, sydd îs na hi yn yr ystyriaeth hwn. Eithr, pe llefarid yr hen iaith hono yn awr, megys y gwneir y Gymraeg, yn ei phurdeb cyntefig, nis gallwn braidd amheu nad amlygai hi y profion cadarnaf o nodwedd elfyddol. Canys, hyd yn nod yn y gweddillion o honi a gedwir genym ni yn awr, cynwysir llawer o gyd-darawiadau hynod o'r fath rhyngddi a'r Gymraeg; a'r cyfryw ag, wedi eu

cysylltu â nodau neillduol ereill o'r Hebraeg, a gyfiawnhant yn ddigonol y farn a feiddiodd rhai gyhoeddi, y "rhaid ei hystyried yn iaith wreiddiol gyda golwg ar bawb ereill ag a ddaethant i lawr i'n hamseroedd ni."

Am y rheswm hwn, tybiodd rhai yn gymhwys i dynu cymhariaeth rhwng yr Hebraeg a'r Gymraeg, fel un o'r tystiolaethau cadarnaf a ellir eu dwyn i hynafiaeth bell yr olaf. Er hyny, dichon mai nid amhriodol a fydd cymeryd golwg cyffredinol o'r cyfryw groyw-ddywediadau gwreiddiol ag a ellir eu gwahaniaethu yn y Gymraeg, pa rai ydynt yn mhlith y nodau mwyaf gwirioneddol o'i chymeriad cyssefin. O lawer o'r rhai hyn hi a gydgyfranoga âg ieithoedd ereill, tra y mae yn cynwys amryw na cheir mewn un lle arall, a pha rai ydynt, am hyny, yn brofion o'i theilyngdod tufewnol a'i hadgyfnerthoedd annibynol. Neu, o leiaf, profant na ddichon y sail ar ba un y gorphwys y rhagoroldeb hwn, fod amgen nag eiddo ymadrodd dechreuol dynolryw.

I ddyn, adnabyddus yn unig o'r Seisonaeg, neu o ryw ieithoedd ereill ag a adeiladwyd ar sylfaen gyffelyb iddi,—o'r cyfryw, yn fyr, ag nad ydynt wedi eu ffurfio oddiwrth eu nerth naturiol eu hunain, eithr a gyfunant yn eu cyfansoddiad gymysgedd o bob iaith arall,—byddai bron yn analluadwy cyfleu dychymyg cymesur am y briodoledd neillduol hon yn y Gymraeg. Pa fodd bynag, deall y sawl a wnaethant gynydd yn yr Hebraeg, ac yn fwy neillduol y rhai hyny a gyrhaeddasant wybodaeth gyffredinol o'r cangen-ieithoedd Dwyreiniol, ar unwaith pa beth a feddylir wrth y seiniau gwreiddiol hyn. Trwy yr Hebraeg, yr Arabaeg, y Bersiaeg, a'r holl ddosparth hwnw o ieithoedd, y maent yn gyffredin wedi ymdaenu; a pha le bynag y ceir hwynt, y maent yn cludo yr un arwyddocad gwahanredol a digyfnawid. "Bydd yn eglur tu hwnt i bob dadl

ac annheuaeth," medd PARKHURST yn y rhagymadrodd i'w Eiriadur Hebreig, "i bwy bynag a chwilio y pwnc yn fanwl, mai amgyffredol ydyw yr Hebraeg, neu fod holl eiriau ereill yr iaith hono yn deilliaw, neu yn cael eu ffurfio yn rammadegol, oddiwrth ryw nifer sicr, ac nid mawr, o eiriau neu wreiddiau cysefin, a thra awdurdodaidd o ran golygiad, ac yn gyffredin yn mynegu rhyw feddyl-ddrych wedi ei fenthycio oddiwrth natur, hyny yw, oddiwrth y gwrthddrychau allanol o'n hamgylch, neu oddiwrth ansoddau ein cyrff ein hunain, drwy ein synwrau neu deimladau ; ac fod, pa beth bynag ydyw y gwreidd-eiriau, yr un meddylddrych, neu ddychymyg arweiniol, yn rhedeg drwy holl dreigliadau y geiriau, pa mor lluosog neu amrywiol bynag y byddont." Felly yn gymhwys y mae gyda'r Gymraeg, yr hon a fedd fel sylfaen bron yr holl amrywiaeth o groyw-ddywediadau digymysg ag a ddichon y llafar-beiriant eu mynegu. Oddiwrth y rhai hyn y deillia iddi y gallu anhysbyddadwy hwnw o gydymgysylltiad seiniau, pa un sydd wedi rhoddi yr holl helaethder mynegiadol a grymus hwnw ag sydd yn ei dynodi mor neillduol, a pha un sydd alluog o gael ei gynyddu i amrywiaeth diderfyn, yn ol yr un egwyddor ddigyfnewid. Oddiyma hefyd y tardd yr urddas syml a'r prydferthwch cyfluniaidd hwnw, pa un a amlyga ein hen iaith mor nodedig yn ei goruchadeilad.

Nifer y prif seiniau, pa un bynag ai cwbl-lafar neu ynte cymysgedig, y rhai y mae y llais dynol yn alluog o draethu, a gyfrifwyd ryw faint yn llai na thrichant. O'r rhai hyn y mae y Gymraeg wedi cadw yn agos i ddeucant a deuddeg ; oddeutu wyth o ba nifer ydynt o ystyr annibynol a phenodol, oddeutu pum deg yn ychwaneg a ddefnyddir yn y swyddau cynorthwyol o ragenwau, bannodau, cysylltiadau, ac arddodiadau, tra y mae y gweddill yn cael eu harfer

yn rheolaidd fel blaendodiaid neu oldodiaid mewn cyfansoddiad, yn ychwanegu neu yn lleihau, yn ol un egwyddor sefydledig, grym y geiriau â pha rai y cydgorfforir hwynt fel hyn. Hyd yn nod y llafariaid eu hunain a feddant briodoleddau anadnabyddus i eiddo ieithoedd Ewropaidd ereill. Y maent oll yn llawn ystyr, a chanddynt, naill ai mewn nodweddiad annibynol neu gynorthwyol, ran sefydledig i'w chyflawni.

Trwy gydymgysylltiad o'r elfyddau digymysg neu gysefin hyn, hadau, fel y gallwn yn gyfiawn eu galw, yr holl ieithoedd dynol, y llunir y geiriau hynny i ba rai y rhoddodd Grammadegwyr yr enwau o wreiddiau. Y mae gan M. DE GEBELIN, yn ei Draethawd rhagorol ar Ddechreuad Iaith ac Ysgrifen, y sylwadau synwyrllawn canlynol ar y pwnc hwn:—"Undeb y seiniau hyn," medd efe, "sydd yn ffurfio y pentwr o eiriau cysefin, y rhai ydynt oll yn eiriau unsill, oll yn gynwysedig yn y llafar-beiriant, oll yn arlliwio gwrthdychau anianyddol, oll yn ffynnonell neu wreiddiau ieithoedd, ac oddiwrth ba rai nis gellir eu hysgaru. Wrth olrhain y geiriau cysefin hyn, gallwn sylwi arnynt bob amser yn disgyn mewn dull syml a digymysg: yr unrhyw eiriau hyn, wedi eu hamrywio ychydig, a arferwyd bob amser er dynodi amgyffredion ychwanegol, a gwahanol gangenau o'r un pwnc." Y briodoledd y cyfeirir ati yma, sy dra darluniadol o'r Gymraeg; a phe buasai yr ysgrifenydd dysgedig hwn yn hyddysg ynddi, buasai, yn ddianmheu, yn alluog i'n cynnysgaethu âg eglurhad cyflawn o'i ragosodiad gorchywrain. Y gorchwyl a ddechreuodd efe mor fedrus, a gyflawnasid yn foddhaol; a gwnaethid y cyfiawnder cyflawn hwnw i'n hiaith gynhenid, pa un a haedda mor helaeth. Trwy ddadglymu hyd yn nod ei chydymgysylltiadau mwyaf dyrys, buasai yn alluog i gan-



fod y geiriau gwreiddiol hyny o ba rai y lluniwyd hwynt; tra y buasai difyniad o'r rhai olaf hyn yn dynoethi i'w sylw y ffynnonellau dirgelaidd hyny, pa rai a ystyriai efe mor gyfiawn fel egwyddorion sylfaenol pob ymadrodd dynol. Trwy y fath weithred a hon, gellir arddangos purdeb a hynafiaeth y Gymraeg. Canys y mae "dadglymiad geiriau," i fenthycio ymadrodd yr un awdwr, "yn gorphwys ar ddwy sylfaen ansyfladwy, sef ar y llafar-beiriant, yr hwn sydd yr unrhyw yn awr ag ydoedd yn nghyfnod boreuaf amser, ac ar y pentwr o eiriau arferedig yn mhob iaith i fynegu amgyffredion a dreiddiant drwy ymenyddiau pawb dynion."

Yn y Bennod nesaf ar y pwnc hwn, amcanwyf egluro, drwy y dadglymiad yr ymsynir arno yma, y nodiadau cyffredinol a gynygwyd uchod. Trwy esgyn yn y dull hwn, fel pe bai, at yr ŵy ei hun—pa mor wrthwynebol bynag ydyw hyn mewn rhai pethau i reol y Bardd Rhufeinig HORAS—galluogir ni i ddilenu y dirgelion hyny na ŵyr y rhan fwyaf o'r Cymry nemawr am danynt. Nid yn unig profir y rhagoriaeth, dros ba un y dadleuir yma, yn effeithiol drwy yr ymchwil hwn; eithr ymddengys hefyd fod natur yr holl hen ieithoedd yn wreiddiol yn gyfunryw,—nad ydynt eu hamrywiaethau ond damweiniol yn unig,—ac y gellir eu dwyn yn ol i'r elfyddau hyny, y rhai ni ddichon dim eu cyfnewid, am fod ganddynt natur ei hun yn wreiddyn.

---

## PENNOD VI.

### *Am Ddadglymiad Elfyddol y Gymraeg.*

Yr wyf yn awr dan yr angenrheidrwydd o fyned i mewn i'r eglurhad dadglymiadol hwnw o'r Gymraeg, at ba un y cyfeiriwyd yn niwedd y Bennod flaenorol. Ac wrth gymeryd y gorchwyl hwn mewn llaw, cwbl newydd bron

fel y mae yn ei natur, y mae yn analluadwy i'r ysgrifenydd beidio rhag-ganfod yr anfanteision i ba rai y mae yn agored ar y naill du, a'r perygl a ddichon ei amgylchynu ar y tu arall. Yr anfanteision y sydd yn ei aros ef, a ddeilliant oddiwrth yr anwybodaeth cyffredinol o nodwedd neillduol y Gymraeg a fodola yn y Dywysogaeth. Hyd yn nod o'r rhai hyny ag ydynt fwyaf cynefin â hi, nid oes ond ychydig iawn yn lletya barn gywir am ei hegwyddorion elfyddol. A chyda golwg ar y rhai hyny oll (a pha mor anferth y nifer!) ag y mae ein hiaith yn gwbl anadnabyddus iddynt, nid yw braidd yn alluadwy iddynt lunio unrhyw amgyffred cywir am y nodau hyny, y rhai ni fedda un iaith ddiweddar mewn unrhyw radd sylweddol. Y mae i'w ofni, gan hyny, y lleinw rhagfarn yn gyffredinol, gan y rhai hyny, le hysbysiaeth, ac felly rhwystra hwynt rhag chwilio yr egwyddorion hyny, am ba rai nis gallasant yn flaenorol ffurfio unrhyw dyb gywir. Gyda'r golwg hwn, yn y cynyg canlynol i eglurhau, mewn ffordd o ddadglymiad, nodwedd elfyddol y Gymraeg, cymerir gofal i beidio rhoddi ergyd rhy ffyrnig i'r rhagfarnau y soniwyd am danynt uchod. Eto, ar yr un amser, detholir nifer digonol o anghreiffitiau i gyfiawnhau, fel y gobeithir, y golwg cyffredinol hwnw ar ein hiaith gynhenid, pa un a gymerwyd yn y Bennod flaenorol mewn perthynas i'w hegwyddorion elfyddol.

Y mae hyd yn nod y llafariaid eu hunain, fel y sylwyd eisoes, yn meddu, yn y Gymraeg, arwyddocad sicr a phenodol, yr hwn a arddangosant nid yn unig yn eu nodwedd unigol ac annibynol, eithr a gadwant hefyd, i radd mwy neu lai, pan yn gysylltiedig â seiniau ereill, naill ai fel blaendodiaid neu olddodiaid. Felly *a* a arwydda, ar wahan, gweithred, ymmod, neu barhausder; a pha swyddau bynag a gyflawna hi mewn ymadrodd, ar ei phen ei hun

neu yn ei chysylltiadau mwyaf syml, cawsant eu dechreuad yn y meddylddrych gwreiddiol hwn. Oblegyd hyn defnyddir hi i osod yr amrywiol eirynau hyny allan, pa un bynag ai cysylltiadau, arddodiadau, neu ragenwau, y rhai a ddynodant gynddrychioldeb neu gydfynediad gwrth-ddrych; ac y mae yn cael ei harfer yn fynych hefyd fel blaenddod mwyhaol. Yn ol yr un egwyddor y mae yn arwyddocau y parwyddiad *myned* yn un o'i amserau, megys *e â*; ac yn hwn hefyd y mae ei hystyr neillduedig yn cael ei gadw yn groyw-egllur. Mewn llawer o anghreiffiau ereill, y rhai nis gellir eu manwl-nodi yma yn gyfleus, y mae yn cadw yr un meddylddrych o ymmod neu weithred. A gellir sylwi, yr ymddengys fod ystyr cyffelyb yn perthyn i'r llythyren hon yn y Grywaeg, megys yn y geiriau *a—ei*, yn wastadol, yn barhaus; *a—ô*, anadlu allan; ac mewn amrywiol o eiriau ereill a arwyddocant weithred neu barhausder, lle y gellir gwahaniaethu gweithrediad goruch-reolawl y llythyren *a* yn eglur. Gellir sylwi hefyd fod *a*, yn y Gymraeg, yn weithredydd cyffredin ymholiad, megys yn yr anghreiffiau canlynol:—*a ei di? pwy a aeth yno? a wyt ti yma? A*, yn gysylltiedig âg *i*, a arferir hefyd fel holiedydd gwahaniaethol; megys, *ai ti a welais?*

Yr holl lafariaid ereill arferedig yn y Gymraeg, sef *e, i, o, u, w, y*, a ellir eu heglurhau yn gyffelyb. Er anghraifft, *e* ac *o* a ddygant berthynas â'r amser gorphenol, ac *i* â'r dyfodol; tra y mae y tair weddilledig naill ai yn darddedigion neu dreigliadau oddiwrth y rhai blaenorol; y ddwy olaf oddiwrth *o*, â'r hon y maent yn cyfateb mewn ystyr, gan ddynodi ymmod gorphenol, neu bellenic o ran amser. *W, o*, ac *y*, ydynt hefyd nodau gwahaniaethol y tair cenedl, sef yr wrywiol, y fenywol, a'r ganolig. Er eglurhau yr hyn sy newydd ei ddywedyd mewn perthynas i effaith

neillduol y llafariad *w* i osod allan yr hyn a aeth heibio, gellir dwyn y ddwy anghraifft ganlynol yn mlaen:—*Gwedd* a arwydda trefn neu gyd-ieuad; *gweddw*, un wedi myned heibio i'r cyflwr o gyd-ieuad, neu yn ddifuddiedig o'i gymhares. *Gwel* yw golwg; *gwelw*, cyflwr tu hwnt i wel-edigaeth, neu lesni. Y mae llawys o eiriau ereill, yn mharai y medd *w*, drwy gael ei harfer megys olddodiad, effaith cyffelyb ar y synwyr. Y tair llythyren *e*, *i*, ac *o*, a ddefnyddir hefyd fel rhagenwau, ac a gyflawnant rai swyddau gwahanredol ereill. *I* sydd arwydd o'r modd annherfynol, ac *o* a esyd yr arddodiaid hyny allan, y rhai a ddynodant dueddiad i ddeilliaw oddiwrth neu allan o ryw wrthddrych. Y sy fannod yn cyfateb i *the* yn y Seisonaeg. Ychydig o anghreiffiau, y rhai a roddir cyn diweddu, a amlygant yn fwy eglur y swyddau pwysfawr a gyflawnir gan y llafariad yn y Gymraeg. A dichon mai nid amhriodol yw ailddywedyd yma, fod eu gwahaniaethiad rhyfeddol o amser, gweithred, neu sefyllfa, yn treiddio drwy eu holl gysylltiadau â seiniau gwreiddiol ereill. Ac er y geill y gynneddf hon fod megys yn rhy anamlwg i amgyffred cyffredin yn y geiriau mwyaf amrywiedig, eto canfyddir hi yn eglur yn undeb digymysg dau neu dri o groyw-barabliadau cysefin. Fel hyn, i roddi anghraifft, allan o lawer, o'r hyn a feddylir yma:—*a*, fel y sylwyd eisoes, sydd yn dynodi, ar wahan, gweithred neu barhausder; *ta*, un o'i chydymgysylltiadau mwyaf syml, y gynneddf o ymehangu; a *tân*, cyfansoddedig o *ta* ac *an*, ydyw y gweithredydd ymehangol mwyaf grymus yn holl anian. Y cyfryw ydyw yr egwyddor—a gellir ei hestyn drwy amrywiol gydymgysylltiadau—ar ba un y mae y Gymraeg wedi ei hadeiladu yn gyffredinol. A gellir, hwyrach, penderfynu yn ddiogel, mai hwn hefyd oedd y dull yn mha un y cymhwysodd

dyn ar y cyntaf y seiniau gwreiddiol, â pha rai y cynnysg-aethasai natur ef, at gynydd graddol ei amgyffredion.

Geill yr hyn sy newydd ei draddodi mewn perthynas i ystyr neillduol y llafariaid yn y Gymraeg, fel yn fynegol o amgyffredion syml, ymddangos i lawer, am y rhesymau a ddodwyd i lawr eisoes, yn ddychymygol ac anfoddlonol. Eithr dywedwyd digon, gobeithir, i ddwyn argyhoeddiad cyffredinol, fod y briodoledd a arddelwir fel hyn i iaith Cymru, yn anadnabyddus, i'r un gradd, i bawb ereill o fewn Ewropa. Yn y rhai olaf hyn, yn ddianmheuol, y mae gan y llafariaid ranau pwysig i'w cyflawni; eithr nid ydynt yn cadw, mewn neb o honynt, y nodwedd gwahanredol a neillduol hwnw mor amlwg, pa un a feddiannant yn y Gymraeg, a'r hwn a raid fod yn dra nodadwy yn ymadrodd dechreuol dynolryw. Eto, am fod y seiniau llafarog hyn yn ffurfio elfyddau mwyaf naturiol, ac o ganlyniad, mwyaf manwaidd y parabliad dynol, nis gallwn ryfeddu wrth gael iddynt fod yn fwy agored nag ereill i lygredigaethau newyddol amser. Felly yr ydym yn canfod, fel y sylwyd eisoes, y mae wedi dygwydd i iaith y Cymry, er fod yr hyn a geidw hi eto o'u swyddau gwreiddiol hwy yn dwyn tystiolaeth helaeth i hynafiaeth ei hadeiladaeth.

Oddiwrth lafariaid, y traws-symudiad mwyaf naturiol sydd at eu cydymgysylltiadau mwyaf syml hwynt, naill ai fel deuseiniaid neu pan fyddant wedi eu cyfuno â chydsain. A'r rhai hyn a ffurfiant y pentwr mawr o'r croyw-barabliadau gwreiddiol hyny y cymerwyd golwg cyffredinol arnynt yn y Bennod flaenorol. Y seiniau hyn a berthynant, yn ddianmheuol, mewn mesur mwy neu lai, i'r holl ieithoedd diweddar; eithr yn y Gymraeg yn unig, neu o leiaf yn y cangen-ieithoedd hyny a elwir yn Geltaidd, yr ymddengys eu bod, mewn unrhyw radd helaeth, wedi cadw

eu cynneddfau gwreiddiol.\* Fel hyn y cyfryw gyfansoddiadau syml ag *aw, bu, cu, el, en, ew, hi, ia, pi, ty, wy, yd, yw*, ydynt, yn y rhan fwyaf o ieithoedd, yn gwbl ddiystyr, tra y mae iddynt, yn y Gymraeg, nid yn unig feddwl penodol pan eu harferir ar wahan, eithr hefyd cadwant ef, gan mwyaf, yn y lluaws mawr o eiriau â pha rai y cysylltir hwynt. Er anghraifft, *aw*, yr hwn, ar wahan, sydd yn dynodi peth yn meddu ysgogiad neu ffrydiolrwydd, yw hefyd y gair am ddwfr, prif gynnrychiolydd y cyfryw egwyddor: ac oblegyd hyn arferir ef yn nghyfansoddiad amrywiol eiriau, y rhai ydynt fynegol o'r cyffelyb gynneddf, naill ai yn naturiol neu foesol; megys, *awdl*, ffrydiad y dychymyg, neu gerdd dannau; *awel*, chwa neu ffrwd o awyr; *awen*, dawn barddonol; *awon*, ffrydiau dyfroedd; *awyr*, y corff hylif a amgylchyna y ddaiar; *alaw*, cerdd offerynol; *anaw*, cerdd dafod; *cawad*, gwlaw; a *iawd*, tymmor, pryd. Gellir crybwyll hefyd mai *awg* oedd terfyniad cyntefig a phriodol ansoddeiriau a ddynodent helaethrwydd o unrhyw gynneddf neillduol. Yn ol yr un egwyddor ddigyfnawid, *ia*, yr hwn, yn ei ystyr neillduol, a arwydda unrhyw beth anhyddal, neu dueddol i lithro, ydyw hefyd y gair am rew. *Iach*, wrth yr un rheol, ydyw cyff a gwelygordd; *iad*, tu blaen

---

\* Yn ol y Glorian Gymhariaethol dra hynod a wnaed gan GWILYM OWAIN PUGHE, LL.D., er gweled cyfartalwch y seiniau gwreiddiol a geir mewn ieithoedd hen a diweddar, ni cheidw y Seisonaeg ond 38, yr Ellmynaeg ond 31, a'r Ffrancaeg ond 39 o honynt. Y Lladinaeg a gyfrifa efe yn 45, yr Hebraeg yn 65, y Bersiaeg, yn 122, a'r Arabaeg yn 148. Y Gymraeg, fel y dodwyd i lawr o'r blaen, a gyfrifa efe yn 213. Eithr, mewn perthynas i'r Hebraeg, ni ddylid anghofio fod ei gweddillion anmherffaith yn rhwystr i gael golwg boddhaol ar ei nodwedd elfyddol. O'r 65 elfyddau ag ydynt gadwedig fyth ynddi, y mae oddeutu 30 yn gyfunrhyw, o ran swyddau ac arwyddocad, â'r un nifer yn y Gymraeg. Y mae gan yr Arabaeg 63, a'r Bersiaeg 61, yn cyduno yn yr un dull.

y pen; *iaen*, caenen o rew; *ial*, amlwg, anghaeaf, a hardd-deg. Felly *wy*, ar wahan, sydd yn arwyddo cynyrch, ac yw hefyd yr enw cyffredin ar y sylwedd a ffurfir yn y fenyw o rai rhywiau o greaduriaid. Oddiyma lluwaws o eiriau, yn cynwys y meddwl cyffredinol hwn, a ddygant y sain yma i'w cyfansoddiad, fel y gellir gweled yn *wyl*; *wyr*; *gwy*, ffrwd; *gwydd*, coed ieuainc, neu brysgenau; a *rhwy*, gormodedd.

Oddiwrth y sylwadau blaenorol gwelir fod perthynas agos rhwng seiniau a meddylddrychau. *B*, a seinir drwy agor y gwefusau mewn dull naturiol ac esmwyth; felly ei harwyddocad yw gwrthddrych yn hanfodi mewn cyflwr llonydd. *C*, a seinir drwy osod gwraidd y tafod yn erbyn gwraidd y gorcharfan, ac amgau rhanau tufewnol y genau, gan anadlu yn rymus; felly y meddylddrych cynwysedig ynddi yw cadw, dal, neu gynwys. *D*, a seinir drwy gysylltu minion y tafod a'r gorcharfan, yna ysgaru yr undeb geneuol hwn, gan dywallt yr anadl allan yn wasgaredig; felly ei harwyddocad yw ymled-daeniad, ymehangiad. Bernir fod hyn yn ddigon er anghraifft am y llythyrenau neu y gwreiddiau unigol; awn rhagom eto i sylwi ar y gwreiddiau cyfansawdd, y rhai sydd, medd rhai, yn 193 o nifer. Y gwreiddyn cyntaf yw *ab*. Dywedwyd fod *a* yn dynodi mynediad yn mlaen, gogwyddiad parhaol, neu weithred fywiog; a *b* yn arwyddo hanfodiad unrhyw beth mewn cyflwr llonydd: felly *ab* sydd yn dynodi gogwyddiad at fod, achos hanfodiad, &c. Yn awr pan arferir y gwreiddair hwn i arwyddo unrhyw wrthddrych, rhaid fod rhywbeth ynddo yn addas i'w ddarlunio drwy ystyr y gwreiddyn, onidê bydd yr enw yn anghymhwys: felly defnyddiodd ein hynafiaid ef mewn achau; megys, Dafydd *ab* Gwilym. Y gwreiddair nesaf yw *ach*, cyfansoddedig o *a* a *c*; eithr

er mwyn pereiddsain newidir yr *c* i *ch*. Dywedwyd fod *c* yn arwyddo dal, cynwys, cadw : felly ystyr *ach* yw tueddiad i ddal, cadw, cynwys ; megys, *achub*. Hefyd, oddiwrth raglywyddiad yr *a*, arwydda beth a thuedd ynddo i fyned yn mlaen ; megys, *ach*, perthynas. Y gwreiddair diweddaf a nodwn yw *add*, cyfansoddedig o *a* a *d* ; oblegyd newidir *d* i *dd* yn nghyfansoddiad geiriau. *D*, fel y dywedwyd, a gynwys y meddylddrych o ymled-daeniad, &c. : felly *ad*, neu *add*, a arwydda duedd at ymranu ; *adwy*, tarddedig o *ad*, yw ymraniad mewn gwrych.

Nid oes modd, o fewn y terfynau i ba rai y cyfyngwyd y Bennod hon, i nodi yr holl anghreiffitiau a ellid eu dwyn yn mlaen o'r gynneddf dra nodedig hon yn y Gymraeg. Gall y nodiadau a wnaed eisoes fod yn wasanaethgar i ddangos y rheol gyffredinol ; digon yw sylwi yn awr fod y gynneddf neillduol hon yn ffurfio sylfaen y trefniant hwnw, ar ba un yr adeiladwyd y Gymraeg. Y mae cyfansoddiad ei helfyddau, mewn cynifer o wahanol ffyrdd, ac i'r fath helaethder diderfyn, yn ffynnonellau anhysbyddadwy o rym, meithder, ac ystwythdra barddonol. Oddiyma hefyd y tardd y sierwydd sydd yn canlyn ymchwiliadau cyfiachyddol yn yr iaith hon yn fwy nag un arall. Gwybodaeth fanol o egwyddorion ei ffurfiad a'n galluoga i olrhain ei hamrywiol gyfatebiadau, ac i ganfod ei meddyliau mwyaf dirgelaid. Felly y gair *awen* sydd yn arwyddocau, yn llythyrenol, sylwedd ffrydiol, fel y dengys ei ddau elfydd ; a'r gair *enaid*, wrth yr un rheol, sydd yn meddwl hanfod bywyd. Ac nid hawdd fyddai cael geiriau a ddarluniant eu cynneddfau hwynt yn fwy athroniaethol. Yn wir, i'r egwyddor hon, o natur mor syml, y rhaid priodoli hynodrwydd yr iaith am ei chywirdeb athroniaethol yn hytrach nag am unrhyw cofnder o eiddo ei hymadroddion traws-symudol.



Cawn gynyg yn awr ryw gymaint o eglurhad ar y swyddau a gyflawnir gan y seiniau gwreiddiol, megys yr addawyd yn y rhan gyntaf o'r sylwadau hyn. Yn y Bennod flaenorol ar y pwnc hwn, dywedwyd fod yn agos i wyth deg o seiniau cysefin, yn y Gymraeg, yn meddu ystyr neillduol a phenodol, heblaw eu meddwl gwahanedig pan eu defnyddir mewn cyfansoddiad. Yr ychydig anghreiffitiau canlynol a eglurant y nodiad hwnw, yn gystal a'r rhai a gynygwyd yn y Bennod hon, a gallant hefyd weini i roddi amgyffred lled eglur o symledd gwreiddiol yr iaith i'r hon y perthynant:—

*E a o ei le.—A ei di i'r ty?—I ba le yr ei di?—Af i do y ty.—Ai da i ti a fo da i mi?—Ti a ei er dy lw.—Cuw hi i mi ac i ti.*

Addefir fod y seiniau blaenorol yn rhai o'r symlaf ag a all y llais dynol eu traethu; ac y maent, fel y profa yr anghreiffitiau hyn, o ddefnydd beunyddiol yn y Gymraeg, yn yr hon yn unig, hwyrach, y mae y gyfran fwyaf o honynt yn cael eu priodoli fel hyn at unrhyw feddylddrych neillduol. Y frawddeg ganlynol o COLL GWYNFA, a bigwyd bron ar antur, a rydd eglurhad pellach fyth am fynych ddygwyddiad y cyfryw arwyddluniau elfyddol a'r rhai blaenorol, mewn cyflwr unigol:—

“ Pa waeth pa le, os yr  
Un fath wyf fi, ac iawn fy mod, ac oll  
Ond llai nag ef taranau á wnaent mwy? ”\*

Yn y llinellau uchod nid oes ond deuddeg a phedwar o eiriau, ac y mae hanner y rhai hyn yn seiniau gwreiddiol yn unig, a'r rhelyw oll, bron, yn gynnwysedig o'r cyfansoddiadau mwyaf digymysg a naturiol. Gellid dethol

---

\* Yr ymadrodd cyfatebol yn y Seisonaeg a welir yn *Paradise Lost*, B. i., l. 258.

anghreiffiau dirif o COLL GWYNFA i amlygu y briodoledd neillduol hon yn y Gymraeg.

Oddiwrth yr hyn a gynygwyd i sylw yn awr, pa mor anghyfartal bynag ydyw i natur bwysfawr y pwnc, bydd yn eglur i'r darllenydd cywraint a dysgedig fod llawer o ddefnydd yn mheiriannwaith y Gymraeg iddo i weithredu arno. Y mae y pethau hynod ac anarferol a amlygir yn ei hadeiladaeth, ac yn enwedig yn y sylfaen ar ba un y gorphwys yn hanfodol, yn ddigon i sefydlu ystyriaeth, ac i annog ymchwil y cyfiachydd. Trwy brofi y nodweddau hyn yn ddiduedd, arweinid ef i addef eu bod yn ffurfio rhan dra neillduol ac eglur o hen iaith Cymru, ac nad oes un iaith Ewropaidd arall, heb fod yn hanu o'r teulu Celt-aidd, yn eu dangos mewn un gradd ganfyddadwy. Ac os byddai efe hefyd gyfunfarn âg ysgrifenydd y sylwadau hyn, fod yr elfyddau pur, am ba rai y traethwyd, yn perthyn i ymadrodd gwreiddiol y byd, efe a ganiatai i iaith y Cymry, fel casgliad naturiol, y purdeb a'r hynafiaeth hyny, am ba rai y dadleuai ei phleidwyr bob amser.

---

## PENNOD VII.

*Am Orair.—Ei Swydd a'i Rywiau.*

Gorair sy ran ymadrodd a elwir felly am ei fod yn *goru*, neu yn dangos rhagoriaeth pob ansawdd, dull, cyflwr, lle, a sefyllfa, a berthyno i weithrediad parwyddiaid.

Cysylltir ef weithiau â pharwyddiad; megys, darllennodd *yn dda*: gydag enw cadarn; megys, y nefoedd *uchod*, y mynyddoedd *draw*: a chyda gorair arall; megys, *nid du gormod* o ddim.

Gellir adnabod gorair, yn gyffredin, drwy ei waith yn ateb i'r holiadau, *pa faint?* *pa fodd?* *pa le?* neu *pa*

*bryd?* megys yn yr ymadrodd, Yn awr yw dydd yr iachawdwriaeth : yr ateb i'r holiad *pa bryd?* yw, *yn awr*.

Mae amryw eiriau cysefin, y rhai, oherwydd ansawdd eu hystyr, a weinyddant yn swydd gorair ; a gellir eu gosod yn ddwy blaid, sef goreiriau ansoddol a darluniadol.

Y goreiriau ansoddol ydynt o swydd gyffredinol i gyfagweddu â phob ansawdd damweiniol, neu enw gwan, mewn pa gyflwr bynag y byddo angenrheidiol ; ac ydynt y rhai canlynol :—*Can, go, iawn, mor, na, ni, pur, rhy, yn*. Y rhai hyn a ragflaenent pa eiriau bynag y cyfagweddont â hwy, oddieithr *iawn*, yr hwn, y rhan amlaf, a ganlyn ar eu hol.

Y rhai darluniadol ydynt fath o oreiriau a weddant yn gynorthwyon i ddylunio ymadrodd, heb ddangos ynddynt eu hunain un ystyr amlwg, chwaithach i hyweddu y sain ; ac ydynt y rhai canlynol :—*A, ai, ar, as, ef, efe, fe, o, y, yd, ydd, yr, ys*.

Yn mblith y goreiriau cysefin, a soniwyd uchod am danynt, y cyweithydd mwyaf cyffredin yw *yn*, yr hwn a eill ragflaenu pob ansawdd damweiniol, ac enwau cedyrn, gan eu dwyn i berthynas arbenig oddiwrth y cyffredin.

Ond y mae ansawdd goreiriol yn disgyn ar lawer o eiriau drwy adael heibio eiriau ereill, o gadw pa rai y byddai yr ymadrodd yn hir ac anghryno ; ac y mae y goreiriau hyn o amryw nodweddiadau, yn perthynu i brif ymmodiadau y meddwl ; a dangosir eu hamrywiaethau yn ganlynol :—

#### 1. *Goreiriau Amser.*

Y rhai hyn hefyd ydynt eiriau cysefin a chyfansoddedig ; sef, naill ai enwau, arddodiadau, neu gysylltiadau.

O amser cynddrychiol ; megys, *eisoes, eleni, heddyw, weithion, yn awr, yn barod, y pryd hwn, y tro yma, &c.*

O amser gorphenol ; megys, *cyn, cynt, doe, echdoe, erioed, erllynedd, ermoed, er ys enyd, er ys talm, gwrthdrudwy, o'r blaen, &c.*

O amser dyfodol ; megys, *ar fyr, eto, gwedi hyn, heno, o hyn allan, rhagllaw, toc, yn fuan, y fory, trenydd, tradwy, &c.*

O amser annherfynol ; megys, *ambell waith, ar dro, bellach, bob amser, byth, drachefn, hyd, llawer tro, nes, oestadol, o'r diwedd, pan, peunydd, pryd, tra, yn foreu, yn fynych, yn hwyr, &c.*

## 2. Goreiriau Cyflead.

Mae y rhai hyn o eiriau cysefin a chyfansawdd, a llawer o bob un ; megys, *acw, adref, allan, blaen, bry, draw, hwnt, i faes, i fewn, i fyny, isod, i waered, llyma, llyna, man, mewn, obry, ol, pell, rhywle, tuag, uchod, unlle, yma, yman, yna, &c.*

*Yma, neu yman, fel pe bai, y man ; megys,*

*Yman ddyd i'r man ydd wyf.—D. AB GWILYM.*

*Acw, ac hefyd arferynt y Beirdd racw ; megys,*

*Hwyl racw 'm mrwydr hil Ricard.—IOLLO.*

*Uchod, isod, yngod, a fwriant y d ymaith weithiau ; megys,*

*Och i'r Sais ucho,*

*O'i caer nis caro.—LLEWELYN GLYN COTHI, 1450.*

*Mae ynngo gledd yn mwng gwlad.—SION CERI, 1520.*

*Eto, a chan yr hynafiaid etwa ; megys,*

*Cyn bod etwa, ewyllys da, dial eisiau.*

*BLEDDYN FARDD.*

*Hefyd, etwaeth ; megys,*

*Och Dduw ni ddaw ef etwaeth,*

*I estwng treiswyr treisuriaeth.—ELIDYR SAIS.*

### 3. *Goreiriau Rhif a Threfn.*

Rhifiad penodol a droir i gyflwr goreiriol drwy ddodi *gwaith* yn derfyniad iddo; megys, *unwaith, dwywaith, dengwaith, kannwaith, &c.* Eto er hyny enwau cedyrn yn arbenig ydynt y fath eiriau, ond fod ymmodiad y meddwl yn bwrw swydd gorair arnynt, drwy gwtogi yr ymadrodd.

Gellir llunio goreiriau rhif hefyd drwy roddi *tro*, neu *plyg*, i derfynu y rhifiad a fynir, ond fod *yn* i ragflaenu; megys, *yn untro, yn ddeutro; yn ddeublyg, yn driphlyg, yn gannplyg, &c.*

Mae goreiriau hefyd i arwyddo trefn, neu restriad; megys, *yn gyntaf, yn ail, yn drydydd, yn ddiweddaf, yn flaenaf, yn olaf*: neu ganlyniad rhifion o ansawdd damweiniol, ac i lunio y cyfryw dodir *med* i derfynu y rhif arbenig; megys, *unfed, seithfed, cannfed*; hefyd, *unfed waith, seithfed waith, a channfed waith.*

### 4. *Goreiriau Cymhariad.*

Y rhai hyn, agos i gyd, ydynt ansoddau damweiniol, yn cyflawni swydd gorair; megys, *ail, amgen, chwaithach, da, drwg, fal, fel, felly, gwell, llai, llawn, mal, megys, mor, mwy, mwyach, tebyg, unrhyw, &c.*

### 5. *Goreiriau Dognedd.*

Ansoddau damweiniol eto ydynt y rhai hyn, yn cymeryd nodweddiad goreiriau; megys, *achlan, agos, aml, bach, braidd, cymaint, digon, gormodd, llawer, lleilai, mawr, mwyfwy, peth, prin, pynag, rhy, swrn, ychydig, &c.*

### 6. *Goreiriau Anmheud.*

Cyfansoddedigion ydynt y rhai hyn, sef ansawdd damweiniol, neu barwyddiad yn nghydag arddodiad; megys,

*agatfydd, fe allai, hwyrach, odid, o ddamwain, ond odid, ysgatfydd, &c.*

#### 7. *Goreiriau Sicrhad.*

Y goreiriau sicrhaol cyffredin a ddodir isod; ond nid oes yn ein hiaith ni un yn rhoddi ateb honiannol, yn gweddu i bob gofyniad, fel yn rhai ieithoedd ereill; ond yn lle hyny, pob ateb sydd yn amrywio yn ol yr amrywia y gofyniad, gan gadw rhan o hono yn yr ateb; yr honiannau arferol ydynt, *ceugant, dianmheu, diau, do, e, fe, gwir, iawn, ie, myn, nid amgen, oedd, oes, purion, sef, ydyw, yw, &c.*

#### 8. *Goreiriau Nacâd.*

Arwyddion gwreiddiol nacâd ydynt *ni* a *na*; y cyntaf sy nacâd uniongyrch, a chan hyny a arferir gyda pharwyddiaid yn y modd mynegol. Y gorair arall, yn gyffredin, a arwydda ammod, neu ryw ganlyniad; ac yna y mae yn nacâd gyda pharwyddiaid ammodol, eiddunedigol, a galluedigol. Dyma hwy yn canlyn:—*dim, mo, na, nad, nag, nage, nag oes, nas, ni, nid, nid oedd, nid oes, nid yw, nis, &c.*

#### 9. *Goreiriau Holiad.*

Y rhai hyn, gan mwyaf, ydynt gyfansawdd; naill ai rhagenw yn nghydag enw, ai dau orair cysefin yn nghyd; megys, *a, ai, ai é, ai ie, atolwg, a yw, beth, ertolwg, mae, neud, neur, neus, ond, oni, onid, onis, pa, pa beth, pa fodd, pahan, pa le, pa sut, pa wedd, pond, ponid, ponis, py, &c.*

#### 10. *Goreiriau Ebychiad.*

Yr ebychiadau ydynt fath o eiriau a gymerant y cyfryw ansawdd, er nad ydynt, agos i gyd, ond parwyddiaid yn y modd annherfynol, ac, yn fynychaf, yn yr ail ddynweddiad.

Gallant, gan hyny, fod yn lluosog iawn ; ond y mwyaf cyffredinol ydynt y rhai canlynol :—*aro, dacw, dyma, dyn, dyn byw, ffw, gwae, gwyn ei fyd, hwt, llyma, llyna, nycha, och, O yr anwyl, O yr unig, truan, truan bach, twt, ust, wb, ysywaeth, &c.*

Dealler fod amryw o'r goreiriau crybwyllledig yn gysylltiedig âg arddodiaid ; megys, *i faes, i fewn, i fyny, i waered, &c.* : amryw o honynt yn enwau gweinion ; megys, *da, drwg, isel, uchel, &c.* : rhai yn enwau cedyrn ; megys, *doe, heddyw, y fory, &c.*, pa rai a arferir weithiau yn oroiriau, ac weithiau yn rhyw ran arall o ymadrodd, ac nid all ond y synwyr yn unig eu gwahaniaethu, fel y gwelir wrth yr anghreiffitiau canlynol :—Y *ffol* tra tawo a gyfrifir yn ddoeth. Dyn *ffol* a ddiystyra addysg. Gwnaethost yr awr hon yn *ffol*. Yn y cyntaf y mae y gair *ffol* yn llanw lle enw cadarn, oherwydd ei fod yn dangos synwyr ynddo ei hun ; yn yr ail y mae y gair *ffol* yn enw gwan, oherwydd ei fod yn dangos ansawdd yr enw cadarn *dyn* ; yn y trydydd y mae y gair *ffol* yn orair, oherwydd ei fod yn dangos dull y weithred, ac yn ateb i'r holiad pa fodd ; megys, pa fodd y gwnaeth ? yr ateb yw, *yn ffol*.

---

## PENNOD VIII.

*Am Fannod.—Ei Ansawdd a'i Swydd.*

Bannod sy ran ymadrodd o ansawdd dangosiadol, neu gyfeiriadol ; hyny yw, ei swydd ydyw dangos rhagor, neu i wahaniaethu rhwng enw dosparthiadol, mewn amryw ddull o gystraweniad, ac un arall sydd annosparthiadol, yr hwn sy bob amser heb y bannod.

Dau fannod sydd yn y Gymraeg oherwydd sain, ond a wasanaethant i'r un ystyr, sef *y* ac *yr* ; ac a elwir bannod-

au terfynol, megys yr amlygir wrth yr anghraifft ganlynol:—Dyn sy debyg i wagedd. Yma, *dyn*, gan ei fod heb fannod o'i flaen, sydd annherfynol, ac wrtho y meddylir holl ddynolryw yn gyffredinol. Ond pan ddywedir, Gwae *y* dyn hwnw; yma, gyda bannod yn flaenorol, penodir rhyw *ddyn* yn wahanol oddiwrth ereill.

Y bannodau *y* ac *yr* ydynt o'r un defnydd ac arwyddocad; yr unig wahaniaeth rhyngddynt yw, yr arferir y cyntaf i ragflaenu geiriau yn dechreu â chydseiniaid; megys, *y byd*, *y neb*, *y sawl*: ac yn fynych o flaen *i* ac *w*; megys, *y iaith*, *y wlad*. A'r llall a osodir o flaen geiriau y byddo llafariad yn eu dechreu; megys, *yr Arglwydd*, *yr enaid*: ac hefyd y gydsain *h*; megys, *yr Hollalluog*.

---

## PENNOD IX.

### *Am Gysylltiad.—Ei Ansawdd a'i Swydd.*

Cysylltiad sy ran o'r iaith, yn ol ei enw, a ddodir rhwng rhanau ymadrodd, neu ymadroddion cyfain, er eu cysylltu yn nghyd, a dangos eu hamrywiol berthynasau. Rhwng rhanau ymadrodd; megys, Gwr *a* gwraig; bywyd *ac* ang-eu: rhwng ymadroddion cyfain; megys, Coffadwriaeth y cyfiawn sy fendigedig; *ond* enw y drygionus a bydra. Yma, *a*, *ac*, *ond*, ydynt gysylltiaid.

Y perthynasau hyn a drefnir yn ddwy ran arbenig; sef, y cynglynol a'r gwahaniadol, a phob un o honynt hefyd a ymranant yn ol eu hamryw swyddau; hyny yw, i gyfuno, parhau, a chynull y synwrau, yn ol eu cydrediad anianol; neu ynte, er y cysylltant ranau yr ymadrodd, i wahanu, gwrthymchwelyd, neu wrthwynebu, rhwng y naill synwyr a synwyr arall yn gofyn y fath wahaniaeth o barth ystyr, er yr ymgysyllta o barth ymadrodd.



Y cynglynolion a allant gydio, yn gystal a pharhau eu perthynasau.

Y rhai cydiadol a gysylltant, neu a glymant yr ymadroddion yn nghyd, er y gallant fod yn annghyfaddas o barth synwyr.

Y rhai penaf o'r cysylltiadau cydiadol ydynt y rhai canlynol:—

A	Canys	Gan	Mal	Od	Pei	Wrth hyn
Ac	Drachefn	Hefyd	Megys	Os	Pes	Yna
Achos	Eilchwyl	Herwydd	Mor	Pe	Plegyd	Yno
Am	Eto	Mai	O	Ped	Wrth	Ynte

Y gwahaniadolion ydynt y sawl a gydiant ddywediadau, ond a ddangosant wahanïaeth yn eu hystyr; ac y maent o ddau ryw, sef y cyfunion a'r gwrthymchweligion.

Y rhai cyfunion a wahanant yn unig, ydynt y rhai hyn, *ai, chwaith, naill, neu, no, nog, pa un.*

Y gwrthymchweligion a wahanant, yn nghyda dangos gwrthwynebiad; ac y mae dau ryw o honynt, ac hefyd yn ymranu yn ddwy gainc; sef, yr annibynol a'r cymhariadol, y dichonol a'r annichonol.

Yr annibynolion ydynt y canlynol:—*ēithr, namyn, oddi-ēithr, oddigerth, ond.*

Y cymhariadolion ydynt y canlynol:—*no, nog.*

Y dichonolion ydynt y canlynol:—*oni, onid, onis.*

Yr annichonolion ydynt y canlynol:—*cyd byddo, eisoes, er, er hyny.*

Cysylltiadau o amryfeilion drefnau a ellir eu doddi yn nghyd, a'u helaethu, mewn llawer modd; megys,

Ac am hyny	Am hyny pe	Gan hyny os	Ond megys pe
Ac hefyd	Eithr oni	Oherwydd mai	Yna megys
Ac wrth hyny	Eto megys	Ond er hyny	Yna pe

Arferir weithiau amryw gysylltiadau yn nghyd, yn yr un ymadrodd, a hyny mewn gwahanol ranau iddo, ac fel

yn gwrthwynebu neu yn ateb eu gilydd ; megys, *Pe* lladdai efe fi, *eto* mi a obeithiaf ynddo ef. *Naill* ai gwnewch y pren yn dda, a'i ffrwyth yn dda ; *ai* gwnewch y pren yn ddrwg, a'i ffrwyth yn ddrwg.

---

PENNOD X.

*Am Arddodiad.—Ei Ansawdd a'i Swydd.*

Arddodiad a enwir fel hyn, gan yr arddodir, neu y gosodir, ef o flaen y rhan hono o ymadrodd y byddo yn cyfeirio ati.

Mewn perthynas i swydd arddodiad, math o offeryn yw yn null parwyddiad yn y trydydd dynweddiad unig ; ac y mae yn gweini i nodi neu i arwyddocau y cyflwr, neu y cyfeiriad a eill fod gan y naill ymadrodd at y llall, yn ol pob cyfymlyniad, ategiad, gwahaniad, gwrthwynebiad, neu bwys, a eill y meddwl ei lunio, o barth y gwrthddrych gweithredol. Gan hyny cyflawnant yr arddodiadau yr amryfeilion foddion a raid wrthynt i hyny, yn ol yr amrywiol ystyriaethau arbenig a berthynont iddynt eu hunain ; megys, Efe a aeth *mewn* brys ar neges o Gaerefrog i Gaerludd. Yma, *mewn*, *ar*, *o*, *i*, ydynt arddodiaid.

Arferir rhai arddodiaid weithiau wrthynt eu hunain ; megys, *a*, *am*, *ar*, *dros*, *i*, *o*, *wrth*, &c.: cysylltir rhai wrth enwau cedyrn ; megys, *an-llywodraeth* : wrth enw gwan ; megys, *af-lwyddiannus* : wrth ragenw ; megys, *am-danaf* : wrth barwyddiad ; megys, *am-gylchu* : wrth orair ; megys, *oddi-acw* : ac weithiau wrth arddodiad arail ; megys, *oddi-amgylch*.

Y mae tri rhyw o arddodiaid ; sef, y godidog, y cyfansawdd, a'r rhagenwol. Y rhai penaf o honynt sy fel y canlyn :—

1. *Arddodiaid Godidog.*

A	Cylch	Ger	Heibio	Mewn	Rhy	Ucho
Add	Cyn	Go	Hwnt	O	Tan	Uchod
Ag	Dy	Gor	Hyd	Odd	Tra	Uwch
Am	Er	Gwedi	I	Parth	Tros	Wrth
At	Erbyn	Gwrth	Is	Plaid	Trwy	Yn
Cyd	Gan	Heb	Maes	Rhag	Tu	Ys.

Y mae amryw o'r arddodiaid godidog yn flaenddol i eiriau ereill ; megys,

A,	athrist.	Cyn,	cynneddf.	Tra,	tramor.
Add,	addfwyn.	Dy,	dylaith.*	Tros,	trosodd.
Cyd,	cydfod.	Gwrth,	gwrtheb.	Yn,	ynfyd.

2. *Arddodiaid Cyfansawdd.*

Amgylch	Goruch	Oddi allan	O gylch	Trwodd
Cyda	Goruwch	Oddi amgylch	Rhag blaen	Tua
Cydag	Heblaw	Oddi ar	Rhag bron	Tuag
Cyferbyn	Islaw	Oddi arnodd	Rhag wyneb	Tuag at
Gerfydd	O ddeutu	Oddi fewn	Tanodd	Uwch law
Goris	Oddi	Oddi wrth	Trosodd	Yn nghyd.

Y rhai canlynol hefyd a arferir mewn cyfansoddiad :—

Ar hyd	I faes	O dan	Tu cefn	Uwch ben
Ar lawr	I fewn	O fewn	Tu draw	Uwch law
Ar led	I wrth	O flaen	Tu hwnt	Yn erbyn
Ar ol	O blaid	O herwydd	Tu ol	Yn mhlith
Ger bron	O blegyd	Parth a	Tu isaf	Yn mysg
Ger llaw	O blith	Tu blaen	Tu uchaf	Yn ymyl.

3. *Arddodiaid Rhagenwol.*

Yr arddodiaid rhagenwol a elwir felly, oherwydd cyfansoddi arddodiaid a rhagenwau dynweddiadol yn nghyd.

\* O flaen llafariad bwir yr *y* yn *dy* ymaith ; megys, *dethol*, o *dy* ac *ethol* ; *duno*, yn lle *dyuno* : oddiyma y tardd *cytuno*, yn lle *cytyuno*, fel yr arferid ei ysgrifenu gynt ; *dymchwelyd*, yn lle *dyymchwelyd* ; *daeth*, o *dy* ac *aeth*. Felly hefyd rhagddodir ef i or-eiriau ; megys, *dymu*, *dyna*, *dano*, *dobry*, *diso*, *ducho*, &c. Mewn rhai geiriau cyfnewidir *d* i *t* ; megys, *tywyll*, o *dy* a *gwyll* ; *tyred*, yn lle *dyred* ; *tywallt*, yn lle *dywallaw*. Hefyd yr arddodiad hwn a dry barwyddiaid canolig i rai gweithredol ; megys, *methu*, *dyfetha* ; *glynu*, *dylun*, &c.

A'r arddodiaid a ymgyfunant â rhagenwau fel hyn ydynt y rhai canlynol :—

Am	Can	Han	Hyd	O	Oddi tan	Rhwng	Trwy
Ar	Dar	Heb	I	Odd	Oddi wrth	Tan	Wrth
At	Er	Hon	Idd	Oddi ar	Rhag	Tros	Yn.

Y mae tri amrywiaeth treigliad i arddodiaid rhagenwol. At y cyntaf y perthyna y canlynol :—

Arnaf, Ataf, Darnaf, Oddi arnaf, O honaf, Oddi tanaf, Tanaf.

Eu treigliad sy fel hyn,

<i>Unig.</i>	Am danaf,	Am danat,	Am dano, am dani.
<i>Lluosog.</i>	Am danom,	Am danoch,	Am danynt.

At yr ail y perthyna y canlynol :—

Canof	Hanof	Hydof	Rhagof	Trwof
Eiddof	Hebof	Oddi ganof	Rhyngof	Wrthof
Erof	Honof	Oddi wrthof	Tros of	Ynof.

Eu treigliad sy fel hyn,

<i>Unig.</i>	Erddof,	Erddot,	Erddo, erddi.
<i>Lluosog.</i>	Erddom,	Erddoch,	Erddont.

At y trydydd y perthyna ddodi yr arddodiad *i* yn unig at y dynweddiadau ; fel y canlyn :—

Imi, iti, iddo. Ini, ichwi, iddynt.

Dealler y dygwydd i'r un geiriau fod yn oreiriau, yn gysylltiadau, ac yn arddodiadau ; ac nid ellir eu dosparthu yn gywir, ond drwy adnabod eu hystyr priodol yn ol defnydd a threfn yr ymadrodd.

## PENNOD XI.

*Am Gyfryngiad.—Ei Ansawdd a'i Swydd.*

Cyfryngiad sydd air a deflir i mewn rhwng rhanau o ymadrodd, i arwyddocau rhyw gyffroad, neu gynhyrriad, yn y meddwl ; megys, *Oh ! Och ! Ow !*

Y rhai penaf o'r cyfryngiadau a adnabyddir fel hyn,

Aro!	Gwynfyd!	Hwi!	O dyn!	Wb!
Bw!	Hai!	Hwnt!	Oia!	Wbwb!
Dyn!	Haiwchw!	Hwt!	Oio!	Wchw!
Dyn byw!	He!	Hys!	Ow!	Wela hai!
Dyt!	Ho!	O!	Siow!	Wfft!
Ffei!	Holo!	Och!	Truan!	Wi!
Ffwrdd!	How!	Och fi!	Twt!	Ymaith!
Gwae!	Huw!	Ocho!	Ust!	Ysywaeth!

Y mae amryw eiriau ereill a arferir oddiar ryw gynhyrfiad disymwth yn y meddwl, y rhai sy ry faith ac afreidiol eu ychwanegu. Y mae cyfryngiad bob amser yn gofyn rhyfeddeb; megys, *garw son! wchw! &c.*

Cynwysir yr wyth ran ymadrodd crybwylledig, gan EDEYRN DAFOD AUR,\* dan y ddau ben cyntefig, sef Enw a Parwyddiad; gan gyfleu enw gwan, rhagenw, a bannod, yn ddeilliedig o enw; a gorair, cysylltiad, arddodiad, a chyfryngiad, yn aelodau parwyddiad.

## RHAN IV.

### PENNOD I.—AM GYSTRAWEN.

Cystrawen sydd yn traethu am gydundeb a chysylltiad geiriau mewn ymadrodd, fel ag i ddangos yr ystyr yn y modd mwyaf eglur a dyladwy.

\* EDEYRN DAFOD AUR ydoedd awenydd goleubwyll, athrylithlawn, o Dir Iarll, yn Morganwg, yr hwn a flodeuodd yn nghanol y 13eg ganrif. Y mae Grammadeg tra chelfydd o'i gyfansoddiad yn gadwedig hyd y dydd heddyw, yr hwn a gyhoeddodd yn nghylch y flwyddyn 1270, dan nawdd ac awdurdod yr holl dywysogion a arglwyddiaethent y pryd hwnw ar Gymru. Nid ydynt hanesion yn hollol gytuno o barth helaethder Tir Iarll: rhai yn dywedyd nad ydoedd yn cynwys mwy na phlwyfau y Pil, Margam, Bettws, a Llangynwyd; ereill yn ychwanegu rhywfaint yn rhagor; ond y mae yn debyg fod y cynwysiad uchod yn lled agos i'r gwir. Enw cysefin yr ardal oedd, Y Maes Mawr.

Wrth ymadrodd y meddylir cydgasgliad o eiriau yn y fath fodd ag i ffurfio cyflawn synwyr.

Ymadrodd sydd o ddau fath ; sef, unigol a chyfansawdd.

Ymadrodd unigol a elwir felly am ei fod yn ddigymysg wrtho ei hun, ac heb achos attalnod ynddo, ac a ffurfir weithiau o un gair cyfansawdd ; megys, *Gweddiwn* : weithiau o fwy nag un gair, neu wrthddrych a pharwyddiad ; megys, *Na ladd. Byw fyddo y Brenin. Melus yw yr einioes.*

Ymadrodd cyfansawdd a gynwys ynddo ddau neu ragor o ymadroddion unigol, wedi eu cyfymlynu drwy gymhorth un neu ychwaneg o eiriau cysylltiadol ; megys,

Chwilia ef yr uchelion,  
A môr, a thir, am wyrth Ion.

Wrth droi yr ymadrodd hwn i'w ranau unigol, ceir ynddo dri ymadrodd ; fel hyn, Chwilia ef yr uchelion am wyrth Ion ; chwilia ef fôr am wyrth Ion ; chwilia ef dir am wyrth Ion.

Fel y mae ymadroddion yn ymranu yn ddau ryw, felly hefyd gellir neillduo y rhanau a gyfansoddant ymadrodd i ddau ryw ; sef, unigol a chyfansawdd : oblegyd dichon ymadroddion cyfain, drwy gymhorth cysylltiadau, weinyddu fel rhanau neillduol o un ymadrodd ; fel hyn, *Yr ych a edwyn ei feddiannydd, a'r asyn breseb ei berchenog ; ond Israel nid edwyn, fy mhobl ni ddeallant.* Yr ymadrodd hwn a gynwys ynddo ddau ymadrodd unigol, y rhai a elwir *dosparthiadau*.

Y mae cystrawen yn cynwys yn benaf ddwy ran ; sef, *Cydweddiad a Llywodraeth*.

Cydweddiad ydyw y cyfundeb sy rhwng y naill air a'r llall, pan ei gofynir ef yn yr un rhif, cenedl, a dynweddiad.

Llywodraeth ydyw yr awdurdod sy gan y naill ran o ymadrodd ar y llall, i reolaethu ei fodd, amser, a dynwedd.

Er peri cyfundeb ac iawn drefn geiriau mewn ymadrodd, dylai y rheolau a'r sylwadau canlynol gael eu chwilio yn ddyfal.

---

## PENNOD II.

### *Am Gystrawen Enw Cadarn.*

Amryw garennydd a pherthynasau y naill beth at y llall a ddangosir yn y tri modd hyn; yn gyntaf, drwy gyflead enwau cedyrn yn nghyd, yn unig; yn nesaf, drwy ychwanegu y bannodau dosparthiadol; ac yn olaf, drwy ychwanegu arddodiaid at y ddau ddull arall.

Amryw berthynasau enwau cedyrn mewn cystrawiad a gynwysir yn y rheolau canlynol:—

1. Enw cadarn annosparthiadol, neu yr hwn a saif yn unig, heb un gwrthddrych; megys, *sail, tŷ, maes, tref*, ac ereill.

2. Enw cadarn dosparthiadol yn dechreu â chydsain, a ragflaenir gan y bannod *y*, ac *yr* a ragflaena un yn dechreu â llafariad; megys, *y sail, y sail-faen, yr afon, yr afon hon*, &c.

3. Pan gyfleir dau enw cadarn yn nghyd, y naill yn briodol a'r llall yn alwedig, a'r naill i ddangos ystyr, ansawdd, neu sefyllfa y llall, gellir gosod yr enw priodol yn gyntaf, ac heb un bannod; megys, *Dafydd Frenin; Ioan Fedyddiwr*: ond os gosodir yr enw galwedig yn gyntaf, yna blaenorir ef â bannod; megys, *y brenin Dafydd*.

4. Pan fyddo dau enw galwedig yn nghyd, rhoddir weithiau arddodiad o flaen y diweddaf; megys, *gwr o*

*ddysg* : ac os priodol fydd y diweddaf, y blaenaf a ofyn fannod ; megys, *y bradwr Suddas* : neu, er mwy o hysbysrwydd, rhoddir yr enw galwedig weithiau gyda bannod yn ddiweddaf ; megys, *Asaph y Cofiadur*.

5. Pan gyfleir dau neu dri, neu ragor, o enwau cedyrn yn nghyd, a'r naill yn berchenogol o'r llall, y cyntaf sy dan feddiant yr ail, yr ail dan feddiant y trydydd, ac felly olynol ; megys, *sail tŷ, Salmau Dafydd, sail tŷ mab brenin Lloegr*. Ond pan fyddo dau enw galwedig wedi eu cysylltu yn un gair cyfansawdd, yna dylai y meddiannydd fod yn flaenorol ; megys, *brenin-fainc, colomen-dŷ*.

6. Deallir weithiau am ddau enw yn nghyd, drwy grybwyll am un, yr hyn a ddygwydd weithiau er talfyru yr ymadrodd ; megys, *troi ar yr aswy, h. y. y llaw aswy ; gwr da a chyfiawn, h. y. gwr da, a gwr cyfiawn*.

---

### PENNOD III.

#### *Am Gystrawen Enw Gwan.*

1. Y mae pob enw gwan, a phob rhagenw o ansawdd damweiniol, yn perthyn i ryw enw cadarn, naill ai yn grybwyllledig neu yn ddealledig. Yn grybwyllledig ; megys, *gwr doeth* : yn ddealledig ; megys, *y cyfiawn a ragora ar ei gymydog, h. y. y gwr cyfiawn*.

2. Y drefn fwyaf priodol yn y Gymraeg yw fod yr enw gwan, neu yr ansawdd damweiniol, yn ei radd cysefin, yn canlyn y cadarn y perthyno iddo ; megys, *dyn da, cân orchestol*. Eto y mae eithriad i hynny mewn amryw achosion, canys rhoddir weithiau yr enw gwan yn flaenorol, a hynny heb niweidio y synwyr ; megys, *cam-dystiolaeth* : ac y mae hyn weithiau yn grymuso yr ymadrodd ; megys, *y byth fywiol Dduw* : hefyd mewn enwau galwedig cyfansawdd, y



blaenaf yn y cyfansoddiad sydd ansawdd damweiniol i enw cadarn a ganlyno ; megys, *gwyngalchiad, mânus, goleuddydd* : ac yn olaf, yn aml iawn mewn iaith brydyddol, yr ansawdd damweiniol, o ba ryw bynag, a ragflaena yn yr un modd ; a hyn a luosoga ac a hardda y gerdd yn odidog.

3. Pan fyddo enw gwan mewn cyflwr o gymhariad, geill ragflaenu neu ganlyn y cadarn, wrth yr amcan a fynir ; megys, *gwell gwaith, rhagorach gwir ; gwaith gwell, gwir rhagorach*.

4. Enw gwan, fynychaf, a gyduna â'i briodol enw cadarn mewn rhif a chenedl ; megys, *gwr cryf, gwyr cryfion ; bron hesp, bronau hespion* : ond pan fyddo enw gwan mewn diffyg o rif lluosog, yna cysylltir enw gwan unig âg enw cadarn lluosog ; megys, *gweithredoedd da, morwynion call, dynion iach*.

5. Pan fyddo enw gwan yn sefyll megys cyfenw i enw priodol, rhoddir yr enw gwan yn y genedl fenywol, er i'r priodol fod yn wrywiol ; megys, *Alecsander Fawr, Cattwg Ddoeth, Merddyn Wylt*.

6. Yr holl ansoddau damweiniol o rif a flaenorant, yn gyffredin, eu perthynol enwau cedyrn, ac a nodant eu rhif lluosog ynddynt eu hunain, er i'r cadarn sefyll yn y rhif unig ; megys, *tri dyn, deuddeg llwyth* : ond drwy ychwanegu arddodiad, cymer yr enw cadarn ffurf lluosog gydag enw gwan niferol ; megys, *tri o ddynion, deg o forwynion* : ac weithiau heb arddodiad ; megys, *y tri wyr hyn*.

7. Geill lluwaws o ansoddion damweiniol ddyfod yn nghyd, gan ragflaenu neu ganlyn yr enw cadarn : yn flaenorol ; megys, *anwyl gariadus frodyr* : ond os yn ddylynol, dodir cysylltiad bob amser o flaen y diweddaf ; megys, *gwr cywraint a deallus* ; neu gallant fod rhyngddo-

ac enw cadarn arall a fyddo yn wrthddrych iddo; a geill fod yn y cyfrwng ansawdd damweiniol un enw cadarn fel y llall; megys,

Hael Mordaf, hael mawrdeg Nudd,  
Haelach, greddfollach, Gruffudd.

---

#### PENNOD IV.

##### *Am Gystrawen Rhagenw.*

1. Rhagenw dynweddiadol a ragflaena ei berthynol enw cadarn mewn rhif a chenedl, os na chyfrynga un gair arall; ac hefyd pan nad oes gydag ef ond ansawdd damweiniol, neu fannod; megys, *ti ddyn, ti egwan ddyn, ti y dyn.*

2. Geill rhagenw dynweddiadol, fynychaf, ragflaenu neu ganlyn parwyddiad, pa un bynag ai yn unig ai yn gysylltiedig â geiriau ereill, a chadw yr un synwyr; eithr gyda pharwyddiad gweithredol yn canlyn y rhagenw, arferol yw doddi *a* o flaen y parwyddiad; megys, *ti a roddi hyn*, neu, *hyn a roddi di; hwy a wnaethant hyn*, neu, *hyn a wnaethant hwy.*

3. Rhagenw meddiannol bob amser a ragflaena ei berthynol enw cadarn y meddianno arno, megys, *fy nhad, dy wlad, gwlad dy fam.*

4. Y rhagenwau meddiannol *mau* (sef eiddof), a *tau* (eiddot), bob amser a ganlynant enw cadarn, a rhoddir bannod yn flaenorol iddynt; megys, *y tad tau* (dy dad), *y wlad fau* (fy ngwlad i).

5. Er i ragenw meddiannol fod yn y rhif lluosog, eto geill yr enw cadarn dyllynol fod weithiau yn y rhif unig; megys, *ein corff gwael ni.*

6. Pan fwriedir y rhagenw dynweddiadol i fod yn bwysfawr neu rymus, yna gosodir y rhagenw meddiannol o flaen

yr enw cadarn y byddo meddiant iddo arno, a'r rhagenw dynweddiadol ar ol hyny; megys, *dy le di yw hwn, ac nid ei lle hi.*

7. Rhagenw perthynol a gydwedda, o barth cenedl a rhif, â'i ragflaenydd, ac â phob enw y safo drosto; megys, *Duw yr hwn sy gyfoethog o drugaredd, Mair yr hon a ddyrchafwyd*: ac weithiau blaenorir rhagenw perthynol gan un amlygol; megys, *y rhai hyn yw y rhai a ddaethant allan o'r cystudd mawr.*

8. Pan safo a yn lle rhagenw perthynol, y mae yn cydweddu â rhagflaenydd o bob dynweddiad; y parwyddiad hefyd a gydwedda â'r rhagflaenydd yn yr un modd; megys, *dyma y peth a garaf, ti yw y dyn a garaf.*

9. Gadewir rhagenw perthynol, weithiau, allan o ymadrodd, heb golli ei arwyddocad; megys, *y duwiau* (y rhai) *ni wnaethant y nefoedd a'r ddaiar, dyfethir hwynt o'r ddaiar*: eithr er mwyn i'r blaenorydd ymddangos yn fwy hysbys mewn ymadrodd, gosodir yn fynych y rhagenw perthynol ynddo; megys, *fy nuwiau y rhai a wnaethym i, a ddygasoch chwi ymaith.*

---

## PENNOD V.

### *Am Gystrawen Parwyddiad.*

Y mae pob ymadrodd perffaith yn cynwys tri defnydd; sef, y gosail, neu gyflwr enwadol, y parwyddiad, a'r gwrthddrych, neu gyflwr cyfeiriadol; a hyny naill ai yn grybwyllledig neu yn ddealledig.

Y gair a etyb i'r holiad *beth* neu *pwcy*, yn flaenorol neu ddylynol i'r parwyddiad yw ei achos enwadol; megys, *aberth yr annuwiol sy ffiidd gan yr Arglwydd. Beth?* yr ateb yw, *aberth.*

1. Rhaid i barwyddiaid, oddigerth y rhai cysefin, gyduno â'u hachos enwadol, sef yr enw neu y rhagenw fyddo yn orchwylydd iddynt, o barth rhif a dynweddiad; ond arferir y parwyddiaid cysefin gyda rhif unig a lluosog, y naill fel y llall; megys, *dynion gwatworus a faglunt ddinas. Bwriadau y diesgeulus sydd at helaethrwydd. Genau y ffol yw ei ddinistr.*

2. Geill y parwyddiad ragflaenu neu ganlyn y gwrthddrych, gan fod yr achos enwadol yn cael ei gynwys yn nherfyn y parwyddiad; a geill y tri, yn gyfnewidiol, gymeryd y lle a fyner iddynt: hyny yw, pa un ai rhagflaenu y parwyddiad ai y gwrthwyneb a wna yr achos enwadol, geill y gwrthddrych eu canlyn, yn mha drefn bynag, yn ddigyfrwng; a geill y parwyddiad ganlyn y ddau ereill: y gwrthddrych a eill hefyd ragflaenu mor addas ag y geill yr achos enwadol; ond, pa un bynag, cyfrwng-osodir y geiryn dyluniol *a*, yn aml, yn nesaf at y parwyddiad; megys, *gwolychaf fy Nhad, fy Nuw, fy Neirthiad. Pan syrthio dy elyn, na lawenycha. Synwyr dyn a oeda ei ddigofaint.*

3. Enw unig-luosog a gymer barwyddiad lluosog neu unig yn ddylynol: parwyddiad lluosog; megys, *y bobl a rodiasant mewn tywyllwch, a welsant oleuni mawr: parwyddiad unigol; megys, a'r holl luaws a ddystawodd, ac a wrandawodd ar Barnabas a Paul.*

4. Pan fyddo dau achos enwadol unig i'r un parwyddiad, gyda chysylltiad cynglynol rhyngddynt, geill y parwyddiad fod yn y rhif unig neu luosog; megys, *Paul a Silas oedd, neu oeddynt, yn gweddio.* Arferir parwyddiad unig weithiau gydag enw lluosog niferol; megys, *dau wr a gydymddyddanodd âg ef.*

5. Pan holer yn uniongyrch, dodir y gorair *a* i ragflaenu y parwyddiad yn ddigyfrwng, a rhai geiriau ereill a rag-

flaenant yn ddigyfrwng, ac ereill a gymerant enw, rhagenw, geiryn darluniadol, neu arddodiad, i gyfryngu; megys, *a geiff yr hwn sydd yn casau barn lywodraethu? Ai llygad o gnawd sydd i ti?*

6. Pan arferir parwyddiad annynweddiadol fel yn gynorthwyol i barwyddiad arall, yr olaf a geidw le cyfraniad; megys, *hir y byddis yn cnoi tamaid chwerw.*

## PENNOD VI.

### *Am Gystrawen Gorair.*

Ni pherthyn i oreiriau, yn gyffredin, na chydweddiad na llywodraeth; yr unig beth mewn perthynas i'w cyfansoddiad, yw y lle y dylid eu gosod mewn ymadrodd.

1. Y rhai a elwir goreiriau darluniadol, a roddir bob amser o flaen y parwyddiad, a hyny yn gyffredin er cyfagweddu ei ystyr; ond yn aml hefyd arferir hwynt fel cyflawniaid yn unig, er pereiddio sain ymadrodd.

2. Dylid gosod gorair, bob amser, mor agos ag y gellir i'r gair y byddo yn berthynol; megys, *nid da derbyn wyneb mewn barn.*

3. Y goreiriau cyffredin, o rif, cyflead, amser, cymhariad, anmheuad, a dognedd, a gymerant y cyflead a fynir gyda geiriau a fyddant mewn cyfansoddiad; hyny yw, gallant yr un a fynir ai rhagflaenu ai canlyn parwyddiad, achos enwadol, gwrthddrych, neu fod rhyngddynt; megys,

Dos *nesnes* i'r cynhesrwydd,  
I'r adail gled *yn rhwydd*.—LEWIS MORRIS.

Yr hyn a ellir gyfansoddi fel hyn,

*Nesnes* dos i'r cynhesrwydd,  
I'r adail gled *yn rhwydd* rhed.

4. Gosodir gorair, weithiau, o flaen enw gwan; megys, *rhy uchel yw doethineb i ffôl*: ac weithiau o flaen gorair

arall ; megys, *yr awr hon a phob amser teilynga ein gwr-andaw, O Dad!*

5. Goreiriau holiadol a honiannol, yn gyffredin, a ragflaenant barwyddiad, ac achos enwadol, a gwrthddrych ; megys, *pa ddydd a roes im' oesi? ond tost y dydoliad hwn? myn y goleu, mi wnawn gilwg.*

6. Goreiriau nacaol a ragflaenant y parwyddiad yn y modd mynegol, a geill yr achos enwadol ragflaenu pob un o honynt, neu eu canlyn, fel y gwelir yn dda ; megys, *ni phalla, ac ni ddigalona, hyd oni osodo furn ar y dduiar.*

7. Y goreiriau *dim a mo*, a arferir yn gynorthwyol i nacaon ; megys pan yn lle *ni wiw iti son am hyny*, y dywedwn *ni wiw iti ddim son am hyny* : ac weithiau geill y ddau fod yn nghyd ; megys, *ni wiw iti mo son dim am hyny.*

---

## PENNOD VII.

### *Am Gystrawen Bannod.*

Os bydd angen dangos fod gwahaniaeth rhwng un enw cadarn ac arall, neu er ei neillduo yn derfynedig oddiwrth yr enw cadarn ei hun yn ei ansawdd cyffredin, yna gosodir y bannodau *y* neu *yr* o'i flaen, fel pe dywedid, *y dynion* ; sef rhyw rai gwahanol, ac nid *dynion* yn gyffredin.

1. Pan fyddo dau enw cadarn wedi eu cyfleu yn nghyd yn yr achos meddiannol, un yn alwedig a'r llall yn briodol, y llywodraethydd a neilldua y meddiannydd heb un bannod ; megys, *dinas Duw* : ond os enw galwedig fydd y meddiannydd, ac yn arwyddo neillduolrwydd, efe a ddy-nodir gyda bannod ; megys, *tŷ y caethiwed, Tad yr amddi-faid* : neu os gair cyfansawdd a fydd, rhoddir y meddiannydd gyda bannod yn flaenaf ; megys, *y penteulu.*

2. Pan ddaw yr ansawdd damweiniol o flaen enw cadarn, yn wrthwynebol i ddull cyffredin cystrawiad, neu ynte ar ei ol, rhaid i fannod eu rhagflaenu bob un, os bydd eisieu gwahaniaeth; megys, *y mawr drugarog Dduw, y tyst ffyddlawm a chywir.*

3. Os bydd bannod yn rhagflaenu dau enw cadarn yn nghyd, yna disgyna yr enw cyntaf i ansawdd damweiniol; fel pe dywedid *y pen dyn*; a hyny a arwydda rhyw ddyn yn rhagori ar ereill.

4. Os cyfleir dau enw cadarn yn nghyd, yr un a lywodraetho a gymer y bannod o'i flaen, pan ofynir gwahaniaeth iddo; megys, *tes yr haul*; ond os bydd yntau yn ei dro dan lywodraeth enw cadarn arall, fel pan ddelo lluwys o honynt yn nghyd olynol, yna yr olaf yn unig a gymer y bannod rhagddo; megys, *goleu ser y nefoedd, anrhydedd coron brenin y Seison.*

5. Ni osodir bannod o flaen enw priodol oddieithr ei fod i'w benodi gyda rhagenw oddiwrth ryw enw priodol arall, neu am ryw un a grybwyllwyd eisoes; megys, *y Moses hwn, y Barabbas hwnw*: yr hyn hefyd a osodir weithiau pan ddynodir pethau wrth eu lleoedd damweiniol; megys, *tywyllwch yr Aipht, gwrthryfel yr Iwerddon, masnach yr India.*

6. Gosodir bannod hefyd i hysbysu rhagenwau perthynol; megys, *yr hwn, y neb, y rhai, y sawl.*

7. Bwrir ymaith, yn fynych, yr *y* o'r bannod *yr* ar ol llafariad, pa un bynag ai cydsain ai llafariad a ddechreuo y gair dyllynol, yr hyn a oddefir yn benaf ar ol y llafariad *a*; megys, *y tad a'r mab*: ar ol yr arddodiadau *a, i, ac o*; megys, *lladd â'r cleddyf, myned i'r maes, troi o'r frwydr*: ac ar ol y gorair *na*; megys, *uwch na'r cymylau, gwynach na'r eira.*

## PENNOD VIII.

*Am Gystrawen Cysylltiad.*

1. Nid yw y parwyddiaid yn eu hamryfeilion foddau yn gweithredu ar gyflwr y cysylltiadau gwahaniadol a osodir gyda hwynt mewn cyfymlyniad.

2. Y mae rhai o'r cysylltiadau yn gweini i glymu cyffelyb achosion yn nghyd; megys, *myfi a'r Tad un ydym, mynwn pe bait frwd neu oer.*

3. Rhai cysylltiadau ydynt yn gyfystyr, ond fod iddynt amrywiaeth llythyrol, y naill yn rhagflaenu cydseiniaid, y lleill y llafariad, a hyny er pereiddio y sain yn unig; y rhai ydynt y canlynol:—*a, ac; a, ag; o, od; pe, ped; no, nog; oni, onid.* Y rhai hyny a ddiweddant â llafariad, a ragflaeniant eiriau yn dechreu â chydseiniaid; a'r rhai sydd yn diweddu â chydseiniaid, a ragflaeniant eiriau yn dechreu a llafariad.

4. Eto er hyny, y cysylltiadau *ac, od, ped, onid,* a wrthwynebant y drefn uchod ar rai achosion; sef, *ac* a ragflaena y goreiriau nacaol yn dechreu â chydsain; *ac* hefyd y goreiriau *fe, fel, felly.* Rhagflaena *onid, od, ped,* y golafariad *f, h,* yn nechreu geiriau.

5. Y cysylltiad *a,* yn fynych, pan fyddo o flaen rhagenw meddiannol, a gyfansoddir yn nghyda sillgoll yn un gair; megys, *a'ch, a'i, a'm, a'n, a'th, a'u,* yn lle *a eich, a ei, a ym, a ein, a eith, a eu;* hefyd, *a'r,* yn lle *a yr.*

6. Y mae y gwrthwynebair cymharol *no* yn rhagflaenu geiriau yn dechreu â chydseiniaid; a *nog,* rai yn dechreu â llafariad.

7. Bydd cysylltiad weithiau i'w ddeall, er ei fod heb ei grybwyll; megys, *fel y byddo y dyn, y bydd ei anifel;* h. y. *fel y byddo, felly y bydd ei anifel.*



8. Rhai cysylltiadau a ofynant gysylltiadau ereill cyferbyniol iddynt yn yr un ymadrodd, a'r diweddaf yn cyfateb i'r cyntaf ; megys y canlyn :—

*Canys—hefyd.* *Canys* beth bynag a hauo dyn, hyny *hefyd* a fêd efe.

*Gan—hefyd.* *Gan* fod marwolaeth drwy ddyn, drwy ddyn *hefyd* y mae adgyfodiad y meirw.

*Os—hefyd.* *Os* byw yr ydym yn yr Ysbryd, rhodiwn *hefyd* yn yr Ysbryd.

*Fel—felly.* *Fel* yr arwain cyflawnder i fywyd, *felly* dylyn drygioni a dywys i angeu.

*Os—canys.* *Os* bydd newyn arnaf, ni ddywedaf i ti ; *canys* y byd a'i gyflawnder sydd eiddof fi.

---

## PENNOD IX.

### *Am Gystrawen Arddodiad.*

1. Arddodiad godidog a lywodraetha enw, neu ragenw yn ei ganlyn megys gwrthddrych, neu â'r hwn y mynegir fod rhywbeth yn gyfymlyn ; megys, *oddi draw, wrth waith, daioni i ddyn.*

2. Gellir arfer lluaus o arddodiadau yn yr un ymadrodd, er dangos perthynasau pethau y naill at y llall yn ol y byddo ofynol ; megys, *er lles i ti dy hun, peraf i ti dewi, rhag y canlyniad.*

3. Amryw o'r arddodiadau unigol, fel y crybwyllwyd eisoes, a gyfansoddir gyda rhagenwau dynweddiadol ; megys, *am-danaf, ar-naf, at-af, er-of, gen-yf, heb-of, o-honof, oddi-wrthyf, rhag-of, tros-of, trw-of, wrth-yf, yn-of* : ac felly yn yr ail a'r trydydd dynweddiad, yn gystal unig a lluosog, yn mhob cenedl, ac a elwir rhagenwau arddodol, pa rai yn eu cyfansoddiad gydag enw, parwyddiad, neu

ragenw, a gynnwysant ynddynt eu hunain gysylltiad a llywodraeth; megys, *cof genyf ddywedyd o honot am danu wrthyf.*

4. Ond pan yw rhagenw yn gofyn grym, neu bwys, gosodir y rhagenw cadarn ar ol pob arddodiad rhagenwol; megys, *dyred ti ataf fi, dyro i mi, i ni, neu iddynt hwy.*

---

### PENNOD X.

#### *Am Gystrawen Cyfryngiad.*

Cyfryngiaid, bob amser, a flaenorant eu gwrthddrych; megys, *och fi! gwae ef! ha fab!*

Gan nad yw cyfryngiaid ond geiriau a roddir yn nghanol ymadroddion ereill, nid oes iddynt nemawr o gyfansoddiad priodol. Bydd cyfryngiad weithiau yn cynwys rheswm cyfan; megys, *Ys truan o ddyn wyf fi! O ddyfnder golud doethineb a gwybodaeth Daw!*

---

### PENNOD XI.

#### *Eglurhad ar Gystrawen.*

Gan ein bod wedi gorphen yr eglurhad ar amrywiol ranau ymadrodd, a'r rheolau i'w ffurfio hwy yn synwyrwersi, buddiol yw yn awr roddi rhai cynlluniau er hyfforddiad i'r dysgadur pa fodd i brofi ei wybodaeth ynddynt, ac i'w gwneuthur yn gynefin iddo. Y mae natur y pwnc, yn gystal a'r cymhwysiad o hono, yn gofyn iddo gael ei ddosparthu yn ddwy ran; yn gyntaf, fel y mae yn golygu geiryddiaeth yn unig; ac, yn ail, fel y mae yn golygu geiryddiaeth a chystrawen yn nghyd.

Yma y canlyn rhai cynlluniau hawdd i'w deall o gyfansoddiad geiryddol, lle yr amlygir i ba ran ymadrodd y perthyn pob gair:—

*Epistol Cyntaf Ioan, Pen. IV., Adn. 1, 4.*

<i>Anwlyd</i> , .....	Enw cadarn	<i>Chwychwi</i> .....	Rhagenw
<i>na</i> .....	Gorair	<i>ydych</i> .....	Parwyddiad
<i>chredwch</i> .....	Parwyddiad	<i>o</i> .....	Arddodiad
<i>bob</i> .....	Enw gwan	<i>Dduw</i> , .....	Enw cadarn
<i>ysbryd</i> , .....	Enw cadarn	<i>blant</i> .....	Enw cadarn
<i>eithr</i> .....	Cysylltiad	<i>bychain</i> , .....	Enw gwan
<i>profwch</i> .....	Parwyddiad	<i>ac</i> .....	Cysylltiad
<i>yr</i> .....	Bannod	<i>a'u</i> .....	Rhagenw
<i>ysbrydion</i> .....	Enw cadarn	<i>gorchfygasoch</i> ...	Parwyddiad
<i>ai</i> .....	Gorair	<i>hwy</i> : .....	Rhagenw
<i>o</i> .....	Arddodiad	<i>oblegyd</i> .....	Cysylltiad
<i>Dduw</i> .....	Enw cadarn	<i>mwy</i> .....	Enw gwan
<i>y</i> .....	Gorair	<i>yw</i> .....	Parwyddiad
<i>muent</i> : .....	Parwyddiad	<i>yr</i> .....	Bannod
<i>oblegyd</i> .....	Cysylltiad	<i>hwn</i> .....	Rhagenw
<i>y</i> .....	Gorair	<i>sydd</i> .....	Parwyddiad
<i>mae</i> .....	Parwyddiad	<i>ynoch</i> .....	Arddodiad
<i>gau</i> .....	Enw gwan	<i>chwi</i> .....	Rhagenw
<i>brophwydi</i> .....	Enw cadarn	<i>na</i> .....	Cysylltiad
<i>lawer</i> .....	Enw gwan	<i>yr</i> .....	Bannod
<i>wedi</i> .....	Gorair	<i>hwn</i> .....	Rhagenw
<i>myned</i> .....	Parwyddiad	<i>sydd</i> .....	Parwyddiad
<i>allan</i> .....	Gorair	<i>yn</i> .....	Arddodiad
<i>i'r</i> .....	Arddodiad	<i>y</i> .....	Bannod
<i>byd</i> . .....	Enw cadarn	<i>byd</i> . .....	Enw cadarn

---

## YCHWANEGIADAU.

---

### PENNOD I.—AM WAHANNODIAD.

Gwahannodiad yw y gelfyddyd o ddosparthu cyfansoddiad ysgrifenedig yn ymadroddion, neu ranau o ymadroddion, drwy gymhorth nodau, neu attaliadau, i'r dyben o ddal ar yr amrywiol orphwysfäau y mae yr ystyr, a llafariad dichlynaidd, yn ofyn: ac y mae y nodau hyn mor anheborol angenrheidiol i'w deall, fel, hebddynt, y byddai pob cyfansoddiad yn gymysgfa o ddyrswch, ac yn ddarostyngedig i amryw gam-ddeongliadau.

Y mae yr adwabannod yn arddangos y gorphwysiad byraf; y gwahannod, ddau cymaint o orphwysfa a'r adwabannod; y gorwahannod, dri cymaint a'r adwabannod; a'r diweddeb, bedwar cymaint a'r adwabaunod.

Nid ellir dangos yn benodol pa beth yw, hyd cywir, neu barhad, pob gorphwysfa; oherwydd y mae yn amrywio gydag amser yr ymadrodd oll. Gall yr unrhyw gyfansoddiad gael ei draethu mewn amser cyflymach neu arafach; ond dylai y cyfartalewydd rhwng y gorphwysfâu fod i'w ymddigfnewid.

---

#### PENNOD II.—*Am Adwahannod.*

Yr adwahannod ( , ), gan mwyaf, sydd yn dydoli y rhanau hynny o ymadrodd, y rhai, er fod cyfundeb tra agos rhyngynt mewn ystyr a chystrawen, a o'fynant orphwysfa.

1. Mewn perthynas i ymadrodd unig, y mae yr anrywiol eiriau cynwysedig ynddo yn meddu cyfeiriad mor agos y naill at y llall, fel, yn gyffredin, nad oes unrhyw attaliadau yn angenrheidiol, oddieithr diweddeb ar ei derfyn; megys, *Ofn yr Arglwydd yw dechreuad doethineb. Y mae pob rhan o sylwedd yn llawn o greaduriaid byw. Ymadrodd anghyfansawdd, modd bynag, pan y mae yn hir, a phethau ychwanegol yn canlyn yr achos enwadol ynddo, a ddichon oddef gorphwysfa yn ddigyfrwng o flaen y parwyddiad; megys, Nid yw chwaeth da y tô hwn, yn goddef i ni esgeuluso coleddu y Gymraeg. Bod yn gwbl ddifater am glod neu anghlod, sy ddiffyg gwirioneddol mewn enw da.*

2. Pan y mae cysylltiad gwahanol ranau ymadrodd anghyfansawdd yn cael ei dori gan ymadrodd amherffaith, arweinir yr adwahannod i mewn, fynychaf, wrth ddechreu ac ar ddiwedd yr ymadrodd hwnw; megys, *Yr wyf yn*

*cofio, gyda diolchgarwch, am ei ddaioni i mi. Y mae ei waith, mewn amryw ystyriaethau, yn dra amherffaith. Nid oes, am hyny, ond ychydig o gymeradwyaeth iddo. Ond pan fydd y rhwystrau hyn yn ysgeifn a dibwys, gwell yw bwrw yr adwahannod heibio; megys, Y mae gweniaith yn sicr yn niweidiol. Y mae hyfrydwch yn ddiâu mewn cymwynasgarwch.*

Yn y cyffredinolrwydd o ymadroddion cyfansawdd, y mae angenrheidrwydd yn fynych am yr adwahannod: hyn a ymddengys oddiwrth y rheolau canlynol; amryw o ba rai ydynt gymhwysiadol at ymadroddion annghyfansawdd, yn gystal a chyfansawdd.

3. Pan fydd dau neu ychwaneg o enwau cedyrn yn ymgyfarfod yn yr un gystrawen, dydolir hwynt âg adwahannod; megys, *Y gwr, y wraig, a'r plant, a ddyoddefusant yn ddirfawr. Cymerasant ymaith eu dodrefn, eu dillad, a'u cyfoeth.*

Y mae eithriad i'r rheol hon, gan mwyaf, pan fydd dau enw cadarn yn gyfunedig yn ddigyfrwng gan gysylltiad; megys, *Rhinwedd a drygioni a ffurfiant gyferbyniad amwlg i'w gilydd. Dynion rhydd-fucheddol a alwant grefydd yn benboethni neu ofergoel. Y mae gwahaniaeth naturiol rhwng rhinwedd a drygioni, rhwng haeddiant a drwg-haeddiant, rhwng doethineb a ffolineb. Ond os na bydd y rhanau a gysylltir yn fyrion, gellir gosod adwahannod i mewn, er fod y cysylltiad yn grybwylledig; megys, *Gellir dywedyd fod ffug-hanesion yn gymysg-areithiau truenus, neu annogaethau peryglus i ddrwg.**

4. Dau neu ychwaneg o enwau gweinion yn perthyn i'r un enw cadarn, a ddydolir hefyd gan yr adwahannod; megys, *Nid oes angen am un gorchudd ffugiol ar wirionedd eglur, sicr. Yr oedd Dufydd yn wr dewrwyd, doeth, a*

*duwiol. Gwraig addfwyn, synwryol, dda ei moes, a chrefyddol. Eithr dau enw gwan, a gyfrwymir yn ddigyfrwng gan gysylltiad, nid ydynt i'w dydoli gan adwahannod; megys, Gwirionedd sy deg a diddichell, syml a chywir, unffurf a chydsafawl.*

5. Dau neu ychwaneg o barwyddiaid, a chanddynt yr un achos enwadol, ac yn canlyn eu gilydd yn ddigyfrwng, a ddydolir hefyd gan yr adwahannod; megys, *Y mae rhinwedd yn cynal mewn adfyd, yn cymedroli mewn hawddfyd. Mewn llythyr, gallwn gynghori, annog, cysuro, deisyf, ac ymresymu.*

Dau barwyddiad wedi eu huno yn ddigyfrwng gan gysylltiad, ydynt wrthwynebol i'r rheol uchod; megys, *Pa un bynag a wnelom ai bwyta neu yfed, gweithio neu gysgu, dylem fod yn gymesur.*

Dau neu ychwaneg o gyfryngiadau, ydynt ddarostyngedig i reol ac eithriad cyffelyb i barwyddiad; megys, *Dyn yn ofni, yn gwasanaethu, ac yn caru ei Grewr.*

6. Dau neu ychwaneg o oreiriau yn canlyn eu gilydd yn ddigyfrwng, a ddylent gael eu dydoli gan yr adwahannod; megys, *Y mae llwyddiant yn gyffredin yn ymddibynnu ar weithredu yn synwryol, yn ddianwadal, ac yn nerthol, yn yr hyn a gymerom mewn llaw.*

Eithr pan gyfunir dau orair yn nghyd gan gysylltiad, ni ddydolir hwynt gan adwahannod; megys, *Y mae rhai dynion yn pechu yn fwriadol ac yn rhyfygus.*

7. Pan ganlynir cyfraniadau gan rywbeth ymddibynol arnynt, dydolir hwynt, yn gyffredin, oddiwrt h yn hyn sydd yn ol o'r ymadrodd, gan adwahannod; megys, *Y brenin, wedi cymeradwyo y cynllun, a'i dygodd i ben.*

8. Ymadroddion mewn anerchiad cyfeiriol, a ddydolir oddiwrt h y rhelyw o'r frawddeg gan yr adwahannod;

megys, *Fy mab, moes i mi dy galon. Yr wyf dan rwymau i chwi, fy nghyfeillion, am eich amrywiol gymwynasuu.*

9. Enwau cedyrn mewn cyfosodiad, hyny yw, enwau a ychwanegir at enwau ereill yn yr un achos, mewn ffordd o eglurhad neu amlygiad, pan fyddo pethau cysylltiedig ereill yn cydfyned â hwynt, a ddydolir gan yr adwahannod; megys, *Paul, apostol y cenedloedd, oedd yn enwog am ei wresogfryd a'i wybodaeth.*

Ond os bydd y cyfryw enwau cedyrn yn annglyfansawdd, neu yn unig yn ffurfio enw priodol, ni wahanir hwynt; megys, *Paul yr apostol. Yr ymmherawdwr Antoninus a ysgrifennodd lyfr rhagorol:*

10. Darnau annglyfansawdd o ymadroddion wedi eu cydio yn nghyd gan gysylltiadau cymhariaethol, ydynt, gan mwyaf, i'w gwahaniaethu âg adwahannod; megys, *Fel y brefa yr hydd am yr afonydd dyfroedd, felly yr hiraetha fy enaid am danat ti.*

Os bydd y darnau ymadroddion cymhariaethol yn fyrion, gwell, yn gyffredin, yw gadael yr adwahannod heibio; megys, *Pa faint gwell yw cael doethineb nag aur? Y mae dynolryw yn gweithredu yn fynychach drwy wŷn anwadal na thrwy bwyll ac ystyriaeth.*

11. Pan osodir geiriau mewn cyferbyniad i'w gilydd, neu gyda rhyw amrywiaeth hynodol, y maent yn gofyn cael ei dydoli gan adwahannod; megys, *Er yn ddufn, eto yn loyw; er yn arafaid, eto nid yn farwaid. Ceir dynion da yn fynych, yn y cyflwr brau, amherffaith hwn, nid yn unig mewn undeb â, ond mewn gwrthwynebiad i, olygiadau ac ymarweddiad y naill a'r llall.*

12. Gellir yn briodol nodi dywediad godidog, neu sylwad byr, rywbeth fel dyfyniad o waith awdwr, âg adwahannod; megys, *Y mae yn clwyfo balchder dyn i ddweyd, Nis gwn.*

13. Y mae rhagenwau perthynol yn eiriau cyfrwymol, ac yn gyffredin yn goddef adwahannod o'u blaen; megys, *Y mae efe yn pregethu yn uchel, yr hwn sydd yn arwain bywyd tymherus, cyfiawn, a duwiol.*

14. Pan fydd parwyddiad i'w ddeall, gellir yn fynych arwain adwahannod i mewn yn briodol. Y mae hon yn rheol gyffredinol, pa un, heblaw cynwys rhai o'r rheolau blaenorol, a fydd gymhwysiadol at amryw achosion na phenodwyd gan neb o honynt; megys, *Oddiwrth y gyfraith y deillia diogelwch; oddiwrth ddiogelwch, ymofyngarwch; oddiwrth ymofyngarwch, wybodaeth.* Yn yr anghraifft hon, y mae y parwyddiad *deillia* i'w ddeall o flaen *ymofyngarwch* a *gwybodaeth*, ar ba eiriau y mae gorphwysfa cryu fawr yn angenrheidiol.

15. Y mae yn rhaid i'r geiriau, *ie yn hytrach, felly, oddiwrth hyn, drachefn, yn gyntaf, yn ail, cyn hyn, yn awr, yn ddiweddaf, unwaith yn rhagor, yn anad dim, o'r tu arall, yn y lle nesaf, yn fyr,* a phob geiriau ac ymadroddion ereill o'r fath, gael, yn gyffredin, eu dydoli oddiwrth y cyd-destun gan yr adwahannod; megys, *Cofia dy gyfaill goreu a blaenaf; cyn hyn, cynalydd dy febyd; yn awr, gwarcheidwad dy ieuenctyd, a gobaith dy flyneddau cynyddol.*

16. Adwahannod, os bydd yr ymadrodd yn faith, a oddef ychydig o godiad yn y llais, a gorphwysiad tra y rhifir *un*.

Yn amryw o'r rheolau a'r anghreiffitiau blaenorol, rhaid sylwi yn ddyfal ar hyd darnau yr ymadrodd, a'r cyfatebiad sy rhwng y naill a'r llall o honynt. Ystyriaeth o synwyr unrhyw ymadrodd, ac o'r ymddywediad eglur, esmwyth o hono, a alluoga, fe dybir, gyda chynorthwy y rheolau blaenorol, y myfyriwr i gyfaddasu y gorphwysfäau priodol, a'r lleoedd i osod yr adwahannod i mewn.



PENNOD III.—*Am Wahannod.*

Y gwahannod (;) a arferir i ddosparthu ymadrodd cyfansawdd yn ddwy neu ychwaneg o ranau, heb fod cysylltiad mor agos rhyngddynt a'r rhai a ddydolir gan yr adwahannod, nac ychwaith yn meddu can lleied ddibyniad ar eu gilydd a'r rhai hyny a renir gan y gorwahannod.

Arferir y gwahannod, weithiau, pan na rydd y darn blaenorol o'r ymadrodd gyflawn synwyr o hono ei hun, ond y gorphwys ar y dosparth canlynol: ac weithiau pan y byddai ystyr y darn hwnw yn gyflawn heb yr un terfynol; megys, *Fel y mae yr awydd i gymeradwyaeth, pan fydd yn gweithio yn ol rheswm, yn gwella y rhan brydweddol o'n rhywiogaeth yn mhob peth canmoladwy; felly nid oes dim yn fwy dinystriol iddynt, pan fydd yn cael ei lywodraethu gan wagedd ac oferedd.*

Gosodir yr attalnod hwn, weithiau, i wahanu ansawdd gwrthwynebol; megys, *Pob pren da, sydd yn dwyn ffrwythau da; ond pob pren drwg, sydd yn dwyn ffrwythau drwg.*

Gellir canfod y gwahaniaeth rhwng adwahannod a gwahannod, yn yr ymadrodd canlynol:—*Pob un sydd yn gofyn, sydd yn derbyn; a'r neb sydd yn ceisio, sydd yn cael; ac i'r hwn sydd yn curo, yr agorir.*

Cedwir y llais yn ddiysgog wrth yr attalnod hwn, a gorphwysir tra y rhifir *da*.

PENNOD IV.—*Am Orwahannod.*

Y gorwahannod (:) a arferir i ddosparthu ymadrodd yn ddwy neu ychwaneg o ranau, â llai cysylltiad rhyngddynt na'r rhai a ddydolir gan y gwahannod; ond heb fod mor annibynol ag ymadroddion eglur-wahanol.

Gellir gosod y gorwahannod yn briodol yn y tri cyflwr canlynol :—

1. Pan fydd darn o ymadrodd yn gyflawn ynddo ei hun, ond fod rhyw nodiad cyflawniadol, neu eglurhad pellach ar y pwnc, yn canlyn ; megys, *Teimlodd natur ei hanalluogrwydd i ymryddhau oddiwrth ganlyniadau euogrwydd : yr efengyl sydd yn datguddio y cynllun o gyfryngiad a chynorthwy Dwyfol. Cyfaddefodd natur fod iawn yn angenrheidiol : yr efengyl sydd yn amlygu fod yr iawn angenrheidiol wedi cael ei wneyd.*

2. Pan fydd amryw wahannodau wedi rhagflaenu, a gorphwysfa helaethach fyth yn angenrheidiol i'r dyben o nodi yr ystyr cysylltiadol neu derfynol ; megys, *Deddfroddwr Dwyfol, yn adrodd ei leferydd o'r nef ; llywodraethwr hollalluog yn estyn allan ei fraich i gosbi neu wobrwyo ; yn mynegu i ni am orphwysfa ddiddarfod wedi ei darparu ar ol hyn i'r cyfiawn, ac am lid a digofaint yn aros y drygionus : y rhai hyn ydynt yr ystyriaethau sydd yn cadw y byd mewn braw, yn cynal uniondeb, ac yn lluddias troseddau.*

3. Arferir y gorwahannod, yn gyffredin, pan y bydd anghraifft, neu ddyfyniad, neu ddywediad rhyw un yn cael ei ddwyn i mewn ; megys, *Y mae yr Ysgrythyrau yn rhoddi i ni ddarluniad hawddgar o Dduw, yn y geiriau canlynol : "Dduw cariad yw." Clywyd ef yn dweyd yn fynych : "Yr wyf wedi darfod i'r byd, ac yn ewyllysgar i'w adael."*

Sefydli'r y priodoldeb o ddefnyddio gorwahannod neu wahannod, weithiau, drwy waith cysylltiad yn cael ei grybwyll, neu fod heb ei grybwyll ; megys, *Na weniethiwch wrthyh eich hunain gyda'r gobaiith am wynfyd perffaith : nid oes y fath beth yn y byd. Na weniethiwch wrthyh eich hunain gyda'r gobaiith am wynfyd perffaith ; oherwydd nid oes y fath beth yn y byd.*

Gellir gostwng ychydig ar y llais wrth yr attalnod hwn, a gorphwys tra y rhifir *tri*.

---

PENNOD V.—*Am Ddiweddeb.*

Y diweddeb (.) a arferir i nodi ymadrodd cyflawn ac annibynol, yr hwn nid yw yn gysylltiedig mewn cystrawen â'r ymadrodd canlynol.

Y mae rhai ymadroddion yn annibynol ar eu gilydd yn eu hystyr a'u cystrawen; megys, *Ofnwch Dduw. Anrhydeddwch y Brenin. Na ddymunwch ddrwg i un dyn ar y ddaiar.* Ereill ydynt annibynol yn unig yn eu cystrawen lythyregol; megys, *Nid yw y Bod Goruchaf yn cyfnewid yn ei ewylllys i ychwanegu ein dedwyddwch, nac yn nghynllun ei lywodraeth. Y mae un goleuni yn tywynu arnom yn wastad oddi uchod.*

Gellir goddef diweddeb, weithiau, rhwng dau ymadrodd, er eu bod yn cael eu cyfuno â chysylltiad gwahaniadol neu gynglynol; oherwydd nid yw ansawdd y nod yn gorphwys yn wastad ar y geiryn cysylltiadol, ond ar ystyr a chystrawen ymadroddion; megys, *Efe, yr hwn sydd yn ymddyrchafu i sylw ac ystyriaeth y byd, sydd, o bawb, leiaf tebyg i ochelyd barn. Oherwydd y mae yn tynu arno ei hun fil o lygaid, y rhai a'i gwylant yn ddyfal yn mhob man.*

Gostyngir y llais wrth yr attalnod hwn gan ised ag y deallo y gwrandawyr fod yr ymadrodd blaenorol wedi ei gyflawn orphen, a gellir attal y llais wrtho tra y rhifir *pedwar*.

Dylid defnyddio y diweddeb ar ol pob gair talfyredig, megys *hol.* am *holiad*, *at.* am *ateb*, *h. y.* am *hyny yw*, *bl.* am *bhwyddyn*, &c. Hefyd *O. B.* am *oed y byd*, *O. C.* am *oed Crist*, *D. S.* am *dalier sylw*, &c.

PENNOD VI.—*Am Linell, Gofyneb, Rhyfeddeb,  
Crwmfachau, &c.*

Y llinell (—), er ei bod yn cael ei defnyddio yn an-  
mhriodol gan ysgrifenyddyr byrbwyll ac anghyson, a ellir  
ei dwyn i mewn, gyda phriodoldeb, pan fydd yr ymadrodd  
yn terfynu yn ddisymwth, neu pan fydd gorphwysfa gy-  
nwysfawr yn angenrheidiol, neu pan fydd tro annysgwyl-  
iadwy yn synwyr y frawddeg; megys, *Os ti yw efe, a  
barched gymaint unwaith—ond, och! fel y syrthiaist! fel  
y'th ddirmygir! Os yw gweithredu yn gytun âg cwyllys  
ein Creawdwr—os yw ychwanegu dedwyddwch dynolryw o'n  
hamgylch—os yw diogelu ein gwynfyd ein hunain—yn beth-  
au o'r pwys mwyaf; yna ynte gelwir yn uchel arnom i  
goleddu ac ehangu achos mawr crefydd a rhinwedd.*

Heblaw yr attalnodau a arwyddocant y gorphwysfäau  
mewn ymadrodd, y mae ereill sydd yn dynodi amrywiol  
gyweiriadau y llafar, er mwyn cydweddu â'r ystyr; sef,

Y GOFYNEB,           ?  
Y RHYFEDDEB,       !  
A'r CRWMFACHAU,   ( )

*Am y Gofyneb.*

Arferir gofyneb ar ddiwedd ymadrodd gofyniadol; hyny  
yw, pan fydd holiad yn cael ei gynyg; megys, *Beth a  
ddarfu i ti, O fôr, pan giliaist? tithau, Iorddonen, paham  
y troaist yn ol?*

Ffurfir holiad weithiau er mwyn dangos rhyw gymhar-  
iaeth; megys, *A weli di wr doeth yn ei olwg ei hun? gwell  
yw y gobaith am y ffol nag am hwnw.*

Holiadau a gynyg dyn iddo ei hun mewn dwys fyfyr-  
dod, a ddylent gael eu terfynu â gofyneb; megys, *Pwy a*

*addurnodd y nefoedd â'r fath brydferthwch odiaeth? Wrth orchymyn pwy y mae y ser gwibiog yn cyflawni eu cylch-dreigliadau dibaid?*

Annhriodol yw gosod gofyneb ar ol ymadroddion nid ydynt holiadol, ond yn unig mynegol o ryfeddod, neu ryw gynhwrf meddwl arall; megys, *Pa faint o brofion sy genym o ddiweirdeb a rhinwedd y rhywiogaeth brydweddol! Gyda pha gallineb y mae mab Sirac yn ein cynghori yn y dewisiad o'n cyfeillion!*

Ni ddylid defnyddio gofyneb mewn manau lle y dywedir yn unig fod holiad wedi cael ei gynyg, a lle nid ydynt y geiriau yn cael eu hadrodd fel gofyniad; megys, *Gofynasant y brodyr i mi, paham yr wylwn.* Er rhoddi i'r ymadrodd hwn ddull gofyniad, dylai gael ei osod allan fel hyn; *Dywedasant y brodyr wrthyf, Paham yr wyli?*

Dylid attal y llais wrth y nod hwn, fynychaf, cyhyd a diweddeb; ac arwyddocau, drwy godiad a bywiogrwydd y sain, mai holiad fydd y geiriau. Dylai y lleisbwys hefyd fod ar y gair hwnw i ba un y perthyn yr ateb.

#### *Am y Rhyfeddeb.*

Gosodir y rhyfeddeb wrth ymadroddion a fynegant gynhwrf disymwth yn y meddwl, syndod aruthrol, llawenydd, gofid, &c., ac hefyd wrth amweddiau ac anerchiadau; megys, *Ofnadwy a rhyfedd y'm gwnaed! Mor gryfion yw geiriau uniondeb! Y mae cenedlaeth, O mor uchel yw ei golwg! a'i hamrantaau a ddyrchafwyd.*

Mewn rhai achosion, anhawdd yw gwahaniaethu rhwng ymadrodd yn arwyddocau gofyniad neu ryfeddod; ond gellir bob amser, yn briodol, derfynu ymadrodd yn yr hwn y mynegir unrhyw syndod neu ryfeddod, ac heb un ateb yn cael ei ddysgwyl neu gynwys, â rhyfeddeb; megys,

*Pa faint o wagedd sydd yn erlyniadau dynion! Pwy a ddichon ddatgan yn ddigonol ddaioni ein Creawdwr! Beth sydd yn fwy hawddgar na rhinwedd!*

Ymddengys defnyddioldeb y gofyneb a'r rhyfeddeb oddiwrth y cynlluniau canlynol, yn mha rai yr arwyddoed ac y gwahaniaethir yr ystyr yn gyfangwbl gan eu nodau:—

Pa mor fawr oedd yr aberth?		Pa fath ymddarostyngiad?
Pa mor fawr oedd yr aberth!		Pa fath ymddarostyngiad!

Gorphwysir wrth y nod hwn yn nghylch cyhyd a diweddeb; a dylai llais y darllenydd fod mewn cywair cyfatebol i anian yr ymadrodd.

*Am y Crwmfachau.*

O fewn crwmfachau y gosodir dosparth o ymadrodd a fyddo yn cynwys rhyw hysbysrwydd angenrheidiol, neu nodiad defnyddiol, wedi ei ddwyn i mewn i gorff yr ymadrodd mewn dull annghyfeiriol, ac a ellir ei adael allan heb niweidio y gystrawen lythyregol; megys, *A rhai o'r Saduceaid (y rhai sydd yn gwadu nad oes adgyfodiad) a ddaethant ato ef. Oni wyddoch chwi, frodyr (canys wrth y rhai sydd yn gwybod y ddeddf yr wyf yn dywedyd), fod y ddeddf yn arglwyddiaethu ar ddyn tra fyddo efe byw.*

Os bydd y dosparth danweiniol yn fyr, neu yn cydgyfarfod yn berffaith â'r hyn sydd yn ol o'r ymadrodd, nid yw gymhwys i ddefnyddio y nodau crwmfachol. Y cynlluniau canlynol ydynt, gan hyny, yn arferiadau anmhriodol o'r crwmfachau; megys, *Llefarwch chwi (y rhai a welsoch) ei ryfeddodau yn y dyfnder. Efe a'u cafodd hwy yn cysgu drachefn; (canys yr oedd eu llygaid hwy wedi trymhau: ) ac ni wyddent beth i ateb iddo.*

Y mae y crwmfachau yn nodi gostyngiad cymedrol yn y llais: a gellir eu dylyn â phob attalnod a ofynai y syr-

wyr pe gadewid yr ymadrodd crwmfachol heibio. Rhaid i ni, modd bynag, eithraw y nodau gofyneb a rhyfeddeb; megys, *Tra y maent yn ewylllysio rhyngu bodd (a phaham na ddylent ewylllysio hyny?)*, hwy a ddiystyrant foddion dianrhydeddus. *Gosodwyd ef allan drwy gyffelybiaeth (O mor annghyfatebol!) wedi ei benthycio oddiwrth goelgrefydd y cenedloedd.*

*Am amryw Nodau ereill.*

Y mae nodau ereill a ddefnyddir yn fynych mewn cyfansoddiad, ac a ellir eu hegluro yn y lle hwn; sef,

1. SILLGOLL ( ' ) a arferir i dalfyru gair drwy dori llythyren neu sill allan o hono; megys, *gwas'naethu*, am *gwasanaethu*: hefyd i wasgu dau air yn un; megys, *y rhai'n*, am *y rhai hyn*.

2. GWALLNOD ( ^ ) a osodir lle y dygwydd fod rhyw air, sill, neu lythyren, wedi eu gadael allan o ysgrifen, mewn annghof neu gamsyniad, a'r nod hwn a roddir dan y llinell lle y dylai yr hyn sydd allan fod; megys,

Y diog i ddigofaint sydd <sup>yn</sup> llawn o synwyr.

^

Y mae y nod hwn hefyd yn cael ei alw yn acen amgylchedig pan osodir ef uwch ben llafariad neillduol i ddy-nodi sill hirlaes; megys, *lleshâd*.

3. CYSYLLTNOD ( - ) a ddefnyddir i gyfuno geiriau cyfansoddedig; megys, *gorsedd-fainc*, *priodas-gerdd*; y rhai a seinir yn unllais, ac nid ar wahan. Arferir y nod hwn pan fydd gair yn cael ei ranu, y rhan flaenaf yn cael ei hysgrifenu, neu ei hargraffu, ar ddiwedd un llinell, a'r rhan olaf ar ddechreu un arall. Pan y mae felly, gosodir ef ar ddiwedd y llinell gyntaf, nid ar ddechreu yr ail.

4. **DYDOLNOD** ( " ) sydd yn gynwysedig o ddau nodyn wedi eu gosod uwch ben un o'r ddwy lafariad, y rhai mewn modd amgen a wnaethent ddeuseiniad, i'w gwahanu yn ddwy sill; megys, *ie, tēyrn*.

5. **DOSPARTHOD** ( § ) a arferir i ranu ymadrodd, neu bennod, yn ddosparthiadau llai.

6. **GWAHANAI** ( ¶ ) sydd yn dynodi dechreuad testun newydd, neu ymadrodd heb fod yn gysylltiedig â'r un blaenorol. Arferir yr arwydd hwn yn benaf yn y Bibl.

7. **RHAGWAHANDRO** ( “ ” ). Dau adwahannod gwrthdroedig a osodir, yn gyffredin, ar ddechreu ymadrodd neu ddywediad a fo wedi cael ei ddyfynu neu adysgrifenu oddiwrth y llefarwr neu awdwr yn ei eiriau ei hun, a dau adwahannod yn eu cyflead cywir a osodir ar y terfyn; megys, “ *Goreu cof, cof llyfr.*”

8. **MYNEGYS** ( ⚡ ) a arferir i gyfeirio at ryw ymadrodd hynod, neu beth a fyddo yn haeddu sylw ac ystyr-iaeth manylaf y darlennydd.

9. **CYPLYSNOD** ( ~ ) a arferir fynychaf mewn barddoniaeth, i gydio llinellau yn nghyd a fyddont yn cydgynganeddu.

10. **SERENIG** ( \* ) a arferir i gyfeirio y darlennydd at ryw nodiad ar ymyl neu yn ngwaelod y ddalen. Dwy neu dair yn nghyd ydynt, yn gyffredin, yn dynodi fod rhyw lythyrenau mewn gair wedi eu gadael allan, neu ryw ymadrodd hyf ac anfoesol, neu fod diffyg yn y llaw-ysgrifen.

11. **DIFFYG-LINELL** ( — ) a arferir hefyd pan adewir rhyw lythyrenau allan mewn gair, neu air mewn ymadrodd; megys, y *B——n*, am y *Brenin*.

12. **Y BIDAG** ( † ), **Y BER** ( ‡ ), **Y LLINELLAU DYBLYG** ( || ), llythyrenau yr egwyddor, yn nghyda rhifnodau, a arferir fel cyfeiriadau at ymyl neu waelod y tu dalen.



Gan nad yw rheolau gwahannodiad wedi eu sefydlu yn ddisigl, eithr yn ymddibynu yn fawr ar ewyllys a dewisiad yr ysgrifenydd, y mae yn amlwg, yn nesaf at gysondeb a chyfansoddiad trefniadol geiriau, nad oes dim a ddengys eglurdeb ymadrodd yn well na gwahannodi yn gywir : heb hyn, geill gwaith cyfansoddydd da fod yn dywyll, ac un gwael yn llwyr annealladwy.

---

PENNOD VII.—*Cyfarwyddiadau mewn perthynas i arfer y Prif Lythyrenau.*

Prif lythyrenau mewn ymadroddion a arferir ar yr achosion canlynol :—

1. Yn y gair cyntaf o bob llyfr, pennod, llythyr, adnod, sylwad, neu unrhyw ddarn arall o ysgrifen.

2. Yn y gair cyntaf ar ol diweddeb ; ac, os bydd y ddau ymadrodd yn gwbl annibynol, ar ol nod o ryfeddod a gofyniad. Eithr os bydd lluaws o ymadroddion yn cynwys gofyniad neu ryfeddod, wedi eu cyfleu yn un pentwr cyffredinol, neu os bydd cystrawen yr ymadroddion diweddaf yn gorphwys ar y blaenaf, gallant oll, oddieithr y cyntaf, ddechreu â llythyren fechan ; megys, *Pa hyd, chwi ynfydion, y cerwch ynfydrwydd ? a chwi watwarwyr, y bydd hoff genych watwar ? ac y casâ ffyliaid wybodaeth ? Och ! mor wahanol ! eto mor gyffelyb i'r unrhyw !*

3. Yn nechreuad pob un o enwau ein Creawdwr ; megys, *Duw, Iehofah, yr Hollalluog, y Bod Goruchaf, Rhagluniaeth, y Messiah, yr Ysbryd Glân.*

4. Yn nechreuad enwau priodol dynion, lleoedd, heol-ydd, mynyddoedd, afonydd, llongau, celfyddydau, creaduriaid, a phob math o swyddau ; megys, *Sior, Aberystwyth, Pumlumon, Rheidol, y Morfarch.*

5. Yn nechreuad enwau gweinion tarddedig o enwau priodol lleoedd; megys, *Groegaidd, Rhufeinaidd, Cymreig, Seisonig, Ffrenig, Italaidd.*

6. Yn y gair cyntaf o waith awdur arall, a ddarweinwyd i mewn ar ol gorwahannod, neu pan fydd mewn dull uniongyrchol; megys, *Bob amser cofia yr hen ymadrodd profedig hwn: Adnehydd dy hun. Ein Deddfroddwr mawr a ddywed, Cyfod dy groes beunydd, a chanlyn fi.* Ond pan ddygir dywediad un arall i mewn yn annghyfeiriadol ar ol adwahannod, y mae prif lythyren yn ddiangenrhaidd; megys, *Selyf a sylwa, fod balchder yn myned o flaen dinystr.* Dichon y gair cyntaf o ryw anghraifft ddechreu, yn dra priodol, â phrif lythyren; megys, *Deniadau a brofant ein rhinwedd.*

7. Yn nechreuad pob gair hynod a phwysfawr mewn ymadrodd; ac hefyd dylai y cyfryngiad *O* fod bob amser yn brif lythyren.

8. Yn y gair cyntaf o bob llinell mewn prydyddiaeth.

Pan fyddo gair neu ymadrodd yn brif lythyrenau oll, megys, *YDWYF YR HWN YDWYF*, dealler ei fod yn arwyddo rhyw fawredd neillduol. Cofier hefyd am y llythyrenau Italaidd arferedig mewn adnodau yn y Bibl, eu bod wedi eu hychwanegu gan y cyfieithwyr, er mwyn deongli yr ieithoedd gwreiddiol yn fwy eglur a dealladwy yn ein hiath ni.

---

PENNOD VIII.—*Cyfarwyddiadau i Ddarllain gyda phriodolder a gweddusder.*

Y pethau penaf i sylwi arnynt tuagat ddarllain yn ddeallus, yw, **GORPHWYSIAD, ACENIAD, LLEISBWYS, a DISGYNSAIN.**

1. *Am y Gorphwysiadau.*

Gorphwysiadau wrth lefaru a darllain, ydynt attaliadau cyfangwbl o'r llais dros yspaid amgyffredol, ac, mewn llawer achos, mesuredig, o amser.

Y mae gorphwysfäau mor angenrheidiol i'r llefarwr ag i'r gwrandawydd. I'r llefarwr, fel y cymero ei anadl, heb yr hyn ni ddichon iddo fyned yn mlaen yn mhell mewn parabliad; ac fel y gallo, drwy y gorphwysiadau amserol hyn, esmwythau ar y llafar-beiriannau, y rhai, pe amgen, a ymffinent yn fuan drwy weithrediad didor. I'r gwrandawydd, fel y byddo i'r glust hefyd gael ei hesmwythau oddiwrth y lludded, yr hwn, heb hyny, a ddyoddefai oddiwrth barhad diymbaid y swm; ac fel y gallo y deall gael amser digonol i nodi gwahanrediad yr ymadroddion, a'u hamrywiol ranau.

Y mae dau fath o orphwysiadau: yn gyntaf, gorphwysiadau lleisbwysol; ac, yn nesaf, y cyfryw ag a ddynodant amrywiaethau yr ystyr. Gwneir gorphwysiad lleisbwysol wedi fod rhywbeth o bwys neillduol yn cael ei draethu, ac at ba un yr ydym yn chwennych cyfeirio ystyriaeth y gwrandawydd. Weithiau, cyn y dywedir y cyfryw beth, arweiniwn ef i mewn gyda gorphwysiad o'r natur yma. Y cyfryw orphwysiadau a feddant yr un effaith a lleisbwysiad trwm, ac y maent yn ddarostyngedig i'r unrhyw reolau, yn enwedig i'r rhybudd o beidio eu had-wneuthur yn fnyuch. Canys, gan eu bod yn cyffroi sylw anngyffredin, ac, o ganlyniad, yn achlysuero dysgwyliaid, oni bydd pwys y mater yn cyfateb yn gyflawn i'r cyfryw ddysgwyliaid, y maent yn peri siomedigaeth ac anfoddlonedd.

Eithr arferiad penaf a mynychaf gorphwysiadau sydd er nodi rhaniadau yr ystyr, ac, ar yr un amser, i ganiatau i'r llefarwr gymeryd ei anadl; ac y mae trefniad priodol a

destlus y cyfryw orphwysiadau, yn un o'r pethau mwyaf dichlynaidd ac anhawdd mewn parabliad. Mewn pob math o ddarlleniad ac areithyddiaeth, y mae triniad yr anadl yn gofyn cryn lawer o ofal, fel ag i beidio gosod angenrhaid arnom i wahanu geiriau oddiwrth eu gilydd, y rhai sydd a chysylltiad mor agos rhyngddynt fel y dylent gael eu traethu â'r un anadliad, ac heb y gwahaniad lleiaf. Anafir amryw ymadroddion yn druenus, a llwyr gollir grym y lleisbwys, drwy wneuthur y gwahaniadau mewn lleoedd annghymhwys. Er gochelyd hyn, dylai pob un, tra fyddo yn llefaru neu ddarllain, ofalu llawer i ragddarparu cyflawnder dibrin o anadl gogyfer a'r hyn ag sy ganddo i'w draethu. Camsyniad mawr yw dychymygu na ddylid cymeryd anadl yn unig ond ar ddiwedd ymadrodd, pan y caniateir i'r llais ostwng. Gellir ei gasglu yn hawdd yn yr encyd rhwng y diweddnodau, lle yr attelir y llais ond am fynydyn; a, thrwy y dull hwn, geill un yn oestad gael ystôr digonol o anadl i ddwyn yn mlaen yr ymadrodd hwyaf, heb rwystrau anmhriodol.

Dylid ffurfio gorphwysiadau wrth ddarllain ac ymadroddi yn gyhoeddus, yn ol y dull y byddwn yn mynegu ein meddyliau mewn ymddyddanion cyffredin synwrol; ac nid yn ol y dull anhyblyg celfyddydol a gyrhaeddwn wrth ddarllain llyfrau yn ol y gwahannodiad cyffredin. Nid ydyw mewn un modd yn ddigonol i sylwi ar y nodau a arferir wrth argraffu; oherwydd y mae y rhai hyn yn mhell o amlygu yr holl orphwysiadau a ddylid wneyd wrth lefaru. Sylwad diesgeulus ar y gorphwysiadau hyn, sydd wedi bod, ysgatfydd, yn un achos o undonyddiaeth, drwy arwain y darllenydd i gyffelyb dôn ar bob attalnod, a disgyniad unffurfiol yn y sain ar bob diweddeb. Prif ddefnydd yr attalnodau yw cynorthwyo y darllenydd i ganfod y

gystrawen lythyregol ; ac nid yw llywodraethu ei barabliad yn unig ond ail wrthddrych iddynt.

Er peri fod y gorphwysiadau yn hyfryd a chynwysfawr, rhaid eu gwneyd nid yn unig yn yr iawn le, eithr hefyd fod sain priodol o'r llais yn cydfyned â hwynt, drwy yr hyn yr arwyddoceleir natur y gorphwysiadau hyn ; lawer mwy na thrwy eu hyd, yr hyn nid ellir ond anfynych ei fesur yn gywir. Weithiau, attaliad byr o'r llais yn unig sydd yn briodol ; weithiau, gofynir gradd o ddisgyniad yn y llais ; ac weithiau, y dôn neillduol hono a'r disgyniad yn y llais a ddynodant fod yr ymadrodd wedi ei orphen. Yn yr holl achosion hyn, yr ydym i lywodraethu ein hunain drwy ystyried y dull y dysg anian ni i lefaru pan wedi cychwyn ymddyddan gwirioneddol a difrifol ág ereill.

Y mae yn rheol gyffredinol, fod y gorphwysiad attaliol i gael ei ddefnyddio pan fydd yr ystyr yn anghyflawn ; a'r gorphwysiad diweddol, pan fydd wedi ei orphen. Ond y mae ymadroddion, yn mha rai, er fod yr ystyr yn anghyflawn, eto cymer y llais y gorphwysiad diweddol yn hytrach na'r attaliol ; ac ereill, yn mha rai y diwedda yr ymadrodd gyda'r gorphwysiad attaliol.

Dylid peidio cyd-gymysgu y gorphwysiad diweddol â'r disgyniad hwnw yn y llais ag y mae amryw ddarllenyddion yn unwedd yn terfynu eu hymadroddion ág ef. Nid oes dim yn fwy dinystriol i briodoldeb a nerth ymadrodd na'r arferiad hwn. Dylai tonau a throadau y llais ar ddiwedd ymadrodd, gael eu hamrywio yn ol natur gyffredinol yr ymddyddan, a chyfansoddiad ac ystyr neillduol yr ymadrodd. Mewn adroddiad diaddurn o beth, ac yn enwedig mewn ymresymiad, ychydig sylw o'r dull yn yr hwn yr adroddwn ryw wirionedd, neu y cynaliwn ddadl, mewn ymddyddan, a ddengys fod yn fynych yn fwy priodol

dyrchafu y llais na'i ostwng ar ddiwedd ymadrodd. Y mae rhai ymadroddion wedi eu cyfansoddi yn y fath fodd fel y gofyn y geiriau diweddaf drymach lleisbwys na neb o'r rhai blaenorol, tra y goddef ereill eu gorphen mewn sain araf, fwynaid. Lle nid oes dim yn yr ystyr yn gofyn fod y sain ddiweddaf yn ddyrchafedig neu bwysig, bydd disgyniad esmwyth, digonol i amlygu fod yr ystyr yn orphenedig, yn briodol. Ac mewn darnau serch-ddeffrous o ymadrodd, yn enwedig rhai cwynfanus, tyner, neu ddifrif-ddwys, bydd tòn cynhyrfiad y meddwl, yn fynych, yn gofyn disgyniad is fyth yn y llais. Y drefn oreu i ddiwygio disgyniad unffurfiol y llais, ydyw darllain yn fynych *ymadroddion detholedig*, yn mha rai y bydd yr iaith yn bigawglen, a *gwrthosodiadau* wedi eu dwyn i mewn yn fynych iddynt; a darnau rhesymiadol, neu gyfryw ag ydynt lawn o arholion, neu ddolefau taerlew.

### 2. *Am yr Aceniad.*

Trwy gyfeirio yn ol at tu dalen 32, cenfydd y darllenydd ein bod wedi traddodi darlith helaethlawn ar y pwnc uchod; ac felly bernir mai difudd ydyw ail-adrodd y sylwadau a wnaed yno, yn y lle hwn.

### 3. *Am y Lleisbwys.*

Wrth leisbwys y meddylir sain cryfach a llawnach y llais, drwy ba un y gwahaniaethwn ryw air neu eiriau y bwriadwn osod pwys neillduol arnynt, ac i ddangos pa fodd y gwasgant ar y rhelyw o'r ymadrodd. Weithiau rhaid gwahaniaethu y geiriau pwysig hyn gyda thôn neillduol o'r llais, yn gystal a chyda mwy o rym.

Ar iawn-driniaeth y lleisbwys y mae bywyd llefariad yn ymddibynu. Oni osodir y lleisbwys ar unrhyw air, nid

yn unig gwneir ymddyddan yn drymlyd a difywyd, ond gadewir meddwl yr ymadrodd yn fynych mewn anmheuaeth. Os camosodir y lleisbwys, gwyrddrown a dyrswyn y meddwl yn hollol. Cynllun cyffredin a amlyga hyn. Gall y fath ofyniad syml a hwn, *A ydych chwi yn marchogaeth i'r dref heddyw?* gynwys dim llai na phedwar o wahanol ystyriaethau, yn ol y gwahanol ddull o osod y lleisbwys ar y geiriau. Os eu llefarir fel hyn, *A ydych chwi yn marchogaeth i'r dref heddyw?* geill yr ateb fod yn naturiol, *Nac ydym, eithr anfonwn was yn ein lle.* Os fel hyn, *A ydych chwi yn marchogaeth i'r dref heddyw?* atebir, *Na, yr ydym yn bwriadu rhodio.* *A ydych chwi yn marchogaeth i'r dref heddyw?* *Na, yr ydym yn marchogaeth i'r wlad.* *A ydych chwi yn marchogaeth i'r dref heddyw?* *Nac ydym, eithr gwnawn felly y fory.* Yn y cyffelyb fodd, mewn ymddyddanion difrifol, y mae holl nerth a phrydferthwch yr ymadrodd yn ymddibynu ar y gair pwysig; a gallwn gyflwyno i'r gwrandawyr olygiadau cwbl wahanol ar yr un syniadau, drwy gyfnewid y lleisbwys. Yn y geiriau canlynol o eiddo ein Hiachawdwr, sylwer pa olygiadau gwahanol a drosglwyddir i'r meddwl, yn ol fel y llefarir y geiriau:—*Judas, ai â chusan yr wyt ti yn bradychu Mab y dyn?* *Ai â chusan,* sydd yn troi pwys y gwaradwydd ar ei waith yn gwael-ddarostwng arwyddnod heddwch a chyfeillgarwch i ddybenion dinystriol a cholledigol. *Ai â chusan yr wyt ti,* sydd yn peri iddo orwedd ar gyd-berthynas Judas a'i Feistr. *Ai â chusan yr wyt ti yn bradychu,* sydd yn ei osod ar yr anair o fradwriaeth. *Ai â chusan yr wyt ti yn bradychu Mab y dyn?* sydd yn ei adael i orphwys ar nodwedd priodol ac enwogrwydd ein Hiachawdwr.

Y mae y lleisbwys yn gorwedd yn fynych ar y gair a

gynyg holiad ; megys, *Pwy* ddywedodd felly? *Pa bryd* y daw efe? *Pa beth* a wna? *Paham* yr wyli? A phan osodir dau air mewn cyferbyniad neu wrthwynebiad i'w gilydd, byddant eill dau yn bwysig ; megys, *Gorthrymydd*, ac nid *tad*, ei bobl yw efe. Y mae ei ddeiliaid yn ei *ofni* ef, ond nid ydynt yn ei *garu*.

Y mae rhai ymadroddion mor llawn a chynwysfawr, fel y bydd bron bob gair ynddynt yn bwysig ; megys, *Chwi fryniau a dyffrynoedd*, *chwi afonydd*, *coedydd*, a *gwastudedd* ; neu yr ymresyniad serch-gyffrous hwnw yn mhrophwydoliaeth Ezeziel, *Paham y byddwch feirw?* Yn yr ymadrodd byr diweddaf hwn, y mae pob gair yn bwysig ; ac ar ba air bynag y gosodwn y pwys, ai ar y cyntaf, yr ail, y trydydd, neu y pedwarydd, y mae yn cyfleu ystyr gwanol, ac yn agor testun newydd o ymedliwiad cynhyrfus.

Fel y mae acen yn hynodi y sill ar ba un ei gosodir, ac yn peri i'r glust ei chlywed yn fwy croyw-egllur na'r lleill ; felly y mae y lleisbwys yn ardderchogi y gair i ba un y perthyna, ac yn ei gyflwyno mewn goleuni cryfach i'r deall. Pe na byddai acenion, dattodid geiriau i'w sillau cysefin ; ac o'r tu arall, pe na byddai lleisbwys, dadgysylltid ymadroddion i'w geiriau dechreuol ; ac, fel hyn, byddai y gwr-andawydd dan yr angenrheidrwydd poenus, yn gyntaf, o olrhain y geiriau, ac wedi hyny, eu hystyr.

Lleisbwys sydd o ddau fath, sef unigol a chyfansawdd. Unigol, pan fydd yn gwasanaethu i nodi ystyr amlwg unrhyw gyfansoddiad yn unig ; cyfansawdd, pan, heblaw yr ystyr, y bydd yn nodi hefyd ryw serch neu gynhwrf yn y meddwl, neu yn rhoddi ystyr i eiriau yr hwn ni feddant yn eu harwyddocad arferol. Yn yr achos blaenorol, nid yw lleisbwys braidd yn ychwaneg nag aceniad trymach, gydag ychydig neu ddim cyfnewidiad yn y sain neu oslef ; ond



pan fydd yn gyfansawdd, heblaw grym, y mae hefyd gyfnewidiad amlwg yn y dôn yn cael ei ychwanegu yn wastad.

Yr ymadrodd canlynol a gynwys gynllun o leisbwys unigol:—A dywedodd Nathan wrth Dafydd, *Ti yw y gwr*. Y lleisbwys ar *ti*, a wasanaetha yn unig i nodi meddwl y llefarydd. Eithr yn yr ymadrodd canlynol, canfyddwn gyffroad yn meddwl y llefarydd wedi ei orychwanegu at yr ystyr unigol:—*Paham y byddwch feirw?*

Fel y syrthia y lleisbwys yn fynych ar eiriau mewn gwahanol ranau o'r un ymadrodd, felly gofynir iddo yn fynych gael ei barhau, gydag ychydig amrywiaeth, ar ddau, ac weithiau ar dri gair olynol. Yr ymadrodd canlynol a eglura ddwy ran y gosodiad hwn:—Os chwennychwch wneuthur un yn *gyfoethog*, nac ymgeisiwch i *ychwanegu ei ystôr*, eithr i *leihau ei ddymuniadau*. Gellir dosparthu lleisbwys yn mhellach, i leisbwys ysgafn a thrwm. Yn yr ymadrodd, *Gwaith a chymedrollder a gryfhant ansawdd y corff*, ni a ganfyddwn fwy o rym ar y gair *cryfhant*, nag ar un arall; er nad yw gymaint a'r pwys a osodir ar y gair *canolig*, yn yr ymadrodd canlynol:—*Gwaith a chymedrollder a gryfhant hyd yn nod gyfansoddiad canolig*. Hefyd, priodol ydyw sylwi, fod y geiriau *gwaith*, *cymedrollder*, ac *ansawdd corff*, yn yr anghraifft ddiweddaf ond un, yn cael eu llefaru gyda mwy o nerth na'r llythyrenau *a* ac *y*; ac eto nid ellir galw y geiriau hyn yn bwysig, oherwydd nid yw y pwys a osodir arnynt yn fwy na digon i drosglwyddo meddwl pob gair yn groyw-egllur. Oddiwrth y sylwadau hyn, ymddengys fod y rhanau lleiaf o ymadrodd, sef y bannodau, y cysylltiadau, yr arddodiadau, &c., yn gyffredin, yn cael eu llefaru yn anamlwg ac ysgafn; fod yr enwau cedyrn, y parwyddiaid, a'r geiriau mwyaf ystyrbell, yn cael eu seinio yn nerthol ac eglur; ac fod y geiriau

pwysig, y rhai a ddynodant feddwl yr ymadrodd, yn cael eu traethu gyda phwys ac egni neillduol, er eu bod yn amrywio yn ol gradd eu pwysfawredd.

I'r dyben o gyrhaedd iawn-driniaeth y lleisbwys, y rheol fawr, ac yn wir yr unig reol a ellir ei rhoddi, yw, fod i'r llefarwr neu ddarllenydd geisio cyrhaedd amgyffred cywir o rym ac ystyr y syniadau y mae efe i'w traethu. Oherwydd y mae gosod y lleisbwys gyda phriodoldeb cywir, yn ymarferiad parhaus o synwyr treiddgar ac ystyriaeth. Y mae yn mhell o fod yn gyrhaeddiad digyfrif; eithr yn un o'r profion amlycaf o archwaeth uniawn a chywir; a rhaid iddo ddeillio oddiar deimlad tyner ynom ein hunain, a barn gynnill pa beth sy gymhwysaf i daraw teimladau ereill.

Y mae un amryfusedd y bernir yn gymhwys neillduol i rybuddio y dysgadur rhagddo, sef lluosogi geiriau pwysig yn ormodol. Trwy arferiad synwryol o honynt yn unig, y gallwn roddi iddynt unrhyw bwys. Os ymgyrchant yn rhy fynych; os bydd areithiwr neu ddarllenydd yn ymgeisio i wneyd pob gair a lefaro o fawr ganlyniad, drwy luaws o leisbwysau trymion, ni a ddysgwn yn fuan i dalu ond ychydig sylw iddynt. Pentyru pob ymadrodd â geiriau pwysfawr, sy fel pentyru dail llyfr â llythyrenau Italaidd, yr hyn, o ran yr effaith o hono, sydd yr un fath a phe nad arferid y cyfryw wahaniaethiad oll.

#### 4. *Am y Disgynsain.*

Y disgynsain sydd wahanol oddiwrth y lleisbwys a'r gorphwysiadau, ac y mae yn gynwysedig yn nghyweiriad y llais, a'r nodau neu yr amrywiaethau sain a ddefnyddiwn i fynegu ein syniadau.

Y lleisbwys a gyrhaedd eiriau ac ymadroddion neillduol gyda gradd o dôn neu droad yn y llais; eithr y mae y

disgynsain yn cyrhaedd ymadroddion, gwahan-ranau o ar-eithiau, ac weithiau hyd yn nod ymddyddanion cyfain.

Er dangos defnydd ac angenrheidrwydd disgynsain, ni raid i ni ond sylwi, fod y meddwl, wrth wneuthur ei amgyffredion yn adnabyddus, mewn cyflwr parhaus o fywiogrwydd, cyffroad, neu gynhyrriad, oddiwrt h y gwahanol effeithiau a bâr yr amgyffredion hyny ar y llefarwr. Yn awr, gan mai dyben y cyfryw fynegiad yw, nid yn unig gosod yr amgyffredion yn agored, eithr hefyd yr amrywiol deimladau a gyffroir ganddynt yn y traethadur, rhaid fod arwyddion ereill, heblaw geiriau, i amlygu y teimladau hyny; gan nad all geiriau a lefarir mewn dull undonaidd, ond yn unig gosod allan gyflwr cyffelyb o eiddo y meddwl, yn berffeith-gwbl rydd oddiwrt h bob bywiogrwydd neu gynhyrriad. Gan fod cyfraniad o'r teimladau tufewnol hyn o lawer mwy canlyniad yn ein hymgystlyniaeth cymdeithasol, na throsglwyddiad syniadau yn unig, ni wnaeth Awdwr ein hanfod, fel yn y trosglwyddiad hwnw, adael dychymygiad iaith yn dynodi cyffroad y meddwl, i ddyn; ond a'i hargraffodd ei hun ar ein natur yn gyfunddull â'r rhelyw o'r anifeiliaid, y rhai ydynt oll yn traethu eu hamrywiol deimladau drwy donau gwahanol. Y mae ein heiddo ni yn wir, oddiwrt h y radd uwch a feddiannwn, yn llawer mwy cynwysfawr; gan nad oes gymaint a gweithred o eiddo y meddwl, ymegniad yn y dychymyg, neu gynhyrriad yn y galon, heb nod lleisiol, drwy yr hwn ei gosodir allan, ac wedi ei gyfaddasu yn gywir at radd y teimlad tufewnol. Yn y defnyddiad priodol o'r tonau hyn, yn benaf, y mae bywyd, ysbryd, prydferthwch, a chysondeb parabliad yn gynnwysedig.

*Serch* a osodir allan gyda sain esmwyth, araf, a hynaws; *digllonedd*, gyda sain cryf, llym, ac angerddol; *llawenydd*,

gyda sain fywiog, hyawdl, a melusber ; *tristwch*, gyda sain isel, athrist, a galarus ; *ofn*, gyda sain arswydol, llesg, a chrynedig ; *dewrder*, gyda sain hyderus, diarswyd, a dyrchafedig : ac felly pob cyffroad arall yn gyfatebol i'w anian.

Geill dyfyniadau o alarnad brydferth Dafydd uwch ben Saul a Jonathan, fod yn ddefnyddiol fel cynllun i egluro yr hyn a ddywedwyd ar y pwnc hwn.

*O ardderchogrwydd Israel, efe a archollwyd ar dy uchelfaoedd di : pa fodd y cwmpodd y cedyrn !*

*Nac adroddwch hyn yn Gath : na fynegwch hyn yn heol-ydd Ascelon : rhag llawenychu merched y Philistiaid, rhag gorfoleddu o ferched y rhai dienwaededig.*

*O fynyddoedd Gilboa, na ddisgyned arnoch chwi wllith na gwlaw, na maesydd o offrymau : canys yno y bwriwyd ymaith darian y cedyrn yn ddirmygus, tarian Saul, fel pe buasai heb ei eneinio ág olew.*

Y gyntaf o'r rhanau hyn a esyd allan dristwch a galar ; am hyny y mae y sain yn isel. Y nesaf a gynwys archiad bywiog, a dylai gael ei llefaru yn llawer uwch. Yr ymadrodd arall, lle y gwna efe gyfeiriad serch-ddeffrous at y mynyddoedd ar ba rai y lladdwyd ei gyfeillion, sy raid ei ddatgan mewn sain llwyr wahanol oddiwrt h y ddau flaenaf ; sef, nid mor isel a'r cyntaf, nac ychwaith mor uchel a'r ail, ond mewn llais gwrol, grymus, ac eto cwynfanus.

Nid yw yr iaith gywir a naturiol hon o eiddo cynhyrfiadau y meddwl, mor anhawdd ei chyrhaedd ag y dychymyga y rhan fwyaf o ddarllenwyr. Os treiddiwn i ysbryd syniadau yr awdwr, yn gystal ag i feddwl ei eiriau, ni fethwn draddodi ei eiriau mewn sain amrywiedig priodol. Oherwydd nid oes ond ychydig bobl na fedrant wneyd defnydd addas o'r lleisbwys, y gorphwysiadau, a'r disgynsain, pan fyddant yn traethu eu meddyliau mewn ymddy-

ddan difrifol: a'r achos nad allant wneyd yr un defnydd o honynt wrth ddarllain meddyliau ereill yn uchel, a ellir ei briodoli i'r dull tra diffygiol a chyfeiliornus, yn mha un y dysgir y gelfyddyd o ddarllain; drwy yr hyn y mae holl amrywiol seiniau naturiol ac ystyrfawr ymadrodd yn cael eu mogi, ac ychydig o ddarllain-nodau celfyddydol, diystyr, yn cael eu gosod yn eu lle.

Ond pan ydym yn gorchymyn i ddarllenwyr ystyried tŷn ac iaith cyffroadau y meddwl, rhaid deall ein bod yn gwneyd hyny gyda therfyniad priodol. Cymedrolder sydd angenrheidiol yn y pwnc hwn, fel mewn pethau ereill. Oherwydd pan fydd darllain yn myned megys yn ddynwardol, y mae yn cymeryd dull chwareyddol, a rhaid iddo fod yn dra anghymhwys, yn gystal a rhoddi tramgwydd i'r gwrandawyr; oherwydd y mae yn anghyson â'r dillynder a'r gorchwyledd hwnw, ag sydd, ar bob achlysur, yn anhebgorol.

---

PENNOD IX.—*Sylwadau Beirniadol ar y Cyfieithiad Cymreig o'r Bibl, ac ar yr Iaith yn gyffredinol.*

Nid yw ymdrin â phethau yn niweidiol, oni wneir hyny mewn modd anaddas. Tywys ymchwiliad i ddiwygiad, ac y mae diwygiad yn lleshad: felly, hyderir na fydd ychydig eiriau ar y pen uchod yn annerbyniol gan y darllenydd.

Addefir gan bawb dynion gwybodus, mai tra chywir o ran sylwedd yw y cyfieithiad Cymreig o'r Bibl; eto ymddengys i mi y cynwys lawer a ellir eu gwellhau, yn enwedig yn y rhanau prydyddol, megys Job, y Salmau, a'r Prophwydi. Go rydd, i'e a rhy helaeth yw yr ymadrodd. Dylai fod yn fyrach a chynwysach: y mae eisieu ei dal-fyru, a gosod y geiriau mewn trefn wahanol, fel y cadwer

y rhediad prydyddol, ac y gosoder allan y synwyr yn fwy cryno, ac felly yn fwy grymuslawn. Gellid, tybygwyf, gwneuthur hyn heb ei dywyllu; ond, i'r gwrthwyneb, gosodid ef yn oleuach, gan ei ddangos yn fwy eglur. Dyma gynnelwad o Salm cii. 14:—

“Oblegyd y mae dy weision yn hoffi ei meini,  
Ac yn tosturio wrth ei llwch hi.”

Pa faint gwell, byrach, a thaclusach, fel hyn, yn ol trefn y geiriau yn yr Hebraeg?

“Oblegyd hoffa dy weision ei meini,  
Ac wrth ei llwch y tosturiant.”

Trwy y Bibl yn gyffredin, canfyddwyf ddau beth arbenig, tra niweidiol i ansawdd a chadernyd yr iaith, a ellid yn hawdd eu diwygio; sef, yr arferiad parhaus o'r parwyddiaid cynorthwyol mewn cysylltiad â'r prif barwyddiaid, er dynodi rhif, personau, ac amserau y cyfryw, yn lle defnyddio y terfyniadau rheolaidd a phriodol i'r angenrheidiau hyny; megys, *gwnaf adrodd, gwnawn ddangos, gwnant ymborthi, gwneir amlygu, &c.*, yn lle *adroddaf, dangoswn, ymborthant, amlygir, &c.*: hefyd yr arfer o ddefnyddio y rhagenwau yn ormodol ac yn afreidiol. O barth amser cyndrychiol parwyddiaid, y mae y Gymraeg yn cyfateb yn hollol i'r Hebraeg: arfera y ddwy yr amser dyfodol yn ei le. Talfyra hyn yr ymadrodd yn fawr yn y Gymraeg, heb wneuthur un terfysg, na pheri un tywyllwch yn y synwyr, ond yn hytrach ei drosglwyddo yn fwy goleu ac yn gadarnach. Cymerer y cynnelwad canlynol o Diar. i. 20:—

“Doethineb sydd yn gwaeddi oddi allan;  
Y mae hi yn adrodd ei lleferydd yn yr heolydd.”

Ai nid rhagorach o lawer fyddai yr adnod fel hyn, ac air yn ngair o'r Hebraeg, yr amser dyfodol yn dynodi amser cyndrychiol?

“Doethineb a waedda oddi allan ;  
Yn yr heolydd yr edrydd ei lleferydd.”

Am y rhagenwau, defnyddir hwynt yn ormodol mewn dwy sefyllfa ; sef, o flaen parwyddiaid, ac yn ddyblyg gydag enwau cedyrn. Nid oes yn ein hiaith ni ond ychydig iawn o angen rhagenwau o flaen parwyddiaid, gan y cynwysant y dynsawd yn eu terfyniadau, yn gyffelyb i'r Lladin, Groeg, a'r Hebraeg. Y mae rhyw wastraff neillduol yn ein cyfieithiad presennol yn yr ystyr hwn. Pa ddefnydd yw y rhagenw *hi* ddwywaith yn yr adnod a ganlyn y ddiweddaf a gyfeiriwyd ati ?

“Y mae hi yn llefain yn mhrifleoedd y dyrfa, yn nrysau y pyrth ;  
Yn y ddinas y mae hi yn traethu ei hymadroddion.”

Pa faint gwell fyddai cyfieithu yr adnod fel hyn ?

“Yn mhrifleoedd y dyrfa y llef ; yn nrysau y pyrth :  
Yn y ddinas, ei hymadroddion a draetha.”

Gosodir y rhagenw, yn ein hiaith ni, o flaen yr enw cadarn ; a phan fyddo pwys neillduol arno, gosodir un hefyd ar ei ol ; megys, *ei eiriau ef*, pan feddylir am eiriau rhywun penodol. Heblaw hyn, nid oes achos ei ddefnyddio yn ddyblyg : arferiad diles a disynwyr yw. Canfyddwn y bai hwn bron yn mhob adnod : ac nid llawer anamlach ydynt y beiau ereill.

Llesiol, yn ddianmheu, fyddai diwygiadau o'r fath hyn. Byddai yn hawddach darllain yn ddealladwy, gan y byddai yn hawddach rhoddi y lleisbwys yn ei le priodol. Hefyd cynwysid y Bibl mewn llai cylch, a hyny nid o ychydig : byddai y cyfieithiad yr un ag yw yn awr ; ond byddai yr iaith yn rhagorach, mewn trefn daclusach, a mwy grymus.

Bai anafus arall yw rhoddi *cymhariaeth ddyblyg* i'r enw gwan ; megys, *mwy haws, mwy parotach, &c.* Gwelir hwn, weithiau, hyd yn nod yn ngweithiau awduron da ; ac

am hyny, dylid rhoddi llai fyth o nawdd iddo, oherwydd tueddrwydd ieithwyr ieuainc i ganlyn brisg eu traed.

Arfer arall, niweidiol i burdeb a thelediwrwydd iaith, yw cwtogi, cyfnewid, a thalfyru geiriau yn ormodd; megys, *d'we'yd, t'w'llwch, erio'd, gwaetha', &c.*, yn lle *dywedyd, tywyllwch, erioed, gwaethaf, &c.* Y mae llygredigaethau cyffelyb i hyn wedi parhau cyhyd, nes gwyro ac anurddo perffeithrwydd cysefin yr iaith, mewn mesur mawr, yn ei llefariad; a meibion yr awen ydynt, yn benaf, yn gyfrifol am y cyfryw gyfeiliornadau, y rhai a'u harferant yn eu cathlau i achub y mydr neu y brifodl; oherwydd nid oes achos yn y byd wrthynt mewn rhyddiaith; ond y maent yn hynod o gyfleus i'r diog, y diddysg, a'r diddychymyg, yn eu cynygiadau prydyddol. Y mae y nod talfyriadol a arferir yn dangos fod rhyw ddiffyg yn y lle yr arferir ef. Ond paham na ddylai fod yn gyflawn? Ysgatfydd yr atebir, mai er *llyfnhau* yr iaith yr arferir ef. Ond gadawer i bob Cymro diragfarn farnu a ydynt y fath ymadroddion a hyn yn anllyfn neu arw, drwy adael y sillgoll allan. Y mae goleuni newydd yn tori allan yn mhob oes o'r byd, a diwygiadau helaeth yn cael eu gwneuthur mewn agos bob math o beth, yn ieithoedd, celfyddydau, a gwybodau; ac onid yw yn llawn bryd i loywi y Gymraeg, bellach, drwy ei hamddiffyn rhag gosgordd adfail a welir yn nglyn â'r cyffelyb amnhuredd?

Gwall arall a welir yn fynych, yn enwedig mewn pryd-yddiaeth, yw arfer terfyniad dyblyg ac afreolaidd iawn i'r enw gwan; megys, *serchusol, iachusol, hoffus, pereiddiol, siriolus, dedwyddol, &c.* Beth a ddywedid am gyfansoddiad Seisonig a gynwysai y fath eiriau a hyn, *lovelious, healthious, happious, generalous?* &c. Beth, ond ei sarnu dan draed, ac ymwrthod âg ef yn hollol. Er hyny, rhaid



addef fod arferiad, yn yr anghraifft hon, wedi dwyn y bēl yn anadferadwy oddiar briodoldeb.

Y moddion goreu er cynydd a chadwedigaeth y Gymraeg, yw darllain y Bibl Cymreig; oherwydd yn ddilys, er y gellir nodi llawer o anmherffeithrwydd ynddo, nid oes gwell Cymraeg mewn un llyfr a feddwn nag yn y llyfr gwerthfawr hwnw. Geiriadur Ysgrythyrol y diweddar Mr. T. CHARLES, sy ragorol er cael geiriau addas i osod allan wahanol ysgogiadau ein meddyliau, a hyny yn eu hystyr mwyaf naturiol ac eglur. Y Bardd Cwsg a olygir yn cynwys iaith rwydd, eglur, a blodeuog. Drych y Prif Oesoedd a gynwys iaith redegog ac eglur. Diffyniad Ffydd Eglwys Loegr o waith yr Esgob JEWELL, cyfieithiedig gan MORUS KYFFIN, sy ragorol fel cynllun o brydferthwch yr iaith. Holl waith y Dr. W. O. PUGHE, a gynwys fyrder ymadrodd, perffeithrwydd llythyregol yn ei holl ranau, megys treigliad y parwyddiaid, cadwraeth y moddau, yn nghyda digonedd o eiriau at bob galwad, a llawer o ddiwygiadau llesiol. Cyfieithu ac argraffu llyfrau buddiol ar grefydd a chelfyddydau, a fyddent gyda y moddion goreu at y dyben mawr mewn golwg; a bydded i holl Gymdeithasau ac Eisteddfodau Cymru gyd-ymegnio dros gefnogi y cyfryw gynygiadau, ac i wyliaw na chefnogont gyhoeddiadau gwaelion o sylwedd, a llygredig o iaith.

Gan fod ein hiaith wedi gorfyw y llifeiriant gorwylltaf, y tymhestloedd aruthrolaf, a'r elyniaeth greulonaf, nid oes bellach berygl am ei pharhad: ond os colledwyd hi yn ei thrwsiad, os yspeiliwyd hi o ran ei chyfoeth, ac os anharddwyd hi o ran ei morwynig wedd, drwy ryferthwyon o bob natur, pa ryfeddod yw? Ymwrolwn, gan hyny, yn fwy o'i phlaid; adferwn iddi ei gwisgoedd a'i chyfoeth; a throsglwyddwn hi yn bur i'r oes a ddel.

PENNOD X.—*Am Reithioreg.*

Rheithioreg yw y gelfyddyd o lefaru neu ysgrifenu yn gymhwys a dyladwy ar unrhyw destun, ac hefyd gyda harddwch, ysbrydolder, ac ardderchogrwydd, er mwyn athrawiaethu, cynghori, a boddhau, yn rhinweddol ac ewybrgoeth.

Oherwydd fod iaith droellog yn cael ei defnyddio mewn bron bob ymadrodd, a phan ei hiawn-arferer yn cyfranu prydferthwch a grym i'r cyfansoddiad, ymddengys fod peth gwybodaeth am dani yn anhebgorol i rai a ddysgant ffurfio eu hymadroddion yn eglur a nerthol; gan hyny rhoddir cyfrif yma o'r prif droellau, yn nghyda pheth eglurhad arnynt.

Yn gyffredinol, troellau ymadrodd a gynwysant ryw ymadawiad oddiwrth symlrwydd dywediad; traethir meddyl-ddrych a fwriadwn ei drosglwyddo mewn dull neillduol, a chyda rhyw amgylchiad ychwanegol, yr hwn a amcenir i wneuthur argraffiad mwy cryf a bywiog. Er cynllun: pan ddywedwyf, *Y mae gwr da yn mwynhau cysur yn nghanol adfyd*, yr wyf yn datgan fy meddyliau yn y dull symlaf; ond pan ddywedwyf, *I'r uniawn y cyfyd goleuni mewn tywyllwch*, traethir yr un syniad mewn iaith droellog; amgylchiad newydd a arweinir i mewn, *goleuni* yn cael ei osod yn lle *cysur*, a *thywyllwch* a arferir i ddarlunio y drych ffurfiedig yn y meddwl am *adfyd*. Felly dywedyd, *An-nichonadwy yw, drwy unrhyw chwiliad a allwn wneuthur, i gael allan y Duwdod yn gyflawn*, sy gyflead o osodedigaeth syml; ond pan ddywedwn, *A elli di wrth chwilio gael gafael ar Dduw? a elli di gael yr Hollalluog hyd berffeithrwydd? Cyfuwch â'r nefoedd ydyw, beth a wnei di? Dyfnach nag uffern yw, beth a elli di wybod?* dyg hyn droell i mewn i'r iaith; gan fod nid yn unig y gosodedig-

aeth yn cael ei fynegu, ond hefyd gydag ef syndod a rhyfeddod.

Eithr er y cynwys troellau wyrad oddiwrth yr hyn a gyfrifwn y dull symlaf o ymadrodd, nid ydym i gasglu oddiwrth hynny y cynwysant unrhyw beth anngyffredin neu annaturiol. Ar lawer achlysur, hwy ydynt y drefn fwyaf naturiol a chyffredin o draethu ein syniadau. Byddai yn dra anhawdd cyfansoddi ymddyddan heb eu harfer yn fynych; i.e., nid oes ond ychydig ymadroddion hirion, heb fod rhywbeth a ellir ei alw yn droell yn dygwydd ynddynt. Gan hynny, gwelwn yr angenrheidrwydd o beth ystyriaeth, i'r dyben o ddeall eu natur a'u defnyddioldeb.

Ar gychwyniad cyntaf iaith, dechreuai dynion roddi enwau i'r amrywiol wrthddrychau a ganfyddent neu a feddylient am danynt. Yr oedd y casgliad o eiriau y pryd hwnw yn fychan iawn. Fel y lluosogai amgyffrediaid dynion, ac yr ychwanegai eu cydnabyddiaeth â gwrthddrychau, eu casgliad o enwau a geiriau a luosogai hefyd. Eithr i'r amrywiaeth aneirif o wrthddrychau a syniadau, nid oes un iaith yn gyfartal. Ceisiodd dynion yn naturiol gwtogi y llafur o luosogi geiriau yn ddiddiwedd; ac, i'r dyben i osod llai baich ar eu cof, gwnaethant i un gair, yr hwn a briodolasent eisoes i ryw dyb feddyliol neu wrthddrych neillduol, sefyll hefyd am ryw dyb neu wrthddrych arall, rhwng pa rai y cawsent neu y dychymygasent fod rhyw berthynas. Enwau gwrthddrychau teimladwy oedd-ynt y geiriau a arweiniwyd i mewn gyntaf; ac, o radd i radd, helaethwyd hwynt at y gwrthddrychau meddyliol hynny y rhai ni feddai dynion ond amgyffredion tywyllach am danynt, ac i ba rai yr oedd yn anhawddach iddynt roddi enwau gwahanredol. Benthyciasant, gan hynny, enw rhyw feddylddrych teimladwy, lle y canfu eu dychymyg

fod rhyw gyd-berthynas rhyngddynt. Felly soniwn am farn *dreiddgar* a phen *goleu*, calon *dyner* neu *galed*, ymddygiad *llym* neu *fwyn*; dywedwn am un wedi *enyn* gan ddigofaint, wedi *gwresogi* gan gariad, wedi *ymchwyddo* gan falchder, wedi *toddi* gan ofid: a dyma bron yr unig eiriau grymus a feddwn i fynegu y cyfryw amgyffredion.

Prif fanteision troellau ymadrodd ydynt y canlynol:— yn gyntaf, y maent yn cyfoethogi ac yn helaethu iaith. Trwyddynt hwy lluosogir geiriau ac ymadroddion, er gosod allan bob math o feddyliau, er darlunio hyd yn nod y gwahaniaeth lleiaf, godremiadau manylaf ac eil-liwiau y meddwl, yr hyn ni fuasai alluadwy i unrhyw iaith wneuthur drwy eiriau priodol yn unig, heb gymhorth troellau. Yn ail, rhoddant yn fynych i ni olygiad llawer mwy eglur a nodedig ar y prif wrthddrych, nag a allem gael pe gosodid ef allan mewn geiriau syml, ac y diosgid ef o'i feddylddrych cyfranogol. Trwy droell, wedi ei dewis yn iawn, hyd yn nod cynorthwyr argyhoeddiad, a gwna y gwirionedd argraff mwy bywiog a grymus ar y meddwl, nag mewn modd amgen. Canfyddwn hyn drwy yr eglurhad canlynol:—*Pan y suddwn yn rhy ddwfn mewn digrifwch, yr ydym yn cyffroi gwaddod a'i gwna yn anmhur a niweidiol: ac yn yr anghraifft hon, Calon yn berwi gan nwydau angerddol, a enfyn i fynny yn wastud agerdd syfrdanus i'r pen.* Y mae cyffelybiaeth a ddengys gymaint o gysondeb rhwng meddylddrych moesol a theimladwy, yn gwasanaethu, fel rheswm a ddygir oddiwrth gyfatebiad y naill beth i'r llall, i gadarnhau yr hyn a haera yr awdwr, ac i annog crediniaeth.

Gwedi ystyried natur gyffredinol troellau, awn yn mlaen i sylwi yn neillduol ar y rhai mwyaf pwysig o honynt, sef y canlynol:—

1. *Am Drawsddwyn.*

Trawsddwyn sy ddull ymadrodd sylfaenedig yn hollol ar y cyfatebiad a ddyg y naill wrthddrych i'r llall: oddiwrth hyn y mae yn gareunnydd agos i gyffelybiaeth neu gymhariaeth; ac yn wir nid yw amgen na chyffelybiaeth wedi ei gosod allan yn gryno. Pan ddywedwyf am ryw weinidog mawr, *Y mae efe yn cynal y wladwriaeth fel y golofn a gynal bwys yr holl adeilad*, yr wyf yn amlwg yn gwneyd cymhariaeth; ond pan ddywedwyf am y cyfryw un, *Efe yw colofn y wladwriaeth*, try yn awr yn drawsddwyn. Yn yr achos diweddaf, gwneir y gymhariaeth rhwng y gweinidog a'r golofn yn y meddwl, eithr y mae yn cael ei fynegu heb eiriau a ddynodant gymhariaeth.

Y canlynol ydynt gynlluniau o drawsddwyn wedi eu cymeryd o'r Ysgrythyr:—Myfi a fyddaf iddi hi yn *fur o dân* o amgylch, ac yn ogoniant yn ei chanol. Ti yw fy *nghraig* a'm *hamddiffynfa*. *Llusern* yw dy air i'm traed, a *llewyrch* i'm llwybr. Diosgaist fy *sach-wisg*. Pob cnawd sydd *wellt*. *Gwisgwch* am danoch yr Arglwydd Iesu. Myfi yw *drws* y defaid.

Rheolau i'w cadw wrth arfer trawsddwyn.

1. Ni ddylid dwyn i mewn drawsddwyn, mwy na throellau ereill, ar un achlysur, yn rhy fynych; a dylai fod yn wastad yn gyfryw ag a gydweddo â rhediad ein syniadau.

2. Dylid gofalu fod y gyffelybiaeth, yr hon yw sylfaen y drawsddwyn, yn eglur a goleu; nid wedi ei chyrchu o bell, nac yn anhawdd i'w chanfod. Troseddiad o'r rheol hon a effeithia yr hyn a elwir trawsddwyn afrywiog neu gymhelliedig, yr hon sydd anfoddfaol, oherwydd ei bod yn rhwystrus i'r darlennydd, ac yn lle amlygu y meddwl, yn ei wneuthur yn ddyrys a thywyll.

3. Dylem fod yn ofalus, wrth arwain trawsddwyn yn mlaen, i beidio cymysgu iaith draws-symudol ac eglur yn nghyd.

4. Dylem ochelyd rhag i ddwy drawsddwyn annghyson gyfarfod ar yr un pwnc. Hyn a elwir trawsddwyn gymysgedig, ac y mae yn un o'r cam-gymhwysiadau mwyaf o'r droell hon. Gall un fod yn *ymgysgodi* dan nawdd gwr mawr: ond nid iawn a fyddai dywedyd, *Ymgysgodi* dan fiswrn rhagrith; am fod miswrn yn cuddio, ac nid yn cysgodi. Megys na ddylid byth gymysgu trawsddwyn, felly ni ddylid pentyru lluaws o honynt yn nghyd ar yr un gwrthddrych; oherwydd teimla y meddwl anhawsder i fyned yn rhwydd drwy amryw olygiadau gwahanol ar yr un gwrthddrych yn cael eu cyflwyno mewn canlyniad didor.

5. Y rheol ddiweddaf mewn perthynas i drawsddwyn, yw peidio ei chanlyn yn rhy bell. Os cadwir at y gyffelybiaeth y sylfaenwyd y droell arni yn hir, a'i dwyn i'w holl fân amgylchiadau, blinir y darllenydd, yr hwn a ddiflasa yn fuan ar y dirdyniad hwn o'r dychymyg; a ni a wnawn ein hymadroddion yn aneglur. Gelwir hyn, gorestyn trawsddwyn. Awdwyr o grebwyll bywiog a chryf, ydynt dueddol i redeg i'r gormodedd hwn o drawsddwyn. Pan y tarawant wrth droell a'u boddia, y mae yn anhawdd ganddynt ymadael â hi, ac yn fynych hwy a'i canlynant mor bell fel y terfyna yn annyben a dyryslyd.

## 2. *Am Aralleg.*

Gellir golygu aralleg fel trawsddwyn barhaol, gan mai darluniad ydyw o ryw un peth drwy arall yn tebygoli iddo, yr hwn a osodir i sefyll yn ei le. Ceir cynllun rhagorol iawn o aralleg yn Salm lxxx., lle y dangosir pobl Israel dan gyffelybiaeth gwinwydden, ac y mae y dull hwn o

ymadrodd yn cael ei arwain yn mlaen yno gyda manyl-  
rwydd a phrydfferthwch mawr:—*Mudaist winwydden o'r  
Aipht : bwriaist y cenedloedd allan, a phlenaist hi. Arloes-  
aist o'i blaen, a pheraist i'w gwraidd wreiddio, a hi a lanw-  
odd y tir. Cuddiwyd y mynyddoedd gan ei chysgod; a'i  
changenau oedd fel cedrwydd rhagorol. Hi a estynodd ei  
changau hyd y môr, a'i blagur hyd yr afon. Paham y  
rhwygaist ei chaeau, fel y tyno pawb a elo heibio ar hyd y  
ffordd ei grawn hi? Y baedd o'r coed a'i turia, a bwystfil  
y maes a'i pawr. O Dduw y lluoedd, dychwel, atohwg :  
edrych o'r nefoedd, a chenfydd, ac ymwel â'r winwydden  
hon. Gwel hefyd Ezech. xvii. 22—24.*

Y prif beth gofynol yn nghyfansoddiad aralleg ydyw,  
peidio cymysgu y meddwl traws-symudol a llythyrenol â'u  
gilydd yn anghyson. Yn wir, gellir cymhwyso yr holl  
reolau a roddwyd am drawsddwyn at aralleg hefyd, o achos  
y berthynas agos a ddygant i'w gilydd. Yr unig wahan-  
iaeth pwysig rhyngddynt, heblaw fod y naill yn fer a'r  
llall yn hir, yw, fod y drawsddwyn bob amser yn egluro ei  
hun, drwy y geiriau cysylltiedig â hi, yn eu hystyr priodol  
a naturiol: megys pan ddywedwyf, *Llew oedd Picton*; *gweinidog  
synwryol yw colofn y wladwriaeth*; y mae y  
*llew a'r golofn* yn derbyn deongliad digonol drwy grybwyll  
am *Picton* a'r *gweinidog*, y rhai a gysylltwyf â hwynt:  
ond caniateir i aralleg sefyll yn llai cysylltiedig â'r ystyr  
llythyrenol, gan nad ydyw y deongliad yn cael ei nodi  
mor union-gyrchiol, eithr ei adael i ni i wneuthur ein had-  
fyfyrdodau arno.

Aralleg ydoedd ddull dewisol o draddodi addysg yn yr  
hen amseroedd; oherwydd nid ydyw yr hyn a alwn ni yn  
ffug-chwedlau neu ddiarebion, amgen nag arallegau. Trwy  
y geiriau a'r gweithredoedd a briodolir i fwystfilod neu

wrthddrychau difywyd, yr oedd tueddiadau dynion yn cael eu dangos; a'r hyn a elwir y *cymhwysiad*, ydyw ystyr eglur neu feddwl yr aralleg.

### 3. *Am Drawsenwad.*

Trawsenwad sydd yn sylfaenedig ar amrywiol berthynasau achos ac effaith, cynwysydd a chynwysedig, arwydd a'r peth a arwyddoceir, i'w gilydd. Pan ddywedir, yn Act. viii. 28, fod yr *Eunuch yn darllain y prophwyd Esaias*, rhoddir yr achos yn lle yr effaith, gan feddwl prophwydoliaeth Esaias. O'r tu arall, pan ddywedir, yn Salm lxxxv. 11, *Cyfiawnder a edrych i lawr o'r nefoedd*, y mae yr effaith yn cael ei ddodi yn lle yr achos, gan feddwl wrth gyfiawnder, yr Hollalluog, yn yr hwn y trigfana cyfiawnder. *Y mae y crochan yn berwi*, sydd ymadrodd yn yr hwn y rhoddir y cynwysydd am y peth cynwysedig. *Cymeryd y deyrnwialen*, sy ddywediad cyffredin am dderbyn awdurdod breninol, yr arwydd yn cael ei ddodi am y peth a arwyddoceir.

### 4. *Am Gyforddwyn.*

Pan ddodir y cyfan am ran, neu ran am y cyfan; cenedl am rywiogaeth, neu rywiogaeth am genedl; yn gyffredin, pan roddir unrhyw beth llai, neu unrhyw beth mwy, am y gwrthddrych penodol a feddylir; gelwir y dull hwnw o ymadrodd *cyforddwyn* neu *orymdwyn*. Y mae yn beth cyffredin iawn, er anghraifft, i ddarlunio gwrthddrych cyfaangwbl drwy ryw ran nodedig o hono; megys, pan ddywedir, yn Act. xviii. 12, *Cyfododd yr Iuddewon yn unfryd yn erbyn Paul*; hynny yw, rhan fawr o honynt, nid yr holl genedl. Pan arferir yr hanfod cyfan am ran; megys, Gen. xxv. 10, *Yno y claddwyd Abraham a Sarah ei wraig*; hynny yw, *cyrff* Abraham a Sarah. Mewn modd cyffelyb, gellir



rhoddi rhyw briodoledd am y gwrthddrych ei hun ; megys, *Yr ieuenctyd, am yr ieuainc ; y dyfnder, am y môr ; ac weithiau, y gwrthddrych am ei briodoledd.*

#### 5. *Am Watwariaith.*

Gwatwariaith yw dywedyd yn y gwrthwyneb i'n meddyliau, nid â bwriad i dwyllo, ond i ychwanegu grym i'n sylwadau. Gellir ceryddu dynion am eu hesgeulusdra, drwy ddywedyd, *Chwi a gymerasoch ofal mawr yn ddiâu.* Cyngoriad gwatwarol sy ddull hyfryd iawn o ymadroddi ; yr hwn, wedi gosod anghyfleusderau rhyw beth yn y gol-euni amlycaf, a derfyna âg annogaeth ffuantus i'w ddylyn ; megys, Barn. x. 14, *Ewch a llefwch at y duwiau a ddewisasoch : gwardant hwy chwi yn amser eich cyfyngdra.* Testunau gwatwariaith ydynt feiau a ffolinebau o bob math ; ac y mae y ffordd hon o'u dangos hwynt, yn fynych, yn fwy effeithiol nag ymresymiad difrifol. Nid yw y dynion mwyaf dwys wedi gochelyd arfer y droell hon, ar achlysuron priodol. Y gwr doeth a rhinweddol hwnw, Socrates, a wnai ddefnydd mawr o honi, yn ei ymegniadau i anghefnogi arferion beius ac ynfyd. Hyd yn nod yn yr Ysgrythyrau santaidd, cawn anghreiffiau neillduol o honi. Y prophwyd Elias, wrth herio offeiriaid Baal i brofi gwirionedd eu duw, a ddywedodd, *Gwaeddwch â llef uchel ; canys duw yw efe : naill ai ymddyddan y mae efe, neu erlid, neu ymdeithio y mae efe ; fe a allai ei fod yn cysgu, ac mai rhaid ei ddeffro ef.*

#### 6. *Am Ormoddiaith.*

Y droell nesaf am ba un yr ydym i draethu, a elwir *gormoddiaith* neu *fwyhad*. Y mae yn gynwysedig mewn mawrhau gwrthddrych tu hwnt i'w derfynau naturiol.

Mewn pob iaith, ac hyd yn nod mewn ymddyddan cyffredin, y mae ymadroddion dros ben y gwirionedd yn dygwydd yn fynych ; megys, *Cynt na'r gwynt, gwynach na'r eira, &c.* : a'r ffurfiau cyffredin o anerchiad ydynt oll bron yn fath o ormoddiaith, tu hwnt i bob galluogrwydd i fod felly. Os bydd unrhyw beth yn hynod dda neu fawr yn ei rywiogaeth, yr ydym yn ddiattreg yn barod i ychwanegu ato ryw air helaethol, ac i'w wneuthur ef y mwyaf neu y goreu a welsom erioed. Y mae yn y dychymyg dueddiad bob amser i foddhau ei hun drwy fawrhau ei wrthddrych presennol, a'i arwain i ormoddedd. Ffyna mwy neu lai o'r dull gormoddol hwn mewn iaith, yn ol bywiogrwydd dychymyg y bobl a'i llefarant. Oblegyd hyny y mae dynion ieuainc yn ymdrin llawer â gormoddiaith. Oblegyd hyny yr oedd iaith y Dwyreinwyr yn myned lawer mwy dros ben y gwirionedd, nag eiddo preswylwyr Ewropa, y rhai ydynt yn fwy swrth, neu hwyrach y gallwn ddywedyd, yn fwy cywir eu dychymyg. Felly, yn mhlith pawb ysgrifenwyr mewn amseroedd boreuol, a phan oedd dynolryw yn drwsogl ac anghymhen, gallwn ddysgwyl cyfarfod â'r droell hon yn aml. Profiad helaethach, a chymdeithasau wedi mwynhau gwell meithriniaid, mewn oesoedd canlynol, a leihasant boethder y dychymyg, ac, fel pe bai, a geryddasant y dull cyntefig o'i fynegu.

Cawn gynllun o ormoddiaith yn 1 Bren. iv. 20: *Juda ac Israel oedd aml, fel y tywod sy gerllaw y môr o amltra.* Yr un modd hefyd y deallir Salm lxxviii. 27: *Gwlawiodd gig arnynt fel llwch, ac adur asgellog fel tywod y môr.*

#### 7. *Am Gamarferiad.*

Camarferiad fydd, pan fenthycir gair o'i briodolder ei hunan i arwyddocad amhriodol ; a hyny, weithiau, a

ddengys fwy o ryfeddod ac o ystyr, oherwydd hyfder a newydd-beth ; megys, Gen. xlviii. 4, *Rhoddaf y tir hwn i'th had di ar dy ol di, yn etifeddiaeth dragywyddol.* Y gair *tragywyddol*, yn ei briodolder ei hun, a arwyddoca barhad annherfynol, ac a fenthycir yma i ddangos helaethder yr addewid o wlad Canaan i blant Israel. Yn ol y droell hon y dywedir, *Tori y dydd, am dyddau ; y glust yn yfed yr ymadrodd, am gwrandaw yn gofus ; gwelodd ei gamsyniad, am dealiodd ei gamsyniad.* Wrth hyn adnabyddir amryw o'r fath ; ond gocheler rhag arfer y gyffelybiaeth â phethau rhy anghymharol.

#### 8. *Am Gyffelybiad.*

Cyffelybiad yw, pan fynegir y tebygolrwydd rhwng dau wrthddrych mewn dull, ac yn gyffredin a ddylynir yn gyflawnach nag y caniatia natur trawsddwyn ; megys, Salm cxxxiii., *Wele mor ddaionus ac mor hyfryd yw trigo o frodyr yn nghyd ! Y mae fel yr enaint gwerthfawr ar y pen, yn disgyn ar hyd y farf, sef barf Aaron ; yr hwn oedd yn disgyn ar hyd ymyl ei wisgoedd ef : fel gwllith Hermon, ac fel y gwllith yn disgyn ar fynyddoedd Sion.*

Buddioldeb y droell hon a ddeillia oddiwrt h yr eglurhad a ddyry y gyffelybiaeth ddefnyddiedig i'r prif wrthddrych ; oddiwrt h y golygiad cyflawnach a gyflwyna, neu yr argraff ddwysach a wna ar y meddwl. Mewn cyffelybiadau o'r natur hon, y mae mwy o lawer yn perthyn i'r deall na'r dychymyg ; ac am hyny y rheolau i'w cadw gyda golwg arnynt hwy, ydynt, eu bod yn eglur a defnyddiol ; eu bod yn tueddu i wneuthur ein hamgyffrediad o'r prif wrthddrych yn fwy goleu ; ac na byddont yn arwain ein golwg i'r neilldu, a'i ddyrysu â llewyrch twyllodrus. Dylem gofio, bob amser, nad rhesymau ydynt gyffelybiaethau. Pa

mor briodol bynag y byddant, ni wnant ychwaneg nag egluro syniadau yr ysgrifenydd; ni phrofant eu bod yn sylfaenedig ar wirionedd.

#### 9. *Am Waeddolef.*

Gwaeddolef sydd effaith cynhyrriad grymus yn y meddwl; megys, syndod, rhyfeddod, llawenydd, tristwch, a'r cyffelyb. Gwelir cynllun hynod o hyn yn Jer. ix. 1, 2: *O na bai fy mhen yn ddyfroedd, a'm llygaid yn ffynnon o ddagrau, fel yr wyhwn ddydd a nos am laddedigion merch fy mhobl! O na byddai i mi yn yr anialwch lety ffordd-olion, fel y gadawn fy mhobl, ac yr elwn oddiwthynt! canys hwynt oll ydynt odinebus, a chymanfa anffyddloniaid!*

#### 10. *Am Attaliaith.*

Attaliaith sy ddull, drwy yr hwn, gan ddigllonedd neu ryw gythrybliad arall yn y meddwl, ni ddywedir yn gyflawn yr hyn a fwriedir, ond torir ymaith yr ymadrodd yn ddisymwth, gan ddangos ar yr un pryd y peth a feddylir yn mhellach; megys, Hos. iv. 17, *Ephraim a ymgysylltodd âg eilunod: gad iddo.*

#### 11. *Am Wrthdroad.*

Gwrthdroad sy ddull o ymadrodd, pan droir oddiar rediad rheolaidd y testun, i anerch rhyw berson neu beth; megys, 1 Cor. xv. 54, 55, *Angeu a lyncwyd mewn buddygoliaeth. O angeu, pa le mae dy golyn! O uffern, pa le mae dy fuddygoliaeth!* Y canlynol sydd anghraifft o ddynsodiad a gwrthdroad yn gyfunedig:—*O gleddyf yr Arglwydd, pa hyd ni lonyddi? dychwel i'th wain, gorphwys a hydd ddystaw. Pu fodd y llonydda efe, gan i'r Arglwydd ei orchymyn ef yn erbyn Ascelon, ac yn erbyn glan*

*y môr ? yno y gosododd ef*, Jer. xlvii. 6, 7. Gwel hefyd gynllun hynod o'r troellau hyn yn Esay xvii. 4—19.

12. *Am Ohiriad.*

Gohiriad yw canlyniad o ymadrodd dechreuedig yn y fath fodd ag y boddheir y darllenydd ar ei hyd, gan ei gadw mewn dysgwyliad o rywbeth nodedig yn y diwedd ; megys, Rhuf. viii. 38, 39, *Mae yn ddiogel genyf nas gall nac angeu nac einioes, nac angelion, na phethau presennol, na phethau i ddyfod, nac uchder, na dyfnder, nac un creadur arall, ein gwahanu ni oddiwrth gariad Duw, yr hwn sydd yn Nghrist Iesu ein Harglwydd.*

13. *Am Ofyniaith.*

Meddwl eglur a llythyrenol gofyniaith, yw cynyg holiad : ond pan fydd dynion wedi eu cyffroi yn rymus, pa beth bynag a fynent haeru neu wadu gyda difrifwch mawr, hwy yn naturiol a'i dodant ar ddull holiad, gan fynegu drwy hyny yr ymddiried cadarnaf yn ngwirionedd eu syniadau eu hunain, a chyrchu at eu gwrandawyr am eu barn mewn perthynas i analluoldeb y gwrthwyneb. Yn ol y dull hwn y dywedodd Balaam wrth Balac, Num. xxiii. 19, *Nid dyn yw Duw, i ddywedyd celwydd ; na mab dyn, i edifarhau : a ddywedodd efe, ac nis cyflawna ? a lefarodd efe, ac oni chywira ?*

14. *Am Ad-ddywediad.*

Ad-ddywediad a fydd, pan ail-adroddir, naill ai yr un geiriau drachefn, neu yr un synwyr mewn geiriau ereill, a hyny yn addas a phwysig ; megys, Salm xxix. 4, *Llef yr Arglwydd sy mewn grym : llef yr Arglwydd sy mewn prydferthwch.* Yr un synwyr mewn gwahanol eiriau ;

megys, Job xxxii. 15, *Hwy a synasant, nid atebasant mwy, peidiasant a llefaru.*

15. *Am Gyferbyniad.*

Cyffelybiad sydd yn sylfaenedig ar debygoliaeth, ond cyferbyniad ar anghymhariaeth neu wrthwynebiad dau wrthddrych i'w gilydd. Y mae cyferbyniad yn effeithiol bob amser i beri i'r naill a'r llall o'r gwrthddrychau cyferbyniol ymddangos mewn goleuni amlycach. *Gwyn*, er anghraifft, nid ymddengys un amser mor ddysglaer a phan fyddo yn wrthwynebol i *ddu*, a phan fwrir golwg ar y ddau yn nghyd. Cymerer y cynllun canlynol o'r Ysgrhythyr:—*Anweddaidd yw i ffol ymadrodd rhagorol; mwy o lawer i bendefig wefusau celwyddog*, Diar. xvii. 7. Gwel hefyd 2 Cor. vi. 8—10.

16. *Am Gylchymadrodd.*

Cylchymadrodd yw amlygu un gair â llawer, a hyny er harddu, sicrhau, neu estyn yr ymadrodd; megys pan ddywedir, *Tad y ffyddloniaid*, am *Abraham*; *duw y byd hwn*, am *y diafol*; *dwyn tystiolaeth*, am *tystiolaethu*, &c.: neu pan fyddo enw yn cael ei guddio, ac arfer geiriau ereill i'w arwyddo; megys y dywedwyd am Lazarus wrth yr Iesu, *Wele, y mae yr hwn sydd hoff genyt ti yn glaf*. Hefyd pan ddywedir geiriau ereill amgylchedig dros ymadrodd anweddaidd.

17. *Am Raddeb.*

Graddeb sy gynwysedig mewn dyrchafu holl amgylchiadau gwrthddrych neu weithred, yr hon a fynem osod mewn goleuni amlycach; megys, 2 Pedr i. 5—7, *Chwanegwch at eich ffydd, rinwedd; ac at rinwedd, wybodaeth; ac at wybodaeth, gymedrolder; ac at gymedrolder, amyn-*

*edd; ac at amynedd, dduwioldeb; ac at dduwioldeb, garedigrwydd; ac at garedigrwydd brawdol, gariad.*

#### 18. *Am Oddefiad.*

Goddefiad sy ddull ymadrodd drwy ba un y mae y gofynydd yn caniatâu, neu yn addef, fod yr hyn a ddywedir yn ei erbyn yn wir, a thrwy hyn yn cael gwell gwrandawriad, ac yn ennill ewyllys da y rhoddwr yn fwy. Cynllun hynod o hyn a geir yn atebiad y wraig o Ganaan i Grist, pan ddywedodd efe wrthi, *Nid cymhwys yw cymeryd bara y plant a'i daflu i'r cenawon cwn. Hithau a utebodd ac a ddywedodd wrtho, Gwir, O Arghwydd: ac eto y mae y cenawon dan y bwrdd yn bwyta o friwsion y plunt, Marc vii. 27, 28.*

#### 19. *Am Ddysodiad.*

Ddysodiad a fydd, pan ddywedir fod yn llefaru y neb nid yw, neu pan ddyweddir yn ddychymyngol bethau difwyd, gan olygu peth mud yn dafodiog; megys, Job xxviii. 12, 14, 22, *Pa le y ceir doethineb? Y mae y dyfnder yn dywedyd, Nid yw hi ynof fi: ac y mae y môr yn dywedyd, Nid yw hi gyda myfi. Colledigaeth a marwolaeth sydd yn dywedyd, Ni a glywsom â'n clustiau son am dani hi. Gwel hefyd Salm cxiv. 3, 4, Y môr a welodd hyn, ac a giliodd; yr Iorrdonen a drodd yn ol. Y mynyddoedd a neidiasant fel hyrddod, a'r bryniuu fel ŵyn defaid.*

#### 20. *Am Ragflaeniad.*

Rhagflaeniad yw, pan gyfodo yr awdwr wrthddadl yn ei ymadrodd, pa un a ragwel efe a allai fod yn erbyn yr hyn a sicrheir, a ddeisyfir, neu a gymeradwyir ganddo, gan ateb y cyfryw ei hun; megys, Mat. iii. 9, *Na feddyliwch ddywedyd ynoch eich hunain, Y mae genym ni Abraham yn*

*dad i ni : canys fe ddichon Duw, ie, o'r meini hyn gyfodi plant i Abraham.*

21. *Am Fyrieithiad.*

Byrieithiad sy ddull cryno cynwysfawr o ymadroddi, yr hyn a fydd pan ddywedir llawer mewn ychydig eiriau; megys, *Anmharod pob anallu. Hen bechod a wna gywilydd newydd. Meddwl dyn Duw a'i terfyn.* Y fath, yn gyffredin, ydynt holl Ddiarebion Solomon.

22. *Am Ddiweddllef.*

Diweddllef sy ddull ymadrodd bywiog a ffraethlym yn niwedd unrhyw draethawd, neu adfyfyrdod cyflym ar yr hyn a grybwyllwyd o'r blaen; megys, Rhuf. xi. 33, *O ddyfnder golud doethineb a gwybodaeth Duw! mor anchwil-iadwy yw ei farnau ef! a'i ffyrdd mor anolrheinadwy ydynt!*

Er fod gwahanol droellau yn eglurhau ac yn addurno amrywiol gynhyrffiadau y meddwl, eto nid mewn ehediadau rhy uchel, a chyffelybiaethau dros weddusder, y mae harddwch penaf pob ymadrodd yn sefyll; oherwydd yn y geiriau mwyaf syml ac eglur, weithiau, y dangosir y meddwl gadarnaf.

Dealedd y darlennydd fod enwau, rhywiau, a rhifedi y dulliau o ymadroddi, mewn areithyddiaeth ac ysgrifenyddiaeth, yn dra lluosog, a braidd yn ddiderfyn; eto, y rhai a grybwyllwyd uchod a olygir fel y mwyaf pwysig o honynt, ac a gyflewyrchwyd yma fel addysg i'r anwybodus o ddull a threfn troell-ymadrodd. Pwy bynag a chwennycho ragor o hysbysiaeth yn nghylch hyn, ymofyned â'r llyfryn a gyfenwir, "*Egluryn Ffraethineb*, yr hwn a ddechreuwyd gan Mr. WILLIAM SALESBURY, a anghwanegwyd ac a orphenwyd gan Mr. HENRI PERRI, drwy draul Syr SION



SALESBURY, o Leweni, yn swydd Dinbych," a dianmheu y boddlonir ef hyd eithaf ei ddysgwyliaidau. Cynwysir ynddo gynlluniau priodol o bob troell, yn nghyda chadernyd a phurdeb iaith na chyfarfyddir â hwynt ond lled anfynych yn nghyfansoddiadau mwyaf gorchestol ysgrifenywyr yr oes hon.

---

### ANERCHEB I'R GRAMMADEG.

GROESAW, Rammadeg goreuswydd!—mae'n bro  
Mewn brys—tyr'd yn ebrwydd:  
Iē, coeliwyf, cei wiwlwydd,  
Yn ein gwlad, a rhediad rhwydd.

Grammadeg â grym odiaeth,—ei Awdwr  
A edwyn ddysgeidiaeth:  
Noder ar ei feirniadaeth,  
A'i ddoniau ffrwm, wiwddyn ffraeth.

Darlith eres ar dêr Lythraeth—geir,  
Ac ar Acenyddiaeth;  
Goraddien drin Geiryddiaeth,  
A Chystrawen geinwen, gwnaeth.

Syllodd i'r *hen ddull* o silliw,—gwelai  
Mai gwael oedd ei bleidiaw;  
Llythraeth hell, ei tharaw  
A wnaeth â'i droed i'w nhyth\* draw! [\* *Tudal*. 48.]

Un gywirlem drem i'w Draith—gwiw haeddawl,  
Gyhudda'r anmherffaith:  
Mesurydd, profydd prifwaith,  
Pair yw ef er puro Iaith.


O gommedd Cymro, yn gymhen,—ddysgu  
Ei ddwysgall Iaith burwen,  
Hwnw ddylai, yn ddilen,  
Gwyno byth, *mai gwan ei ben!*

*Aberystwyth.*

DWNEYDD.

Bethan i w. Ceisio.  
2 Sam. xi. 10. ait.

mhen  
wysir  
had-  
led  
ifer-



**LLYFRAU CYMREIG**  
**AR WERTH GAN E. WILLIAMS,**  
**Argraffydd a Llyfrwerthydd,**  
**HEOL-Y-BONT, ABERYSTWYTH.**

	<i>P. s. c.</i>
Esboniad Berniadol a Duwinyddol ar yr Hen Destament a Newydd, allan o weithiau Clarke, Benson, Sutcliffe, Wesley, &c. &c. &c. Ni fydd fawr dro.	2 0 0
Gwaith Josephus, yr Hanesydd Iuddewig . . . . .	1 2 0
Taith y Pererin, wedi ei rwymo yn hardd . . . . .	0 10 0
Duwinyddiaeth Cristionogol, gan J. Calvin . . . . .	0 6 6
Geiriadur Cymraeg a Seisoneg, gan W. Richards . . . . .	0 5 0
Arall, Seisoneg a Chymraeg, gan yr un . . . . .	0 5 0
Dechreuad a Chynnydd Crefydd, gan Dr. Doddridge . . . . .	0 4 0
Traethawd am yr Ysbryd Glân, gan Dr. Owen . . . . .	0 3 6
Golwg Byr ar yr Hanes Ysgrythyrol, gan Dr. Watts . . . . .	0 3 0
Y Tabernacl Newydd, gan A. Shadrach . . . . .	0 3 0
Tlysau Aur, gan yr un . . . . .	0 2 0
Y Cristion Dystaw, &c., gan T. Brooks . . . . .	0 2 0
Yr Ymofynydd Pryderus, gan J. A. James . . . . .	0 1 6
Hyfrydwch Buchedd Grefyddol, gan M. Henry . . . . .	0 1 6
Tyred a Groesaw at Iesu Grist, gan J. Bunyan . . . . .	0 1 6
Ocheneidiau o Uffern, gan yr un . . . . .	0 1 0
Casgliad o Hymnau W. Williams, Pantycelyn . . . . .	0 1 0
Gweddillion Payson . . . . .	0 1 0
Grammadeg Cymraeg, gan John Parry . . . . .	0 1 0
Drws y Society Profiad, gan W. Williams . . . . .	0 0 8
Yr Athrawydd, gan W. Jenkin . . . . .	0 0 6
Gweddillion Detholedig y Parch. J. Mason . . . . .	0 0 6
Cofiant y Parch. G. Whitfield . . . . .	0 0 6
Y Swpper Santaidd, gan Thomas Watson . . . . .	0 0 6
Y Teithiwr Americanaidd, gan E. Jones, Cincinnati . . . . .	0 0 6
Yr Eoslais, sef Casgliad o Farddoniaeth . . . . .	0 0 6
Hymnau, gan Edward Jones, Maesyplwm . . . . .	0 0 6
Ereill, o waith amryw awdwyr . . . . .	0 0 6
Yr Hyfforddwr, gan T. Charles . . . . .	0 0 4
Buddioldeb yr Iau i Bobl Ieuainc, gan J. Elias . . . . .	0 0 4
Dyferyn Dewisol o Fêl, gan Thomas Wilcox . . . . .	0 0 3
Drych i'r Anllythyrenog . . . . .	0 0 3
Cristion y Bibl, neu Nodweddiad y Gwir Gredadyn . . . . .	0 0 3
Sylwadau ar Bregethu, Canu, &c. . . . .	0 0 3
Cyfarchiad at Bregethwyr ac Astudwyr . . . . .	0 0 3
Rheolau yr Ysgol Sabbathol, gan E. Richards . . . . .	0 0 2
Llwyddiant wrth Orsedd Gras, gan D. Rowlands . . . . .	0 0 2
Rhodd Tad i'w Blant . . . . .	0 0 2
Yr Egwyddorrig, neu Arweinydd i Ddysgu Darllain . . . . .	0 0 2

&c. &c. &c.

**Llyfrau Ysgol, Cymreig a Seisoneg, o bob math.**

ELW DA I AIL-WERTHWYR.

